# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 10/11/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Trefn Trafod Gwelliannau'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
3. Order of Consideration of Amendments for the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

5. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)
5. Stage 3 Debate on the Renting Homes (Wales) Bill


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon, everyone. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da, bawb. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is Mick Antoniw.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan Mick Antoniw.

**Cysylltiadau Diwydiannol**

**Industrial Relations**

13:30

### Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwr cysylltiadau diwydiannol yng Nghymru? OAQ(4)2552(FM)e*

*1. Will the First Minister make a statement on the state of industrial relations in Wales? OAQ(4)2552(FM)*

**Cysylltiadau Diwydiannol**

**Industrial Relations**

### Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr angen am gysylltiadau diwydiannol cadarnhaol yng Nghymru? OAQ(4)2547(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the need for positive industrial relations in Wales? OAQ(4)2547(FM)*

13:30

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I understand that you've given your permission for questions 1 and 5 to be grouped. The Welsh Government encourages good industrial relations in Wales and works in social partnership with employers and trade unions to support this.

Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi eich caniatâd i gwestiynau 1 a 5 gael eu grwpio. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cysylltiadau diwydiannol da yng Nghymru ac yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda chyflogwyr ac undebau llafur i gefnogi hyn.

13:30 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. First Minister, we can be, I think, proud of the good and constructive industrial relations that we've developed within Wales and the partnerships that have been formed over many decades. Of course, the trade union Bill going through Westminster seeks to undermine that good work. We have a situation in England where you even have junior doctors now balloting for industrial action. First Minister, do you think there is much that the UK Government could learn from the positive experience we've had from Welsh Government within Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, gallwn, rwy'n credu, fod yn falch o'r cysylltiadau diwydiannol da ac adeiladol yr ydym ni wedi eu datblygu yng Nghymru a'r partneriaethau a ffurfiwyd dros sawl degawd. Wrth gwrs, mae'r Bil undebau llafur sy'n mynd drwy San Steffan yn ceisio tanseilio'r gwaith da hwnnw. Mae gennym ni sefyllfa yn Lloegr lle mae gennych chi hyd yn oed meddygon iau yn pleidleisio dros weithredu diwydiannol erbyn hyn. Brif Weinidog, a ydych chi'n credu bod llawer y gallai Llywodraeth y DU ei ddysgu o'r profiad cadarnhaol yr ydym ni wedi ei gael gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru?

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, indeed they can. It's appalling what's being proposed in the Trade Union Bill, and I can say to the Assembly that we will be doing all that we can in order to make sure that where we believe there is a devolution question, we will pursue that in terms of public services in Wales. And, if we can, we will seek to oppose the parts of the trade union Bill that affect devolved public services.

Ydw, mi allant yn wir. Mae'n ofnadwy yr hyn sy'n cael ei gynnig yn y Bil Undebau Llafur, a gallaf ddweud wrth y Cynulliad y byddwn yn gwneud popeth y gallwn er mwyn gwneud yn siŵr, lle credwn fod cwestiwn datganoli, y byddwn yn mynd ar drywydd hynny o ran gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ac, os gallwn, byddwn yn ceisio gwrthwynebu rhannau o'r Bil undebau llafur sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig.

In relation to the junior doctors issue, that is a sign of the sorry state that the NHS is in in England and the way it is being managed.

O ran mater y meddygon iau, mae hwnnw'n arwydd o'r cyflwr truenus y mae'r GIG ynddo yn Lloegr a'r ffordd y mae'n cael ei reoli.

13:31 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you'll be aware that Caerphilly County Borough Council have passed a motion opposing the UK's Trade Union Bill. Will you join me in sharing their concerns about the adverse impact this Bill will have on Welsh workers' rights?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi pasio cynnig yn gwrthwynebu Bil Undebau Llafur y DU. A wnewch chi ymuno â mi i rannu eu pryderon am yr effaith andwyol y bydd y Bil hwn yn ei chael ar hawliau gweithwyr Cymru?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. It's a straightforward attack on workers' rights. I'd encourage other councils to follow Caerphilly's lead, because we know that it is all about trying to strip people of their rights in work, to try and make it more difficult for them to join a trade union, and it is, in that sense, a fundamental attack on rights and democracy.

Yn sicr. Mae'n ymosodiad uniongyrchol ar hawliau gweithwyr. Byddwn yn annog cynghorau eraill i ddilyn esiampl Caerffili, gan ein bod ni'n gwybod ei fod yn ymwneud â cheisio cymryd hawliau pobl yn y gwaith oddi wrthynt, i geisio ei gwneud yn anoddach iddyn nhw ymuno ag undeb llafur, ac, yn yr ystyr hwnnw, mae'n ymosodiad sylfaenol ar hawliau a democratiaeth.

13:32 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be aware of the current dispute between the Public and Commercial Services Union and the Welsh Government sponsored body, National Museum Wales. The dispute is about a number of issues, including senior management's proposals to remove premium payments for weekend working, which makes up between 12 per cent and 15 per cent of the take-home pay of front-of-house staff. Will the First Minister tell us how National Museum Wales's refusal to look at alternative proposals suggested by PCS fit in with his Government's wish to promote positive industrial relations in Wales?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r anghydfod presennol rhwng yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a'r corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae'r anghydfod yn ymwneud â nifer o faterion, gan gynnwys cynigion uwch reolwyr i ddileu taliadau premiwm ar gyfer gweithio ar benwythnosau, sy'n dod i gyfanswm o rhwng 12 y cant a 15 y cant o gyflog mynd adref staff blaen tŷ. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym sut y mae gwrthodiad Amgueddfa Cymru i edrych ar gynigion amgen a awgrymwyd gan PCS yn cyd-fynd â dymuniad ei Lywodraeth i hybu cysylltiadau diwydiannol cadarnhaol yng Nghymru?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Is he really trying to present himself and his party as the defender of the workers? [Laughter.] That is something that I certainly welcome. His party have done nothing else in the past few months other than attack the rights of workers, both in Wales and the UK. We're aware of the ongoing dispute between the national museum and their workers. It's a matter for them to resolve, but we encourage employers and trade unions to work constructively to resolve those issues affecting the workplace, rather than trying to undermine trade unions, which is what the Tories want to do.

A yw wir yn ceisio cyflwyno ei hun a'i blaid fel amddiffynnwr y gweithwyr? [Chwerthin.] Mae hynny'n rhywbeth rwy'n sicr yn ei groesawu. Nid yw ei blaid ef wedi gwneud dim arall yn ystod misoedd diwethaf heblaw ymosod ar hawliau gweithwyr, yng Nghymru ac yn y DU. Rydym ni'n ymwybodol o'r anghydfod parhaus rhwng yr amgueddfa genedlaethol a'i gweithwyr. Mae'n fater iddyn nhw ei ddatrys, ond rydym ni'n annog cyflogwyr ac undebau llafur i weithio'n adeiladol i ddatrys y materion hynny sy'n effeithio ar y gweithle, yn hytrach na cheisio tanseilio undebau llafur, sef yr hyn y mae'r Torïaid eisiau ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

First Minister, I wanted to come in on that issue because I have been working very closely with the PCS on the national museum dispute, especially on the premium payments at weekends. At the demonstration I spoke at a few weeks ago, we were told that Edwina Hart, the Minister with responsibility in this area, would be talking to trade unions. So, I wonder, in the nature of having that constructive discussion, what you have talked to them about in order to try and reach an agreement here, so that Wales can be shown as a positive light when we are embarking on the discussions with regard to the trade union Bill on a UK level.

Brif Weinidog, roeddwn i eisiau dod i mewn ar y mater hwnnw gan fy mod i wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r PCS ar anghydfod yr amgueddfa genedlaethol, yn enwedig ar y taliadau premiwm ar benwythnosau. Yn y brotest y siaradais ynddi ychydig wythnosau yn ôl, fe'n hysbyswyd y byddai Edwina Hart, y Gweinidog â chyfrifoldeb yn y maes hwn, yn siarad ag undebau llafur. Felly, tybed, o ran cynnal y drafodaeth adeiladol honno, beth ydych chi wedi ei drafod â nhw er mwyn ceisio dod i gytundeb yma, fel y gellir dangos Cymru mewn goleuni cadarnhaol wrth i ni gychwyn y trafodaethau ar y Bil undebau llafur ar lefel y DU.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I haven't personally spoken to either unions or the employer in this dispute, but I will ask the Minister to write to you with further details as to what has been done in the light of the comments that you've illustrated.

Nid wyf wedi siarad yn bersonol â'r undebau na'r cyflogwr yn yr anghydfod hwn, ond byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion ar yr hyn a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau yr ydych chi newydd sôn amdanynt.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Russell George** Bywgraffiad Biography

First Minister, we've heard mention of National Museum Wales, but can I ask you what you think the Government's role is in resolving industrial disputes when they occur at third party organisations that are sponsored by the Welsh Government?

Brif Weinidog, rydym ni wedi clywed sôn am Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ond a gaf i ofyn i chi beth yn eich barn chi yw swyddogaeth y Llywodraeth o ran datrys anghydfodau diwydiannol pan eu bod yn digwydd mewn sefydliadau trydydd parti a noddir gan Lywodraeth Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can say one thing that we are not doing and that is wrecking trade union rights. At the end of the day, there should be a discussion between employers and trade unions. We see from the Conservative Party an attempt not just to remove the rights of workers, but to destroy trade unions, because it's inconvenient for them. [Interruption.] That's why they shout about it, because they know that, in shouting, they show their shame; we know that. We recognise trade unions; we look to work with trade unions and we have a record of doing that. It's a shame the UK Government prefers conflict to consensus.

Gallaf ddweud un peth nad ydym ni'n ei wneud, sef dinistrio hawliau undebau llafur. Yn y pen draw, dylid cael trafodaeth rhwng cyflogwyr ac undebau llafur. Gwelwn gan y Blaid Geidwadol ymgais nid yn unig i gael gwared ar hawliau gweithwyr, ond i ddinistrio undebau llafur, gan eu bod yn anghyfleus iddyn nhw. [Torri ar draws.] Dyna pam maen nhw'n gweiddi am y peth, oherwydd eu bod yn gwybod, trwy weiddi, eu bod yn dangos eu cywilydd; rydym ni'n gwybod hynny. Rydym ni'n cydnabod undebau llafur; rydym ni'n ceisio gweithio gydag undebau llafur ac mae gennym ni hanes o wneud hynny. Mae'n drueni bod yn well gan Lywodraeth y DU wrthdaro na chonsensws.

Senedd.tv Fideo Video

## Adfywio

## Regeneration

13:34 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio canol dinasoedd? OAQ(4)2556(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the regeneration of city centres? OAQ(4)2556(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our flagship regeneration programme, Vibrant and Viable Places, supports town and city regeneration in many areas across Wales.

Mae ein rhaglen adfywio flaengar, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, yn helpu'r gwaith o adfywio trefi a dinasoedd mewn sawl ardal ar draws Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

First Minister, Vibrant and Viable Places has seen a strong partnership in Newport between the city council, Welsh Government, the private sector and the third sector, and it's delivering some £60 million of regeneration, with new accommodation, new public services, sited in the city centre, as well as much other associated development. On Thursday, of course, First Minister, I know you will be helping to open the Friars Walk retail development in Newport, which is a further example of what I believe is very impressive city-centre regeneration. Will you join me in looking forward to Thursday's opening and the fact that Newport is showing a very strong example of how you take forward city-centre redevelopment and regeneration?

Brif Weinidog, mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wedi arwain at bartneriaeth gref yng Nghasnewydd rhwng cyngor y ddinas, Llywodraeth Cymru, y sector preifat a'r trydydd sector, ac mae'n darparu tua £60 miliwn o adfywiad, gyda llety newydd, gwasanaethau cyhoeddus newydd, wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas, yn ogystal â llawer o ddatblygiad cysylltiedig arall. Ddydd Iau, wrth gwrs, Brif Weinidog, gwn y byddwch yn helpu i agor datblygiad manwerthu Friars Walk yng Nghasnewydd, sy'n enghraifft arall o'r hyn rwy'n ei gredu sy'n adfywiad trawiadol iawn o ganol y ddinas. A wnewch chi ymuno â mi i edrych ymlaen at agoriad dydd Iau a'r ffaith fod Casnewydd yn dangos esiampl gref iawn o sut yr ydych chi'n bwrw ymlaen ag ailddatblygu ac adfywio canol dinas?

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it's an excellent example of the Labour-led council helping to redevelop the city centre of Newport, and John Frost Square particularly. I know that there are already a number of retail units—or retail companies—that have already signed up to being in the centre. Now, whilst, of course, we haven't provided direct funding for the scheme, we have been involved in site assembly and pre-project assessment support, and facilitation through support delivered through Newport Unlimited. It's a good example of Government working together, and the Labour council delivering.

Gwnaf, mae'n enghraifft wych o gyngor dan arweiniad Llafur yn helpu i ailddatblygu canol dinas Casnewydd, a Sgwâr John Frost yn benodol. Gwn fod eisoes nifer o unedau manwerthu—neu gwmnïau manwerthu—sydd eisoes wedi cytuno i fod yn y canol. Nawr, er, wrth gwrs, nad ydym wedi darparu cyllid uniongyrchol ar gyfer y cynllun, rydym ni wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o gydosod y safle a chymorth asesu cyn-prosiect, a hwyluso trwy gymorth a ddarperir trwy Newport Unlimited. Mae'n enghraifft dda o Lywodraeth yn cydweithio, a chyngor Llafur yn cyflawni.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Will the First Minister not acknowledge, of course, that it was the previous Conservative administration in Newport that actually brought forward the last amount of money that was absolutely vital to make this important development take place in Newport, which is vital to the future of the city?

Oni wnaiff y Prif Weinidog gydnabod, wrth gwrs, mai'r weinyddiaeth Geidwadol flaenorol yng Nghasnewydd mewn gwirionedd, a ddarparodd y swm diwethaf o arian a oedd yn gwbl hanfodol i wneud i'r datblygiad pwysig hwn ddigwydd yng Nghasnewydd, sy'n hanfodol i ddyfodol y ddinas?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, what we saw under the previous administration was prevarication; what we see under this administration is delivery.

Wel, celwydd oedd yr hyn a welsom o dan y weinyddiaeth flaenorol; cyflawni yw'r hyn a welwn o dan y weinyddiaeth hon.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, First Minister, we all welcome the Friars Walk development in Newport, and developments in other major cities. But we do need more Welsh Government efforts to help regenerate nearby town centres and in the south Wales Valleys. And I wonder whether any research has been undertaken as to the impact of these major developments in cities on the adjoining and feeding Valley towns, please.

Wel, Brif Weinidog, rydym ni i gyd yn croesawu datblygiad Friars Walk yng Nghasnewydd, a datblygiadau mewn dinasoedd mawr eraill. Ond mae angen mwy o ymdrechion Llywodraeth Cymru arnom er mwyn helpu i adfywio canol trefi cyfagos ac yng nghymoedd y de. Ac rwy'n meddwl tybed a oes unrhyw waith ymchwil wedi ei wneud i effaith y datblygiadau mawr hyn mewn dinasoedd ar y trefi cyfagos a bwydo yn y Cymoedd, os gwelwch yn dda.

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No, but I know that there's been—I mean, assessments have to be made when a large, out-of-town retail centre is proposed, and the effect, particularly on any town centre around which that retail centre might be based, and that is something that planning authorities should consider as they give permission for large-scale developments. And there's no doubt that, where you have large out-of-town shopping centres, there is an effect on town centres. We see it in Bridgend, where I live. We see it in Llanelli at the moment. And yet, we see other examples, like Carmarthen, where Debenhams is in the town centre, and that's helped to invigorate the town centre. So, there's a lot to be learned in the future in terms of making sure that, if there are to be large-scale developments, they are located as close to city centres as possible, and not in areas where they simply draw people away from city and town centres and make them less viable.

Nac oes, ond gwn y bu—hynny yw, mae'n rhaid cynnal asesiadau pan gynigir canolfan fanwerthu fawr y tu allan i'r dref, a'r effaith, yn enwedig ar unrhyw ganol tref y gallai'r ganolfan fanwerthu honno fod yn agos ato, ac mae hynny'n rhywbeth y dylai awdurdodau cynllunio ei ystyried wrth iddynt roi caniatâd ar gyfer datblygiadau graddfa fawr. Ac nid oes unrhyw amheuaeth, lle mae gennych chi ganolfannau siopa mawr y tu allan i'r dref, bod effaith ar ganol trefi. Rydym ni'n ei weld ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle rwy'n byw. Rydym ni'n ei weld yn Llanelli ar hyn o bryd. Ac eto, rydym ni'n gweld enghreifftiau eraill, fel Caerfyrddin, lle mae Debenhams yng nghanol y dref, ac mae hynny'n helpu i fywiogi canol y dref. Felly, mae llawer i'w ddysgu yn y dyfodol o ran gwneud yn siŵr, os oes datblygiadau graddfa fawr ar y gweill, eu bod yn cael eu lleoli mor agos i ganol dinasoedd â phosibl, ac nid mewn ardaloedd lle maen nhw'n tynnu pobl oddi wrth ganol dinasoedd a threfi a'u gwneud nhw'n llai hyfyw.

13:37 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the best ways of making sure that our city centres are vibrant is making sure that the existing small, independent businesses are able to stay in business there. But yet I've had reports from Cardiff of the city council being very aggressive in pursuing business rates arrears from independent traders, and particularly not using the hardship provisions that are within their powers adequately for those businesses that are having struggling times. I wonder if you would agree to conduct a review of the use of the hardship provisions within the business rates system to see how they are being applied across Wales, to ensure that our small traders can continue to stay in business.

Brif Weinidog, un o'r ffyrdd gorau o sicrhau bod canol ein dinasoedd yn fywiog yw gwneud yn siŵr bod y busnesau bach, annibynnol sy'n bodoli eisoes yn gallu aros mewn busnes yno. Ond eto rwyf wedi derbyn adroddiadau o Gaerdydd bod cyngor y ddinas yn ymosodol iawn o ran mynd ar drywydd ôl-ddyledion ardrethi busnes gan fasnachwyr annibynnol, ac, yn benodol, peidio â defnyddio darpariaethau caledi sy'n rhan o'u pwerau yn ddigonol ar gyfer y busnesau hynny sy'n cael amser caled. Tybed a fyddech chi'n cytuno i gynnal adolygiad o'r defnydd o'r darpariaethau caledi o fewn y system ardrethi busnes i weld sut maen nhw'n cael eu defnyddio ledled Cymru, er mwyn sicrhau y gall ein masnachwyr bach barhau i aros mewn busnes.

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will write to the Member on that. She raises a point that needs to be looked at, and I will do that.

Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod am hynny. Mae hi'n codi pwynt y mae angen ei ystyried, a byddaf yn gwneud hynny.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and, first this afternoon, the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, can I welcome your u-turn on Cabinet decision reports, which you are now going to start to republish? And, with that in mind, about transparency, last week, on the Jason Mohammad show, you said that the M4 black route could be delivered way below the £1 billion that various consultants had identified as being the cost of constructing that route. What access have you had to new information that gives you such confidence to talk of it being delivered way below the figure that is commonly understood as being the cost of that project?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, a gaf i groesawu eich tro pedol ar adroddiadau penderfyniad y Cabinet, yr ydych chi'n mynd i ddechrau eu hailgyhoeddi bellach? A, chyda hynny mewn golwg, am dryloywder, yr wythnos diwethaf, ar sioe Jason Mohammad, dywedasoch y gallai llwybr du yr M4 gael ei ddarparu am lawer llai na'r £1 biliwn yr oedd gwahanol ymgynghorwyr wedi ei nodi fel y gost o adeiladu'r llwybr hwnnw. Pa fynediad ydych chi wedi ei gael at wybodaeth newydd sy'n rhoi'r fath hyder i chi sôn amdano'n cael ei ddarparu yn llawer is na'r ffigur y deallir yn gyffredin fel cost y prosiect hwnnw?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

As we've always said, it will not cost that figure and will come in below that. The next question, no doubt, is: what is the figure? We're not going to release a figure publicly, as that's the equivalent of showing your cards in a poker game, because we will have companies tendering for the contracts to build the M4, if it gets to that stage, as is our plan, and revealing beforehand what your target figure is is not a wise move in the world of business.

Fel yr ydym ni wedi ei ddweud erioed, ni fydd yn costio'r ffigur hwnnw a bydd yn is na hynny. Y cwestiwn nesaf, yn ddiau, yw: beth yw'r ffigur? Nid ydym ni'n mynd i gyhoeddi ffigur yn gyhoeddus, gan fod hynny'n cyfateb i ddangos eich cardiau mewn gêm pocer, gan y bydd gennym ni gwmnïau yn tendro am y contractau i adeiladu'r M4, os bydd yn cyrraedd y cam hwnnw, fel yr ydym yn bwriadu, ac nid yw datgelu beth yw eich ffigur targed ymlaen llaw yn gam doeth ym myd busnes.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I fully understand that. There will be a parameter that you will be working in, surely, and for you to go out and say that the figure will be way below the £1 billion figure, which the Government's own consultants, Arup, have brought forward—and they've had £6 million paid by the Welsh Government to them to commission the costings around this project—surely leads to the question of what new information you, as First Minister, have that gives you the confidence to come out and talk about this major infrastructure investment, which is most probably the biggest infrastructure investment that this Government or a future Welsh Government will make, and to have the confidence to be able to say it's going to come in way below that £1 billion. I mean, surely, you can give us a taste of the information that's been given to you and the type of ballpark parameters that you're working in.

Rwy'n deall hynny'n llwyr. Bydd paramedr y byddwch yn gweithio'n unol ag ef, yn sicr, a does bosib fod y ffaith eich bod chi'n mynd allan a dweud y bydd y ffigur yn llawer is na'r ffigur o £1 biliwn, y mae ymgynghorwyr y Llywodraeth ei hun, Arup, wedi ei gyflwyno—a thalwyd £6 miliwn iddyn nhw gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu costau'n ymwneud â'r prosiect hwn—yn arwain at y cwestiwn o ba wybodaeth newydd sydd gennych chi, fel Prif Weinidog, sy'n rhoi'r hyder i chi ddod allan a siarad am y buddsoddiad mawr hwn mewn seilwaith, sydd yn ôl pob tebyg y buddsoddiad mwyaf mewn seilwaith y bydd y Llywodraeth hon, neu Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn ei wneud, ac i fod â'r hyder i allu dweud ei fod yn mynd i gostio llawer llai na'r £1 biliwn hwnnw. Hynny yw, does bosib y gallwch chi roi blas ar y wybodaeth a roddwyd i chi a'r math o baramedrau bras yr ydych chi'n gweithio'n unol â nhw.

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Based on the information that I have before me, it will come in below that, as I said. I'm not prepared to release a figure because, as I said, all that does is give an indication to those who might tender what their successful tender might be. That is something that we cannot do in the commercial world.

Ar sail y wybodaeth sydd gen i o fy mlaen, bydd yn costio llai na hynny, fel y dywedais. Nid wyf yn barod i gyhoeddi ffigur oherwydd, fel y dywedais, y cwbl y mae hynny'n ei wneud yw rhoi syniad i'r rheini a allai dendro faint y gallai eu tendr llwyddiannus fod. Mae hynny'n rhywbeth na allwn ni ei wneud yn y byd masnachol.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's sad that you're being so evasive on this, First Minister. In a recent opposition debate, the Minister for Economy, Science and Transport indicated that 160 staff members were working on this project from within her department. That's a quarter of her department who are working on this particular project. The First Minister has come out now, on the radio and in previous press quotes, and said that the figure is going to be substantially below what most people thought was the accurate figure that was provided to the Welsh Government by surveyors who were commissioned by you and paid by you. It's not unreasonable to ask for clarity around these figures and around these numbers when so much effort of the Welsh Government in terms of civil service time has been put into it, and, ultimately, you could actually gain more support for the project if you could be more transparent in the remarks that you are making. So, I ask you again—I'm not asking you to pinpoint the figure—to say to us today what new information has come forward that gives you confidence to say that the figure is way below. Are we talking hundreds of millions or tens of millions?

Mae'n drist eich bod yn osgoi'r mater fel hyn, Brif Weinidog. Mewn dadl ddiweddar yr wrthblaid, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod 160 o aelodau staff yn gweithio ar y prosiect hwn o'i hadran hi. Mae hynny'n chwarter ei hadran sy'n gweithio ar y prosiect penodol hwn. Mae'r Prif Weinidog wedi dod allan nawr, ar y radio ac mewn dyfyniadau blaenorol yn y wasg, ac wedi dweud fod y ffigur yn mynd i fod yn sylweddol is na'r hyn yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl oedd y ffigur cywir a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan syrfewyr a gomisiynwyd gennych chi ac a dalwyd gennych chi. Nid yw'n afresymol gofyn am eglurder ynghylch y ffigurau hyn ac ynghylch y rhifau hyn pan fo cymaint o ymdrech Llywodraeth Cymru o ran amser y gwasanaeth sifil wedi cael ei roi i mewn iddo, ac, yn y pen draw, gallech chi mewn gwirionedd ennill mwy o gefnogaeth i'r prosiect pe gallech chi fod yn fwy tryloyw o ran y sylwadau yr ydych chi'n eu gwneud. Felly, gofynnaf i chi eto—nid wyf yn gofyn i chi roi ffigur pendant—i ddweud wrthym ni heddiw pa wybodaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg sy'n rhoi hyder i chi ddweud bod y ffigur yn llawer llai. A ydym ni'n sôn am gannoedd o filiynau neu ddegau o filiynau?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Now, I know his party is riven in half by this issue. We've heard different views on this. But what I can say is that I stand by what I've said and what I've said before. He himself, in the preamble to his second question, said that he understood that you cannot reveal a figure and, in the world of business, that isn't going to happen. All I can is that we expect it to come in below the figure of £1 billion. Actually putting a figure to it at this stage—it'll become obvious in time to come, of course it will, because people will see what the figure is, but to actually say to any potential tenderer, 'This is the figure that we're looking to offer' is just an invitation for everybody to come in with the same figure. That makes no sense commercially.

Nawr, rwy'n gwybod bod y mater hwn wedi rhwygo ei blaid yn ei hanner. Rydym ni wedi clywed gwahanol safbwyntiau ar hyn. Ond yr hyn y gallaf ei ddweud yw fy mod i'n sefyll wrth yr hyn yr wyf i wedi ei ddweud a'r hyn yr wyf i wedi ei ddweud o'r blaen. Dywedodd ei hun, yn y rhaglith i'w ail gwestiwn, ei fod yn deall na allwch chi ddatgelu ffigur ac, ym myd busnes, nid yw hynny'n mynd i ddigwydd. Y cwbl y gallaf ei ddweud yw ein bod yn disgwyl iddo fod yn llai na'r ffigur o £1 biliwn. Byddai rhoi ffigur arno ar hyn o bryd —bydd yn dod yn amlwg mewn amser i ddod, wrth gwrs y bydd, gan y bydd pobl yn gweld beth yw'r ffigur hwnnw, ond mae dweud wrth unrhyw ddarpar dendrwr, 'Dyma'r ffigur yr ydym ni eisiau ei gynnig' yn wahoddiad i bawb gynnig yr un ffigur. Nid yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr yn fasnachol.

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, yesterday, I showed a group of children from Cradoc primary school around the Assembly. When asked who the Assembly belongs to, one child replied, 'The Government'. 'Wrong', said the visitor tour manager, 'This building belongs to you.' If this building does indeed belong to the people, isn't it shameful that Labour have vetoed the BBC and ITV from filming a behind-the-scenes documentary in this Assembly?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, ddoe, dangosais grŵp o blant o ysgol gynradd Cradoc o gwmpas y Cynulliad. Pan ofynnwyd iddyn nhw i bwy mae'r Cynulliad yn perthyn, atebodd un plentyn, 'Y Llywodraeth'. 'Anghywir', meddai rheolwr y daith ymwelwyr, 'Mae'r adeilad hwn yn perthyn i chi.' Os yw'r adeilad hwn wir yn perthyn i'r bobl, onid yw'n gywilyddus bod Llafur wedi gwrthod caniatáu i'r BBC ac ITV ffilmio rhaglen ddogfen y tu ôl i'r llenni yn y Cynulliad hwn?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is not a Government decision. That's a matter for the Labour group who took the decision.

Nid penderfyniad y Llywodraeth yw hwnnw. Mater i'r grŵp Llafur a wnaeth y penderfyniad yw hwnnw.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm well aware it was a matter for the Labour group. When I want to find out the views of the Labour Party, I'll write to Nia Griffith. [Laughter.] I'm asking you as First Minister whether you think it's regrettable.

Brif Weinidog, rwy'n gwbl ymwybodol ei fod yn fater i'r grŵp Llafur. Pan fy mod eisiau darganfod barn y Blaid Lafur, byddaf yn ysgrifennu at Nia Griffith. [Chwerthin.] Rwy'n gofyn i chi fel Prif Weinidog a ydych chi'n meddwl ei fod yn destun gofid.

But let me move on, and let's turn to your disgraceful decision—and your subsequent u-tur—to stop publishing ministerial decision reports on your Government website. Considering that you have now done that, will you now apologise for the ludicrous comments by your spokesperson yesterday that accused my party of wasting Government resources when all we were doing was scrutinising your Government, which, after all, is what an opposition party is meant to do?

Ond gadewch i mi symud ymlaen, a gadewch i ni droi at eich penderfyniad gwarthus—a'ch tro pedol dilynol—i roi terfyn ar gyhoeddi adroddiadau penderfyniadau gweinidogol ar wefan eich Llywodraeth. O ystyried eich bod wedi gwneud hynny erbyn hyn, a wnewch chi ymddiheuro nawr am y sylwadau chwerthinllyd gan eich llefarydd ddoe yn cyhuddo fy mhlaid i o wastraffu adnoddau'r Llywodraeth pan mai'r cwbl roeddem ni'n ei wneud oedd craffu ar eich Llywodraeth, sef, wedi'r cyfan, yr hyn y mae gwrthblaid i fod i'w wneud?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I would've thought that the leader of the Liberal Democrats would welcome today's decision. I've been looking at it for some time. This is something that we did to see whether the original decision was correct. I took the decision that we had to reintroduce the system where it was possible to see where the decisions were and a brief explanation of what those decisions were as well, and that is something that we'll continue to do from now on.

Wel, byddwn i wedi meddwl y byddai arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu penderfyniad heddiw. Rwyf wedi bod yn ei ystyried ers cryn amser. Mae hyn yn rhywbeth a wnaethom i weld a oedd y penderfyniad gwreiddiol yn gywir. Fe wnes i'r penderfyniad bod yn rhaid i ni ailgyflwyno'r system lle'r oedd yn bosibl gweld lle'r oedd y penderfyniadau ac esboniad cryno o beth oedd y penderfyniadau hynny hefyd, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn parhau i'w wneud o hyn ymlaen.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do indeed welcome the decision, First Minister, and given that you're in listening mode and particularly interested, it seems, this week in transparency and openness, and now that you've admitted that you got it wrong on ministerial decision reports, would you now commit to bringing forward proposals to fully open the doors of Government by publishing details of meetings between you, your Ministers and officials with lobbyists and external pressure groups?

Rwyf wir yn croesawu'r penderfyniad, Brif Weinidog, ac o ystyried eich bod yn barod i wrando ar hyn o bryd ac â diddordeb arbennig, mae'n ymddangos, yr wythnos hon mewn bod yn dryloyw ac yn agored, a nawr eich bod wedi cyfaddef eich bod wedi gwneud y penderfyniad anghywir o ran adroddiadau penderfyniadau gweinidogol, a wnewch chi ymrwymo nawr i gyflwyno cynigion i agor drysau'r Llywodraeth yn llawn trwy gyhoeddi manylion cyfarfodydd rhyngoch chi, eich Gweinidogion a swyddogion gyda lobïwyr a grwpiau pwyso allanol?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are none, and could I say that it is not our policy to meet with lobbyists? It is not our policy as Ministers to meet routinely with pressure groups, certainly not professional lobbyists. Can I also say, that in terms of transparency, that is something that we are fully aware of? We are accountable to the people of Wales, and we know, of course, that the Liberal Democrats understand this full well following the result of the general election.

Does dim, ac a gaf i ddweud nad cyfarfod â lobïwyr yw ein polisi? Nid cyfarfod fel mater o drefn gyda grwpiau pwyso, lobïwyr ac nid lobïwyr proffesiynol, yn sicr, yw ein polisi fel Gweinidogion. A gaf i ddweud hefyd, o ran tryloywder, bod hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n gwbl ymwybodol ohono? Rydym ni'n atebol i bobl Cymru, ac rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn deall hyn yn iawn yn dilyn canlyniad yr etholiad cyffredinol.

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, do you agree with me that the key to an effective inspectorate in healthcare is that it's sufficiently resourced and enjoys full freedom to pursue the interests of patients?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi mai'r allwedd i arolygiaeth effeithiol ym maes gofal iechyd yw ei bod yn cael adnoddau digonol ac yn mwynhau rhyddid llawn i sicrhau buddiannau cleifion?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Full freedom, yes. Resourcing, yes. Bearing in mind the financial squeeze that we have received from the UK Government, it is probably right to say we are not able to resource every single aspect of Government as we would want to.

Rhyddid llawn, ydw. Adnoddau, ydw. O gofio'r wasgfa ariannol a orfodwyd arnom ni gan Lywodraeth y DU, mae'n debyg ei bod yn iawn i ddweud nad ydym yn gallu darparu adnoddau ar gyfer pob agwedd ar Lywodraeth fel y byddem yn dymuno.

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You may well be aware of the evidence given this morning to the Public Accounts Committee, where the Healthcare Inspectorate Wales chief executive was asked if she felt her organisation was adequately resourced, and she answered:

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Efallai eich bod yn ymwybodol o'r dystiolaeth a roddwyd y bore yma i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, lle gofynnwyd i brif weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a oedd hi'n teimlo bod ei sefydliad yn cael adnoddau digonol, ac atebodd:

'I think the answer to that would have to be "no". I would like to do more.'

Rwy'n credu y byddai'n rhaid ateb "nac ydy" i hynny. Hoffwn wneud mwy.

Would you accept that what she says is correct, First Minister?

A fyddech chi'n derbyn bod yr hyn y mae hi'n ei ddweud yn gywir, Brif Weinidog?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure all organisations would like to do more, including the Government itself. There is no suggestion, of course, that HIW are unable to fulfil the functions that are delegated to them.

Rwy'n siŵr y byddai pob sefydliad yn hoffi gwneud mwy, gan gynnwys y Llywodraeth ei hun. Nid oes unrhyw awgrym, wrth gwrs, nad yw AGIC yn gallu cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo iddyn nhw.

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the health committee first raised its concerns about the staffing and the resourcing of Healthcare Inspectorate Wales 18 months ago, and the revelation this morning in committee suggests that you've not taken sufficient steps to deal with that. How can patients have full confidence that their interests and concerns are being properly furthered when the inspectorate body is not being properly financed, and you've just accepted that it's not being properly resourced? Several scandals of poor care have emerged in recent years, and the inspectorate itself has admitted that it has not had full sight of all patient complaints. When will Labour finally deliver a properly resourced health inspectorate, and is it not time now, First Minister, that that inspectorate was independent of Government?

Brif Weinidog, cododd y pwyllgor iechyd ei bryderon am y tro cyntaf am staffio ac adnoddau ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 18 mis yn ôl, ac mae'r datguddiad y bore yma yn y pwyllgor yn awgrymu nad ydych chi wedi cymryd camau digonol i ymdrin â hynny. Sut all cleifion fod yn gwbl hyderus bod eu buddiannau a'u pryderon yn cael eu hybu'n briodol pan nad yw corff yr arolygiaeth yn cael ei ariannu'n briodol, a'ch bod chithau newydd dderbyn nad yw'n cael adnoddau priodol? Mae sawl sgandal o ofal gwael wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r arolygiaeth ei hun wedi cyfaddef nad yw wedi cael golwg lawn ar holl gwynion cleifion. Pryd wnaiff Llafur gyflwyno o'r diwedd arolygiaeth iechyd sy'n cael adnoddau priodol, ac onid yw'n bryd nawr, Brif Weinidog, i'r arolygiaeth fod yn annibynnol ar y Llywodraeth?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the inspectorate is independent of Government. In fact, what you've just said is an illustration of that. If the inspectorate was not independent of Government, you wouldn't have somebody using those words about resourcing; they would feel under some pressure to give the answer they felt the Government wanted to hear—that's not what happened this morning. Is it the case that the inspectorate cannot carry out the functions that it has? The answer to that is 'no'. I don't believe that; they are carrying out more and more inspections, and rightly so, because that is what people expect. I've no doubt that, where they wish to, they can bid for more resources in the future, bearing in mind, of course, the squeeze that has been on public finances since 2010.

Wel, mae'r arolygiaeth yn annibynnol ar y Llywodraeth. Yn wir, mae'r hyn yr ydych chi newydd ei ddweud yn dangos hynny. Pe na byddai'r arolygiaeth yn annibynnol ar y Llywodraeth, ni fyddai gennych chi rywun sy'n defnyddio'r geiriau hynny am adnoddau; byddai'n teimlo o dan gryn bwysau i roi'r ateb yr oedd yn teimlo y byddai'r Llywodraeth eisiau ei glywed—nid dyna ddigwyddodd y bore yma. A yw'n wir na all yr arolygiaeth gyflawni'r swyddogaethau sydd ganddi? 'Nac ydy' yw'r ateb i hynny. Nid wyf yn credu hynny; maen nhw'n cynnal mwy a mwy o arolygiadau, a hynny'n briodol, oherwydd dyna beth mae pobl yn ei ddisgwyl. Nid oes gen i unrhyw amheuaeth y gall, pan fo'n dymuno, wneud cais am fwy o adnoddau yn y dyfodol, gan gofio, wrth gwrs, y wasgfa sydd wedi bod ar gyllid cyhoeddus ers 2010.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Darren Millar.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr. Daw cwestiwn 3 gan Darren Millar.

Senedd.tv Fideo Video

### GIG yng Ngogledd Cymru

### NHS in North Wales

13:47 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y GIG yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2546(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the future of the NHS in north Wales? OAQ(4)2546(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The Deputy Minister for Health made a statement on next steps on supporting the improvement programme for Betsi Cadwaladr University Local Health Board on 4 November.

Gwnaf. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd ddatganiad ar y camau nesaf o ran cefnogi'r rhaglen wella ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 4 Tachwedd.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

First Minister, one of the symptoms of some of the problems in north Wales that emerged in that health board area was large volumes of complaints about particular services, but we heard in the Public Accounts Committee, as has already been alluded to, this morning, from the healthcare inspectorate that they do not routinely receive information on complaints from either community health councils or the boards themselves prior to undertaking inspections or scoping their work. Is that a concern to you, and what action will you take to ensure that the gold mine of information that is within the complaints system is available and routinely accessed as part of the inspection regime?

Brif Weinidog, un o symptomau rhai o'r problemau yn y gogledd a ddaeth i'r amlwg yn yr ardal bwrdd iechyd hwnnw oedd llawer iawn o gwynion am wasanaethau penodol, ond clywsom yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fel y soniwyd eisoes, y bore yma, gan yr arolygiaeth gofal iechyd nad yw'n derbyn gwybodaeth fel mater o drefn am gwynion gan gynghorau iechyd cymuned na'r byrddau eu hunain cyn cynnal arolygiadau neu gwmpasu eu gwaith. A yw hynny'n peri pryder i chi, a pha gamau wnewch chi eu cymryd i sicrhau bod y cyfoeth anhygoel o wybodaeth sydd yn y system gwynion ar gael ac yn cael ei defnyddio fel mater o drefn yn rhan o'r drefn arolygu?

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I find that surprising. I know that with regard to never events, for example, they are publicised in a way that was never the case before. Healthcare Inspectorate Wales are part of the process in terms of making sure that Betsi Cadwaladr regains public confidence. There was a meeting on 21 October between senior Government officials, the Wales Audit Office and the healthcare inspectorate, and they are part of the process of reviewing progress as the local health board moves forward. However, if it is the case that this is not routinely done in terms of information being shared with the healthcare inspectorate, I will investigate and write to the Member.

Mae hynny'n fy synnu i. Gwn, o ran digwyddiadau byth, er enghraifft, eu bod yn cael eu hysbysebu mewn ffordd nad oedd yn wir erioed o'r blaen. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rhan o'r broses o wneud yn siŵr fod Betsi Cadwaladr yn adennill hyder y cyhoedd. Cynhaliwyd cyfarfod ar 21 Hydref rhwng uwch swyddogion y Llywodraeth, Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaeth gofal iechyd, ac maen nhw'n rhan o'r broses o adolygu cynnydd wrth i'r bwrdd iechyd lleol symud yn ei flaen. Fodd bynnag, os yw'n wir nad yw hyn yn cael ei wneud fel mater o drefn o ran rhannu gwybodaeth gyda'r arolygiaeth gofal iechyd, byddaf yn ymchwilio i hynny ac yn ysgrifennu at yr Aelod.

13:49 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae nifer ohonom ni yn synnu braidd bod bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi gwario hyd at £1 miliwn ar management consultants allanol yn ddiweddar, a bod hynny wedi digwydd mewn cytundebau—rhai ohonyn nhw werth cannoedd o filoedd—heb broses dendro gystadleuol. Mae 11 o'r 12 cytundeb wedi cael eu gosod heb gystadleuaeth. A ydych chi'n teimlo bod hynny'n dderbyniol, ac os nad ydych chi, yna a ydych chi'n bwriadu edrych i mewn i'r mater?

First Minister, many of us were surprised, somewhat, that Betsi Cadwaladr health board had spent up to £1 million on external management consultants recently, and that that had happened in contracts—some of them worth hundreds of thousands of pounds—without a competitive tendering process. Eleven of the 12 contracts have been laid without competition. Do you think that that's acceptable, and if you don't, then do you intend to look into the issue?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Lle mae'n dderbyniol—. Wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben fod yna system dendro. Mae hynny yn rhywbeth, wrth gwrs, i'r bwrdd iechyd. Weithiau, wrth gwrs, mae'n siepach i gael rhywun i mewn dros dro fel ymgynghorydd na chyflogi rhywun yn llawn amser. Dyna fel y mae, ac mae hynny wedi bod yn digwydd, yn naturiol, yn Lloegr, ac yn yr Alban. Ond byddwn ni'n erfyn i awdurdodau lleol fod yn agored ynglŷn â faint o arian maen nhw'n ei wario, a hefyd, wrth gwrs, yn agored ac yn tendro lle mae hynny'n bosibl.

Where it is acceptable—. Of course, it's very important that there is a proper tendering system. That is something, of course, for the health board. Sometimes, of course, it's cheaper to get somebody in temporarily as a consultant, rather than employ somebody permanently. That's how things are, and it has been done, naturally, in England, and also in Scotland. But we would expect the health boards to be open about how much money they are spending, and also, of course, to be open and to tender where that is possible.

### Cysylltiadau Economaidd

### Economic Links

13:50 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd cysylltiadau economaidd rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr? OAQ(4)2549(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the importance of economic links between north Wales and the north west of England? OAQ(4)2549(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, we do recognise the importance of economic links between the north of Wales and the north-west of England. We do continue to support the Mersey Dee Alliance in their work to strengthen cross-border relationships, particularly in relation to identifying potential economic benefits for both regions.

Gwnaf, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau economaidd rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Rydym ni'n parhau i gefnogi Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn ei waith i gryfhau cysylltiadau trawsffiniol, yn enwedig o ran nodi manteision economaidd posibl i'r ddau ranbarth.

13:50 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. Our Welsh Labour Government has been leading the way, in actual fact, in promoting the important economic links that you've already mentioned, by engaging with the Mersey Dee Alliance, improving the A55, and working to improve rail links between Wrexham and Chester. It has established a partnership approach between the two regions, seeing a northern powerhouse as an opportunity, rather than as a competitor. So, do you agree that it is vital that the UK Government shows the same level of commitment by ensuring north Wales is fully linked into the northern powerhouse initiative by playing its part in delivering improved connections between the two regions?

Diolch i chi am hynna. Mae ein Llywodraeth Lafur Cymru wedi bod yn arwain y ffordd, a dweud y gwir, o ran hyrwyddo'r cysylltiadau economaidd pwysig yr ydych chi eisoes wedi sôn amdanynt, trwy ymgysylltu â Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, gwella'r A55, a gweithio i wella cysylltiadau rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer. Mae wedi sefydlu dull partneriaeth rhwng y ddau ranbarth, gan ystyried pwerdy gogleddol fel cyfle, yn hytrach na chystadleuaeth. Felly, a ydych chi'n cytuno ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth y DU yn dangos yr un lefel o ymrwymiad drwy sicrhau bod y gogledd wedi ei gysylltu'n llawn â menter y pwerdy gogleddol trwy chwarae ei ran i gyflwyno gwell cysylltiadau rhwng y ddau ranbarth?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the Secretary of State, late though he was to the discussion, was not correct when he said that Manchester was a competitor. I think there's great scope for the north of Wales and the north-west of England to work together. The reality is that it is an economic region; there's a lot of cross-border flow, as is normal in many other countries in Europe, and that is something that we seek to facilitate and to improve for the benefit of those in the north-west of England and in the north of Wales. It would be useful, certainly, to see further commitment with regard to electrification for Wrexham-Bidston, the borderlands line, and also of course the north Wales main line, where there are no plans to electrify at the moment.

Wel, rwy'n meddwl bod yr Ysgrifennydd Gwladol, er iddo ymuno â'r drafodaeth yn hwyr, yn anghywir pan ddywedodd fod Manceinion yn gystadleuydd. Rwy'n credu bod cyfle mawr i ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr weithio gyda'i gilydd. Y gwir amdani yw ei bod yn rhanbarth economaidd; ceir llawer o lif trawsffiniol, fel sy'n arferol mewn llawer o wledydd eraill yn Ewrop, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ceisio ei hwyluso a'i wella er budd y rheini yng ngogledd-orllewin Lloegr ac yng ngogledd Cymru. Byddai'n ddefnyddiol, yn sicr, gweld ymrwymiad pellach o ran trydaneiddio rhwng Wrecsam a Bidston, rheilffordd y gororau, a hefyd wrth gwrs prif reilffordd y gogledd, lle nad oes unrhyw gynlluniau i drydaneiddio ar hyn o bryd.

13:52 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Secretary of State for Wales was in north Wales yesterday, highlighting to business organisations how important the northern powerhouse project in north-west England could be to the north Wales economy. Could you outline what discussions your Government has had with the Secretary of State to ensure that north Wales maximises the benefits that a successful northern powerhouse could bring to us?

Brif Weinidog, roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y gogledd ddoe, yn pwysleisio i sefydliadau busnes pa mor bwysig allai prosiect y pwerdy gogleddol yng ngogledd-orllewin Lloegr fod i economi gogledd Cymru. A allech chi amlinellu pa drafodaethau y mae eich Llywodraeth wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau bod y gogledd yn manteisio i'r eithaf ar y buddion y gallai pwerdy gogleddol llwyddiannus eu cynnig i ni?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I was aware that the Secretary of State was in the north of Wales—it was a week after me, when I spoke in Wrexham and said exactly the same thing as he did. He seems to have copied what I said, but there we are; I suppose imitation is the sincerest form of flattery. I've not had direct discussions with the Secretary of State on this, but, certainly through our work with the Mersey Dee Alliance and our discussions with businesses in the north-east of Wales particularly, we have emphasised what we want to see in terms of making sure that there is greater prosperity cross-border, and that's something that, through the north Wales economic ambition board, we are promoting through the Mersey Dee Alliance. We are promoting, and it's good to see the Secretary of State coming in behind us.

Roeddwn i'n ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yng ngogledd Cymru—roedd wythnos ar fy ôl i, pan siaradais yn Wrecsam gan ddweud yn union yr un peth ag y dywedodd ef. Mae'n ymddangos ei fod wedi copïo'r hyn a ddywedais, ond dyna ni; mae'n debyg mai efelychu yw'r ffurf fwyaf didwyll ar weniaith. Nid wyf wedi cael trafodaethau uniongyrchol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar hyn, ond, yn sicr drwy ein gwaith gyda Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a'n trafodaethau gyda busnesau yn y gogledd-ddwyrain yn arbennig, rydym ni wedi pwysleisio'r hyn yr ydym ni eisiau ei weld o ran gwneud yn siŵr bod mwy o ffyniant trawsffiniol, ac mae hynny'n rhywbeth, trwy fwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru, yr ydym ni'n ei hyrwyddo trwy Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy. Rydym ni'n hyrwyddo, ac mae'n dda gweld yr Ysgrifennydd Gwladol yn ein cefnogi.

13:53 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r rheilffordd, wrth gwrs, yn rhan bwysig iawn o'r cysylltiad ar draws ffiniau. A ydy'r Prif Weinidog yn cytuno â fi fod rhaid sicrhau bod penderfyniadau Llywodraeth Prydain ar ddyfodol y rheilffyrdd yn adlewyrchu'r ffaith bod gwasanaethau o ogledd Cymru i drefi yng ngogledd-orllewin Lloegr yn wasanaethau hanfodol i bobl sy'n byw yng ngogledd Cymru, ac na ddylai'r gwasanaethau hynny felly gael eu tynnu allan o freindal Cymru a'r gororau nesaf?

The railway, of course, is a very important part of the cross-border links. Does the First Minister agree with me that we must ensure that decisions taken by the UK Government on the future of the railways should reflect the fact that services from north Wales to towns in the north-west of England are crucial services for people living in north Wales, and that those services, therefore, shouldn't be taken out of the Wales and borders franchise?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae'n iawn, mae ffigurau gyda ni ar hyn o bryd sy'n dangos bod Cymru wedi cael llai nag 1 y cant o gyllid gwella rheilffyrdd gan Network Rail dros y blynyddoedd diwethaf. Nid oes dim gwellhad o gwbl wedi bod ynglŷn â rheilffyrdd y gogledd—nid dim ond y brif reilffordd, ond hefyd reilffordd Dyffryn Conwy, a hefyd, wrth gwrs, reilffordd y ffin rhwng Wrecsam a Bidston. Felly, ein barn ni fel Llywodraeth yw y byddai Llywodraeth Cymru mewn gwell sefyllfa i sicrhau, neu i ddelio ag, neu i reoli cyllid rheilffyrdd yng Nghymru, ond nid hynny, wrth gwrs, yw barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Well, yes, we have figures at the moment that indicate that Wales received less than 1 per cent of the rail improvement funding from Network Rail over the past few years. There hasn't been any improvement as regards the north Wales rail lines—not just the main line, but also the Conwy valley line, and also, of course, the line on the border between Wrexham and Bidston. Therefore, our view as Welsh Government is that the Welsh Government would be in a better position to ensure, or to deal or to manage the funding of the railways in Wales, but that is not the view of the UK Government at present.

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 5 was grouped with question 1, so we move to question 6, and that's from Bethan Jenkins.

Grwpiwyd cwestiwn 5 gyda chwestiwn 1, felly symudwn at gwestiwn 6, a daw hwnnw gan Bethan Jenkins.

### Gorsaf Bŵer Aberddawan

### Aberthaw Power Station

13:54 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am allyriadau yng ngorsaf bŵer Aberddawan? OAQ(4)2545(FM)*

*6. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding emissions at Aberthaw power station? OAQ(4)2545(FM)*

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We do maintain a dialogue with the UK Government in respect of all key business sectors, including the energy supply industry.

Rydym yn cynnal deialog gyda Llywodraeth y DU o ran pob sector busnes allweddol, gan gynnwys y diwydiant cyflenwi ynni.

13:54 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. When I met with RWE a while back, they said that the Welsh Government had provided an official to act in an intermediary role between the company and the European Union, whose job, as it was described to me, was to try and avoid the issue of going to court. Clearly, that has happened now, and a lot of opencast mines in south Wales rely upon Aberthaw as a customer. Has your official who has been designated to look at this issue had any indication from RWE of what will happen if legal action goes against the company? Will it close Aberthaw, for example, and what will that mean for opencast mines across south Wales?

Diolch. Pan gyfarfûm â RWE beth amser yn ôl, dywedasant fod Llywodraeth Cymru wedi darparu swyddog i weithredu fel cyfryngwr rhwng y cwmni a'r Undeb Ewropeaidd, a oedd yn gyfrifol, fel y'i disgrifiwyd i mi, am geisio osgoi'r mater o fynd i'r llys. Yn amlwg, mae hynny wedi digwydd erbyn hyn, ac mae llawer o byllau glo brig yn y de yn dibynnu ar Aberddawan fel cwsmer. A yw eich swyddog sydd wedi ei neilltuo i ystyried y mater hwn wedi cael unrhyw awgrym gan RWE o'r hyn a fydd yn digwydd os bydd camau cyfreithiol yn mynd yn erbyn y cwmni? A fydd yn cau Aberddawan, er enghraifft, a beth fydd hynny'n ei olygu i byllau glo brig ar draws y de?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think it's right to say that, if the litigation goes against Aberthaw, it will make it more difficult for Aberthaw to operate, and that is bound to have an effect on its viability in the long term. The same is true of opencast mining, I suspect, as well, given the supply chain that exists there. Just to inform the Member, as she said, the infraction case is now in the litigation phase. The defence, the UK's defence that is, was submitted to the court by the UK Government in September. The Commission has since submitted a reply to the court, so the UK now has until 2 December to submit a rejoinder to the court and, to that end, Welsh Government officials are working with UK Government officials and legal counsel on this issue. So, we have a role, but, of course, legally, the dispute is between the Commission on the one hand and the UK Government on the other.

Rwy'n meddwl ei bod yn iawn i ddweud, os bydd yr ymgyfreitha'n mynd yn erbyn Aberddawan, y bydd yn ei gwneud yn anoddach i Aberddawan weithredu, ac mae hynny'n sicr o gael effaith ar ei hyfywedd yn yr hirdymor. Mae'r un peth yn wir am gloddio glo brig, rwy'n amau, hefyd, o ystyried y gadwyn gyflenwi sy'n bodoli yno. Dim ond i hysbysu'r Aelod, fel y dywedodd, mae'r achos tordyletswydd ar y cam ymgyfreitha erbyn hyn. Cyflwynwyd yr amddiffyniad, amddiffyniad y DU, hynny yw, i'r llys gan Lywodraeth y DU ym mis Medi. Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi cyflwyno ateb i'r llys, felly mae gan y DU tan 2 Rhagfyr i gyflwyno gwrthateb i'r llys nawr ac, i'r perwyl hwnnw, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU a chynghorwyr cyfreithiol ar y mater hwn. Felly, mae gennym ni swyddogaeth, ond, wrth gwrs, yn gyfreithiol, mae'r anghydfod rhwng y Comisiwn ar y naill law a Llywodraeth y DU ar y llall.

13:56 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, emissions from power stations have always been a major concern for the impact on communities and the air quality in the areas around those power stations. The recent announcement that SinoFortone has actually purchased the former energy biomass power plant in Port Talbot in my constituency has raised concerns amongst my constituents again about the impact it will have on the air quality within the town, and we already know the issues in the town in relation to the industrial heritage there. Will the Welsh Government meet with the new developers to seek assurances that emissions from any development will not actually deteriorate further the air quality in Port Talbot?

Brif Weinidog, mae allyriadau o orsafoedd pŵer wedi bod yn bryder mawr erioed o ran yr effaith ar gymunedau ac ansawdd yr aer yn yr ardaloedd o gwmpas y gorsafoedd pŵer hynny. Mae'r cyhoeddiad diweddar bod SinoFortone wedi prynu'r hen waith pŵer biomas ynni ym Mhort Talbot yn fy etholaeth i wedi codi pryderon ymhlith fy etholwyr eto am yr effaith y bydd yn ei chael ar ansawdd yr aer yn y dref, ac rydym ni'n gwybod eisoes am y problemau yn y dref o ran y dreftadaeth ddiwydiannol yno. A wnaiff Llywodraeth Cymru gyfarfod â'r datblygwyr newydd i ofyn am sicrwydd na fydd allyriadau o unrhyw ddatblygiad yn dirywio ansawdd yr aer ym Mhort Talbot ymhellach?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We would not wish to see that and nor would we expect that. It is a matter, of course, for Natural Resources Wales to monitor emissions. We know that improving air quality is a key objective for us as a Government. It's right to say our air is cleaner now in overall terms than at any time since the industrial revolution, but there is room for further improvement. So, in 2013, we did issue a short-term action plan to tackle PM10 particle levels in the Neath Port Talbot area, and I can say that Welsh Government officials do meet regularly with industry operators, with NRW and also with Neath Port Talbot County Borough Council in order to seek solutions to reduce the level of PM10s in Neath Port Talbot. We would not want nor would we expect air quality to deteriorate.

Ni fyddem yn dymuno gweld hynny, ac ni fyddem yn disgwyl hynny. Mater i Gyfoeth Naturiol Cymru, wrth gwrs, yw monitro allyriadau. Rydym ni'n gwybod bod gwella ansawdd aer yn amcan allweddol i ni fel Llywodraeth. Mae'n iawn i ddweud bod ein haer yn lanach nawr yn gyffredinol nag ar unrhyw adeg ers y chwyldro diwydiannol, ond ceir lle i wella ymhellach. Felly, yn 2013, cyflwynwyd cynllun gweithredu byrdymor gennym i fynd i'r afael â lefelau gronynnau PM10 yn ardal Castell-nedd Port Talbot, a gallaf ddweud bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â gweithredwyr diwydiant, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a chyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot hefyd, er mwyn dod o hyd i atebion i leihau lefel y PM10 yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ni fyddem eisiau ac ni fyddem yn disgwyl i ansawdd aer ddirywio.

13:57 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The owners of Aberthaw power station, RWE group, have been at the heart of a couple of controversial applications in South Wales West in recent years. Obviously, they're seeking EU funding for the power station with an unusual record, shall we say, at the moment, and, of course, they continue to push for a windfarm on Mynydd y Gwair, in the face of concerted civil opposition. Now, I appreciate that the role of Welsh Government is different in both those cases, but how does your Government weigh up and emphasise considerable public disapproval of any particular project, first in its role that's limited to making representations to UK Government, and secondly when it's actually the role of this Government to make a decision?

Mae perchnogion gorsaf bŵer Aberddawan, grŵp RWE, wedi bod yn ganolog i un neu ddau o geisiadau dadleuol yng Ngorllewin De Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Yn amlwg, maen nhw'n ceisio cyllid yr UE ar gyfer yr orsaf bŵer â hanes anarferol, gadewch i ni ddweud, ar hyn o bryd, ac, wrth gwrs, maen nhw'n parhau i wthio am fferm wynt ar Fynydd y Gwair, yn wyneb gwrthwynebiad sifil cydunol. Nawr, rwy'n gwerthfawrogi bod swyddogaeth Llywodraeth Cymru yn wahanol yn y ddau achos hynny, ond sut mae eich Llywodraeth yn pwyso a mesur ac yn pwysleisio anghymeradwyaeth cyhoeddus sylweddol o unrhyw brosiect penodol, yn gyntaf yn ei swyddogaeth sydd wedi'i chyfyngu i wneud sylwadau i Lywodraeth y DU, ac yn ail pan mai swyddogaeth y Llywodraeth hon yw gwneud penderfyniad mewn gwirionedd?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The issue of public opinion is a factor in terms of a decision being made, that much is true, but, of course, the technical advice notes and Planning Policy Wales guidance are also important documents in that regard. But I have to say the UK Government has to decide what it actually wants to do with power generation. It's against onshore wind and it's not helping in terms of tidal energy—we're hearing nothing about the tidal lagoon; that seems to have gone to sleep as far as the UK Government are concerned. They are keen to promote nuclear. We've seen that with the enormous loan they've given with regard to Hinkley Point. There is no coherent overall energy policy being put forward by the UK Government. We don't know where energy will come from in the next decade, and, of course, we're not seeing help for high energy users, such as the steel industry. We have called and called and called for the steel industry to have the respect from the UK Government that it deserves to make sure that the energy costs that are hampering the steel industry in Wales and elsewhere are addressed, but, so far, the UK Government has done nothing.

Mae'r mater o farn y cyhoedd yn ffactor o ran gwneud penderfyniad, mae cymaint â hynny'n wir, ond, wrth gwrs, mae'r nodiadau cyngor technegol a chanllawiau Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn ddogfennau pwysig yn hynny o beth. Ond mae'n rhaid i mi ddweud bod yn rhaid i Lywodraeth y DU benderfynu ar yr hyn y mae eisiau ei wneud gyda chynhyrchu ynni. Mae'n gwrthwynebu gwynt ar y tir ac nid yw'n helpu o ran ynni'r llanw—nid ydym yn clywed unrhyw beth am y morlyn llanw; mae'n ymddangos bod hwnnw wedi mynd i gysgu cyn belled ag y mae Llywodraeth y DU yn y cwestiwn. Maen nhw'n awyddus i hyrwyddo niwclear. Rydym ni wedi gweld hynny gyda'r benthyciad enfawr maen nhw wedi ei roi o ran Hinkley Point. Nid oes polisi ynni cyffredinol cydlynol yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU. Nid ydym yn gwybod o ble y bydd ynni yn dod yn y degawd nesaf, ac, wrth gwrs, nid ydym yn gweld cymorth ar gyfer defnyddwyr ynni uchel, fel y diwydiant dur. Rydym ni wedi galw a galw a galw am i'r diwydiant dur gael y parch y mae'n ei haeddu gan Lywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod y costau ynni sy'n amharu ar y diwydiant dur yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn cael sylw, ond, hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw beth.

### Rheilffyrdd

### Railways

13:59 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reilffyrdd gogledd Cymru? OAQ(4)2557(FM)[W]*

*7. Will the First Minister make a statement on north Wales railways? OAQ(4)2557(FM)[W]*

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Fe wnes i ateb y cwestiwn hwn i raddau yn gynharach.

I answered this question to some extent earlier.

13:59 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gofyn cwestiwn a wnes i yn gynharach ynglŷn â'r breindal nesaf ac ni wnaeth y Prif Weinidog ateb y cwestiwn hwnnw, ond rwy'n siŵr y caf barhau â'r drafodaeth honno efo'r Gweinidog dros drafnidiaeth. Fe wnaf, serch hynny, sôn rŵan am fuddsoddi mewn isadeiledd. Mi fydd cyfarfod pwysig iawn yn cael ei gynnal yn Llandudno ddydd Iau yma i drafod trydaneiddio rheilffordd y gogledd. Rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth a Phlaid Cymru yn rhan o'r consensws sydd yna ar yr angen i fwrw ymlaen â thrydaneiddio fel cam hanfodol tuag at gysylltedd i bobl Cymru—neb fwy, felly, o bosib, na phobol Ynys Môn, sydd ym mhen draw'r lein, ac wrth gwrs mae'n gyswllt pwysig gydag Iwerddon. I ba raddau, serch hynny, y mae'r Prif Weinidog yn fodlon ymyrryd yn bersonol i drio perswadio Llywodraeth Prydain i roi trydaneiddio gogledd Cymru yn flaenoriaeth pan mae hi'n dod at isadeiledd rheilffyrdd? Achos, tra'r ydym yn cytuno mai yng Nghymru y dylai'r pwerau a'r penderfyniadau fod, nid dyna'r achos ar hyn o bryd.

I asked a question earlier on the next franchise, and the First Minister didn't answer that question, but I'm sure I can continue that discussion with the Minister for Economy, Science and Transport. I will however now turn to investment in infrastructure. There'll be a very important meeting held in Llandudno this Thursday to discuss the electrification of the north Wales line, and I'm very pleased that the Government and Plaid Cymru are part of a consensus on the need to proceed with electrification as a crucial step towards connectivity for the people of Wales, none more, perhaps, than the people of Ynys Môn who are at the end of the line, and it is an important link to Ireland as well, of course. To what extent, however, is the First Minister willing to intervene personally to try and persuade the UK Government to put the electrification of the north Wales main line as a priority when it comes to rail infrastructure? Because, while we agree that the powers and decisions should be taken in Wales, that's not the case at the moment.

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, beth sy'n fy mhryderu i'n fawr iawn, wrth gwrs, yw ein bod ni nawr yn deall bod yr Adran Drafnidiaeth yn Llundain wedi derbyn toriadau o 30 y cant. Nid wyf yn gweld sut y mae hynny'n gweithio ynglŷn â'r cysylltiad â sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei foderneiddio a'i wella. Wrth ddweud hynny, wrth gwrs, mae trydaneiddio rheilffordd y gogledd yn rhywbeth yr wyf wedi sôn amdano'n gyhoeddus sawl gwaith. Nid ydym yn gwybod hyd yn oed nawr, lle'r rŷm ni ynglŷn â'r de. Mae hynny wedi cael ei addo, yn gyhoeddus, gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond heb ddyddiad, nawr, ynglŷn â phryd fydd hynny'n dechrau.

Well, what concerns me greatly, of course, is that we now understand that the Department for Transport in London has received cuts of 30 per cent, and I don't see how that works as regards ensuring that the whole network will be modernised and improved. Having said that, of course, the electrification of the north Wales main line is something that I've mentioned publicly a number of times. We don't even know about the south Wales main line at the moment. That has been promised by the UK Government, but without any start date.

Rwy'n pryderu, wrth gwrs, os na welwn ni drydaneiddio'r rheilffordd i'r gogledd, bydd y trenau rhyng-ddinasol yn gorffen yn Crewe, achos dyna le mae'r trydaneiddio yn gorffen ar hyn o bryd. Nid felly byddem ni'n moyn gweld ac nid felly y bydd ef yn moyn gweld, wrth gwrs, ac rŷm ni'n dal i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i drydaneiddio nid dim ond y de, ond y gogledd hefyd, ac, wrth gwrs, rhai rheilffyrdd fel, er enghraifft rheilffordd y ffiniau.

I'm concerned, of course, that if we don't see the electrification of the line to north Wales, then the intercity line will actually terminate in Crewe, because that is where electrification ends at the present time. That is not what we want to see and that is not what he would want to see, of course, and we're still bringing pressure to bear on the UK Government to electrify not just the south, but also north Wales, and also some other railways, such as the Marches line.

14:01 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as a result of the withdrawal of three service routes in Wales, I understand that the Department for Transport are actually providing compensatory funding to the Welsh Government. Could you advise us how much this funding is, and also, can you confirm that you'll be rolling this money back into the rail service in Wales in order to bring about some much needed improvements?

Brif Weinidog, o ganlyniad i ddiddymu tri llwybr gwasanaeth yng Nghymru, rwy'n deall bod yr Adran Drafnidiaeth yn darparu cyllid ar gyfer iawndal i Lywodraeth Cymru. A allech chi ddweud wrthym faint yw'r cyllid hwn, a hefyd, a allwch chi gadarnhau y byddwch yn cyfrannu'r arian hwn yn ôl at y gwasanaeth rheilffyrdd yng Nghymru er mwyn sicrhau rhai gwelliannau y mae wir eu hangen?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No. I'm not aware of what the funding will be at this moment in time. We want to invest more in our rail network. As I say, I don't see how that chimes with the 30 per cent cut announced today in funding for the Department for Transport in Whitehall, and I do worry that we are now seeing a delay in the electrification of the south Wales main line. We cannot move ahead with electrification of the metro without the main line being done, but thus far, we are not being given a date. Until that is done, the promise that was made by her party will remain unfulfilled. Tell us when the main line in south Wales will be electrified. That's a simple question and thus far, we have no answer.

Na allaf. NId wyf yn gwybod faint fydd y cyllid ar hyn o bryd. Rydym ni eisiau buddsoddi mwy yn ein rhwydwaith rheilffyrdd. Fel y dywedais, nid wyf yn gweld sut mae hynny'n cyd-fynd â'r toriad o 30 y cant a gyhoeddwyd heddiw i gyllid ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth yn Whitehall, ac rwy'n poeni ein bod ni'n gweld oedi nawr o ran trydaneiddio prif reilffordd y de. Ni allwn fwrw ymlaen â thrydaneiddio'r metro heb wneud y brif reilffordd, ond hyd yn hyn, nid oes dyddiad wedi ei roi i ni. Tan y bydd hynny'n cael ei wneud, bydd yr addewid a wnaed gan ei phlaid hi yn parhau i fod heb ei gyflawni. Dywedwch wrthym pryd y bydd y brif reilffordd yn y de yn cael ei thrydaneiddio. Mae hwnnw'n gwestiwn syml ac nid ydym wedi cael ateb hyd yn hyn.

14:02 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae yna berig, wrth gwrs, y bydd y rheilffordd yn y gogledd, fel rŷch chi wedi dweud, yn dadgysylltu'i hun o rwydwaith Prydain os nad yw'n cael ei drydaneiddio. Ond, mi oedd yna ddatganiad ddoe ynghylch oedi pellach yn y cyswllt rhwng Wrecsam a Chaer—cynllun Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae problemau ynglŷn â'r rheilffordd rhwng Gobowen a'r Amwythig sydd wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. A ydych chi, felly, wedi rhoi unrhyw gwynion ymlaen fel rhan o adolygiad Llywodraeth Prydain o Network Rail i ddweud pa mor anfodlon yr ydych chi, fel Llywodraeth, ynglŷn â'r ffordd mae Network Rail yn gweithredu ar hyn o bryd?

There is a risk, of course, that the railway in north Wales, as you've said, would be disconnected from the wider UK network if it is not electrified. But, there was a statement yesterday on further delays in the link between Wrexham and Chester—the Welsh Government plan. Also, there are problems in terms of the line between Gobowen and Shrewsbury, which is funded by the Welsh Government. Have you, therefore, submitted any complaints as part of the UK Government's review into Network Rail, to state how dissatisfied you are as a Government with the way that Network Rail is operating at present?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi'i wneud e sawl gwaith. Er bod y pŵer gennym ni, wrth gwrs, i gyllido gwaith a'r gwasanaethau, nid ni sy'n rheoli'r gwaith hwnnw, ond Network Rail. Rydym wedi dweud sawl gwaith y dylai hwn gael ei reoli o fewn Cymru, fel y mae yn yr Alban, er mwyn sicrhau bod yna reolaeth lwyr gan bobl Cymru dros y rheilffordd yng Nghymru. Nid felly yw hi ar hyn o bryd. Felly, pan rŷm ni'n gweld problemau'n codi, ac wrth gwrs mae cau twnnel Hafren yn enghraifft arall—cau'r twnnel pan fydd gêm fawr yng Nghaerdydd—sy'n dangos bod yn rhaid cael mwy o rym yng Nghymru dros reilffyrdd Cymru.

Yes, we've done so a number of times. Although we have the powers to fund the work and the services, we don't actually manage or control that; it's Network Rail. We've said a number of times that that should be managed within Wales, as is the case in Scotland, to ensure that the people of Wales have complete control over the railways in Wales. That is not what happens at present. We've seen problems arising, such as the closing of the Severn tunnel when there's a major match on in Cardiff. That demonstrates that we need more powers in Wales over the railways of Wales.

## Y Gymuned Ffermio

## Farming Community

14:03 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gymuned ffermio? OAQ(4)2551(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on Welsh Government policies for supporting the farming community? OAQ(4)2551(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Our upcoming strategic framework for agriculture and our ambitious new initiatives under the Welsh Government Rural Communities—Rural Development programme, such as the sustainable production grant and Farming Connect, will put the farming community on the best possible footing for the future.

Gwnaf. Bydd ein fframwaith strategol sydd ar y gweill ar gyfer amaethyddiaeth a'n mentrau newydd uchelgeisiol o dan y rhaglen Cymunedau Gwledig—Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, fel y grant cynhyrchu cynaliadwy a Chyswllt Ffermio, yn cynnig y sylfaen orau posibl i'r gymuned ffermio ar gyfer y dyfodol.

14:04

## Nick Ramsay [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Thank you, First Minister. I recently visited Monmouthshire's livestock market and there's an invitation open to you from the farmers to visit the same market to hear their concerns. There are ongoing concerns about the Welsh Government's changes to the basic payment scheme, which will see many lowland farmers in my constituency, and others, lose out as a consequence of the transition to a flat rate. I appreciate that things do change, but within this new scheme there is no recognition of the benefits of production, there's no account taken of the fact that upland animal densities are far lower than in the lowlands. Isn't the basic problem here, Minister, that the new scheme does not favour farmers who actually want to farm?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Ymwelais â marchnad da byw Sir Fynwy yn ddiweddar ac mae gwahoddiad agored i chi gan y ffermwyr i ymweld â'r farchnad honno i glywed eu pryderon. Ceir pryderon parhaus am newidiadau Llywodraeth Cymru i'r cynllun taliadau sylfaenol, a fydd yn golygu y bydd llawer o ffermwyr tir isel yn fy etholaeth i, ac eraill, ar eu colled o ganlyniad i'r newid i gyfradd safonol. Rwy'n sylweddoli bod pethau yn newid, ond nid oes unrhyw gydnabyddiaeth yn y cynllun newydd hwn o fanteision cynhyrchu, ni roddir unrhyw ystyriaeth i'r ffaith fod dwysedd anifeiliaid ucheldir yn llawer is nag ar y tir isel. Onid yw'n wir mai'r broblem sylfaenol yma, Weinidog, yw nad yw'r cynllun newydd yn ffafrio ffermwyr sydd wir eisiau ffermio?

14:04

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, upland farmers would find that a very difficult line, I have to say, that he said. The reality is that lowland farmers and upland farmers are in a different position in this regard. There are plenty of farmers who don't agree with that view and I've met farmers who do. Now, if it's the case that upland farmers are less valued than lowland farmers, I have to say to him I would disagree with that viewpoint. I know that upland farming is an important contributor to sustainability, not just in terms of economic sustainability, but social and environmental sustainability in Wales. Let's face it, the greatest risk to farming is the loss of the European market, because if farmers don't have easy and unrestricted access to the European market, farming in Wales has no future, because that is where our major market is. Anything that interferes with that is bad for Welsh farming.

Wel, byddai ffermwyr ucheldir o'r farn bod honno'n llinell anodd iawn, mae'n rhaid i mi ddweud, a ddywedodd. Y gwir amdani yw bod ffermwyr tir isel a ffermwyr ucheldir mewn gwahanol sefyllfaoedd yn hyn o beth. Ceir digonedd o ffermwyr nad ydynt yn cytuno â'r farn honno ac rwyf wedi cyfarfod ffermwyr sydd yn cytuno. Nawr, os yw'n wir nad yw ffermwyr ucheldir yn cael eu gwerthfawrogi cymaint â ffermwyr tir isel, mae'n rhaid i mi ddweud wrtho y byddwn yn anghytuno â'r safbwynt hwnnw. Gwn fod ffermio ucheldir yn gwneud cyfraniad pwysig at gynaliadwyedd, nid dim ond o ran cynaliadwyedd economaidd, ond cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru. Gadewch i ni fod yn onest, y risg fwyaf i ffermio yw colli'r farchnad Ewropeaidd, oherwydd os nad oes gan ffermwyr fynediad rhwydd ac anghyfyngedig at y farchnad Ewropeaidd, nid oes dyfodol i ffermio yng Nghymru, gan mai dyna lle mae ein prif farchnad. Mae unrhyw beth sy'n ymyrryd â hynny yn ddrwg i ffermio yng Nghymru.

14:05

## William Powell [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

In accordance with the Members' code of conduct, I alert the Chamber to the fact that I am a partner in a small upland farming business in receipt of CAP support. But, nevertheless, First Minister, you've often stated in this Chamber the importance of the CAP to the sustainability and the future of Welsh farming. One theme that came up consistently last week at the NFU conference in Llandrindod Wells was concern around the potential for delayed payments this year, partly as a result of potential legal action, but also for any other reasons. In this context, First Minister, given the unprecedented levels of indebtedness that there are in the farming sector at the moment, and concerns out there also amongst the banks, will you consider convening a farm finance summit with yourself, your Minister, the Deputy Minister for Farming and Food, key stakeholders in the finance sector and the farming unions to address this issue before it becomes a crisis?

Yn unol â chod ymddygiad yr Aelodau, rhybuddiaf y Siambr am y ffaith fy mod i'n bartner mewn busnes ffermio ucheldir bychan sy'n derbyn cymorth y PAC. Ond, serch hynny, Brif Weinidog, rydych chi wedi datgan pwysigrwydd y PAC i gynaladwyedd a dyfodol ffermio yng Nghymru yn aml yn y Siambr hon. Un thema a godwyd yn gyson yr wythnos diwethaf yng nghynhadledd yr NFU yn Llandrindod oedd pryder am y potensial o oedi taliadau eleni, yn rhannol o ganlyniad i gamau cyfreithiol posibl, ond hefyd am unrhyw resymau eraill. Yn y cyd-destun hwn, Brif Weinidog, o ystyried y lefelau digynsail o ddyledrwydd sy'n bodoli yn y sector ffermio ar hyn o bryd, a phryderon allan yna ymhlith y banciau hefyd, a wnewch chi ystyried trefnu uwchgynhadledd cyllid ffermydd yn cynnwys chi eich hun, eich Gweinidog, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, rhanddeiliaid allweddol yn y sector cyllid a'r undebau amaethyddol i roi sylw i'r mater hwn cyn iddo droi'n argyfwng?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think what farmers want to see is action and payment. We know that the basic payment scheme will pay farmers roughly £200 million annually. We are looking to make BPS part-payments of approximately 80 per cent of the full payment to the majority of farmers in December, with the vast majority of part-payments made early in the new year. Final part-payments and the balance of payments will then be made by the end of April. It may be, in some cases, where there is a probate issue, for example, that payment might take longer, but that is what we're on track to do.

Wel, rwy'n credu mai'r hyn y mae ffermwyr eisiau ei weld yw gweithredu a thaliadau. Rydym yn gwybod y bydd y cynllun taliad sylfaenol yn talu tua £200 miliwn i ffermwyr bob blwyddyn. Ein nod yw gwneud rhandaliadau o tua 80 y cant o daliad llawn y cynllun taliad sylfaenol i'r rhan fwyaf o ffermwyr ym mis Rhagfyr, gyda'r mwyafrif llethol o randaliadau'n cael eu gwneud yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Yna, bydd rhandaliadau terfynol a gweddill y taliadau'n cael eu gwneud erbyn diwedd mis Ebrill. Efallai, mewn rhai achosion, lle ceir problem profiant, er enghraifft, y gallai'r taliad hwnnw gymryd mwy o amser, ond dyna'r hyn yr ydym ni ar y trywydd iawn i'w wneud.

## Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Betsi Cadwaladr University Health Board

14:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd mewn perthynas â sefyllfa ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd o dan fesurau arbennig Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2558(FM)[W]*

*9. What steps are being taken in relation to the financial situation of Betsi Cadwaladr University Health Board, which is under Welsh Government special measures? OAQ(4)2558(FM)[W]*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth pellach i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i wneud yn siŵr ei fod yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel i bobl y gogledd, a'r gofal hwnnw'n gynaliadwy yn y tymor hir.

The Welsh Government will be providing further support to Betsi Cadwaladr University Local Health Board to ensure it provides high-quality and safe care to the people of north Wales that is sustainable in the longer term.

14:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am hynny. Mae'n siŵr eich bod chi'n cofio mai un o'r rhesymau a roddwyd am fesurau arbennig ar gyfer y bwrdd iechyd oedd diffyg rheolaeth ariannol ar y pryd. Ym mis Mehefin, mi oedd y bwrdd yn dweud mai £14.2 miliwn fyddai'r diffyg eleni. Erbyn mis Hydref, roedd hynny wedi cynyddu i £30 miliwn. Felly, pa fesurau ychwanegol a ydych chi'n eu cymryd fel Llywodraeth o ran parhad y diffyg rheolaeth yna? A allwch chi roi addewid i bobl y gogledd na fydd y bwrdd iechyd yn cael defnyddio'r mesurau maen nhw wedi yn y gorffennol, sef rhoi'r gorau i driniaethau, yn arbennig felly triniaethau sy'n cael eu comisiynu yn Lloegr, er mwyn arbed arian dros fisoedd y gaeaf?

Thank you for that. I'm sure that you'll recall that one of the reasons given for implementing special measures for the health board was problems in terms of financial management at the time. In June, the board stated that £14.2 million would be the deficit for this year. By October, that had increased to £30 million. So, what additional measures will you put in place as a Government regarding problems in terms of financial management? Can you give a commitment to the people of north Wales that the health board won't be able to use the measures that they've used in the past, namely cancelling treatments, particularly treatments that are commissioned in England, to save money over the winter months?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n bwysig dros ben fod Betsi yn cynhyrchu cynllun sydd yn cydbwyso gwasanaethau, wrth gwrs, a hefyd yn sicrhau cydbwysedd ynglŷn â materion ariannol. Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r gweithredu sydd yn cael ei wneud o dan y mesurau arbennig. Wrth gwrs, o dan y mesurau hynny, bydd yna gynlluniau yn cael eu datblygu er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gynaliadwy.

It's very important that Betsi produces a plan that balances the services, of course, and ensures a balance regarding financial matters. This will be done as part of the action taken under the special measures. Of course, under those measures, plans will be developed in order to ensure that the financial position is sustainable.

14:09 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the situation is of concern to residents in north Wales, particularly in terms of the performance of services in relation to waiting times for, particularly, orthopaedics and some other services. I wonder what specific targeted support the Welsh Government might be able to give to bring down the waiting times for orthopaedic surgery in north Wales. Many people have been waiting up to 52 weeks for their surgery. Clearly, that is unacceptable and it's leading to very poor quality of life for some and more serious conditions as a result, when they finally do get their treatment.

Brif Weinidog, mae'r sefyllfa'n peri pryder i drigolion yn y gogledd, yn enwedig ynghylch perfformiad gwasanaethau o ran amseroedd aros am driniaeth orthopedig, yn arbennig, a rhai gwasanaethau eraill. Tybed pa gymorth wedi'i dargedu y gallai Llywodraeth Cymru ei gynnig i leihau'r amseroedd aros am lawdriniaeth orthopedig yn y gogledd. Mae llawer o bobl wedi bod yn aros hyd at 52 wythnos am eu llawdriniaeth. Mae hynny'n amlwg yn annerbyniol ac mae'n arwain at ansawdd bywyd gwael iawn i rai a chyflyrau mwy difrifol o ganlyniad, pan fyddant yn derbyn eu triniaeth yn y pen draw.

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Betsi does well in certain areas. In terms of cancer, it leads Wales, and in terms of stroke care, and, for example, its ambulance response times are amongst the best, if not the best, in the north of Wales. We expect, of course, the health board to allocate the appropriate level of resource in order that people do not have to wait an unacceptable time for any treatment, orthopaedic or not.

Mae Betsi yn gwneud yn dda mewn rhai meysydd. O ran canser, mae'n arwain Cymru, ac o ran gofal strôc, ac, er enghraifft, mae amseroedd ymateb ei ambiwlansys ymhlith y gorau, os nad y gorau, yn y gogledd. Rydym yn disgwyl, wrth gwrs, i'r bwrdd iechyd neilltuo lefel briodol o adnoddau fel nad oes yn rhaid i bobl aros am amser annerbyniol i gael unrhyw driniaeth, orthopedig neu beidio.

14:09 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I barhau ar yr un thema, mae rhestrau aros yn peri pryder mawr. Mae gennych chi un o f'etholwyr i—ac nid wyf yn disgwyl i chi wneud sylw ar yr achos, wrth gwrs—a oedd wedi ei diagnosio efo parathyroid ym Medi 2013. Yn 2014, ym mis Medi, roedd hi'n dioddef erbyn hynny o hyperparathyroid sy'n effeithio ar organau eraill y corff, ac roedd yr arbenigwr yn dweud, 'Mae'n rhaid i chi gael llawdriniaeth yn fuan'. Flwyddyn yn ddiweddarach, nid ydyw wedi derbyn y llawdriniaeth ac mae'n dal i ddisgwyl triniaeth. A ydy hyn yn dderbyniol gennych chi ac a ydych yn credu mai diffyg arian sydd wrth wraidd y broblem, neu ryw ddiffyg arall?

Along the same lines, waiting lists cause great concern. A constituent of mine—and I don't expect you to comment on the individual case, of course—was diagnosed with parathyroid disease in September 2013. By September 2014 she was suffering from hyperparathyroidism, which affects other organs in the body, and the specialist said, 'You need surgery soon'. A year on, she still hasn't had that surgery and she's still awaiting treatment. Is this acceptable to you, and do you believe that it is shortage of funding that is at the heart of the problem, or is it some other problem?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Na, achos os oes meddyg wedi dweud wrth rywun bod eisiau iddyn nhw gael llawdriniaeth yn 'fuan', byddwn i'n erfyn i'r llawdriniaeth honno ddigwydd, ac nid aros blwyddyn. Efallai pe bai'r Aelod yn rhoi—os yw'n gallu—mwy o fanylion mewn llythyr i fi, gallwn i ystyried beth sydd wedi digwydd yn y fan hyn. Ond, lle mae rhywun eisiau llawdriniaeth yn fuan, byddwn yn erfyn i hynny ddigwydd.

No, because if a doctor has told someone that they need to have surgery 'soon', I would expect that surgery to happen, and not have to wait for a year. If the Member could provide more details in a letter to me, I could consider the case in greater detail. But, where someone needs to have surgery as soon as possible, I would expect that surgery to take place.

### Y Sector Dur

### Steel industry

14:11 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r sector dur yng Nghymru? OAQ(4)2550(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the support the Welsh Government is providing to the steel industry in Wales? OAQ(4)2550(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We recognise the importance of the steel industry, of course, to the Welsh economy. Last week the economy Minister held a meeting with industry and trade union representatives to continue discussions on what action can be taken to support the industry, and she will be updating Members in the Chamber tomorrow.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant dur, wrth gwrs, i economi Cymru. Cynhaliodd Gweinidog yr economi gyfarfod gyda chynrychiolwyr y diwydiant ac undebau llafur yr wythnos diwethaf i barhau trafodaethau ar ba gamau y gellir eu cymryd i gefnogi'r diwydiant, a bydd hi'n diweddaru'r Aelodau yn y Siambr yfory.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. I welcome the work that has been done by the Welsh Government on this so far, but do you agree with me that the steel industry has been failed by the UK Government—both this one and the previous one—despite the numerous warnings that it received from the industry, and from the Welsh Government, and the calls for actual urgent action in relation to the high, intensive cost of energy, and upon the cheap imports that we are seeing here in Wales now? Will you raise this with the Prime Minister as a matter of urgency and a priority, to ensure that we actually end up with a steel industry still in Wales and, in fact, even within the UK?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy’n croesawu'r gwaith sydd wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar y mater hyd yn hyn, ond a ydych chi’n cytuno â mi fod y diwydiant dur wedi cael ei siomi gan Lywodraeth y DU—hon a’r un flaenorol—er gwaethaf y rhybuddion niferus iddi ei derbyn gan y diwydiant, a chan Lywodraeth Cymru, a’r galwadau am gamau brys gwirioneddol o ran y gost uchel, ddwys ynni, ac ar y mewnforion rhad yr ydym ni’n eu gweld yma yng Nghymru nawr? A wnewch chi godi'r mater hwn gyda Phrif Weinidog y DU fel mater o frys a blaenoriaeth, er mwyn sicrhau y bydd gennym ddiwydiant dur yng Nghymru ac, yn wir, yn y DU hyd yn oed, yn y pen draw?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, you do get the impression, listening to the responsible Minister in Westminster, that steel isn’t important, that this is seen as a relic of the past. Not for us in Wales, it’s not. It’s an important industry. I read with interest, for example, the comments of Professor Patrick Minford with regard to EU membership, when he seemed to suggest that manufacturing wasn’t important and that the future lay entirely in service industries. I don’t accept for one minute that that’s where we should be going to—to abandon our manufacturing base and our manufacturing heritage. It is true to say that there is pressure because of a glut of steel on the market. That much is true. These are pressures that all steel producers face, but there is no doubt—and the steel producers themselves tell us this—that high energy costs in the UK are an immense problem in terms of competitiveness. It is absolutely crucial that the UK Government takes action now to help, not just the steel industry, but all our high-energy industries in order to make sure that they can be as competitive as other plants elsewhere in Europe. That isn’t the case, sadly, at the moment.

Wel, rydych chi’n cael yr argraff, o wrando ar y Gweinidog cyfrifol yn San Steffan, nad yw dur yn bwysig, ei fod yn cael ei weld fel crair o'r gorffennol. Nid yw hynny’n wir i ni yng Nghymru. Mae'n ddiwydiant pwysig. Darllenais gyda diddordeb, er enghraifft, sylwadau’r Athro Patrick Minford ar aelodaeth o'r UE, pan roedd yn ymddangos ei fod yn awgrymu nad oedd gweithgynhyrchu’n bwysig ac mai dim ond diwydiannau gwasanaethu fyddai’n bodoli yn y dyfodol. Nid wyf yn derbyn am eiliad mai dyna lle ddylem ni fod yn mynd—troi cefn ar ein sylfaen weithgynhyrchu a'n treftadaeth weithgynhyrchu. Mae'n wir dweud bod pwysau oherwydd gormodedd o ddur ar y farchnad. Mae cymaint â hynny’n wir. Mae'r rhain yn bwysau y mae’r holl gynhyrchwyr dur yn eu hwynebu, ond nid oes amheuaeth—ac mae'r cynhyrchwyr dur eu hunain yn dweud hyn wrthym—fod costau ynni uchel yn y DU yn broblem aruthrol o ran cystadleurwydd. Mae'n gwbl hanfodol bod Llywodraeth y DU yn cymryd camau nawr i helpu, nid yn unig y diwydiant dur, ond pob un o'n diwydiannau ynni uchel er mwyn gwneud yn siŵr y gallant fod mor gystadleuol â gweithfeydd eraill mewn mannau eraill yn Ewrop. Nid yw hynny'n wir, yn anffodus, ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Mae’n bwysig, Brif Weinidog, fod eich Llywodraeth chi hefyd yn gwneud yr hyn rydych chi’n gallu’i wneud i gefnogi’r diwydiant. Rŷm ni wedi clywed gan wleidyddion ar bob lefel yn union pa mor hanfodol yw caffael i’r diwydiant dur. Mae’r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ymrwymo i gryfhau arferion caffael i gefnogi’r diwydiant dur yn well mewn ymateb i’r ddadl drawsbleidiol a gymerodd lle yn y lle hwn yn gynharach eleni. O ystyried bod arferion caffael o fewn cylch gwaith eich Llywodraeth chi—ac rwy’n derbyn y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad yfory—a allwch chi ddweud wrthym ni pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi’u cymryd ers y ddadl ym mis Mawrth eleni i gryfhau arferion caffael a chefnogi’r sector yn well?

It’s important, First Minister, that your Government also does what it can to support the industry. We’ve heard from politicians at all levels just how crucial procurement is to the steel industry. The Minister for Economy, Science and Transport has committed to strengthening procurement practices to support the steel industry more effectively in response to a cross-party debate that took place in this place earlier this year. Given that procurement responsibilities are within your Government’s remit—and I accept that the Minister will be making a statement tomorrow—can you tell us what specific steps the Welsh Government has taken since the debate in March of this year to strengthen procurement processes and to support the sector more effectively?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rŷm ni yn adolygu ar hyn o bryd y dogfennau cytundebol model ynglŷn â delifro projectau trafnidiaeth mawr, er enghraifft, er mwyn sicrhau y bydd y safon BS yn cael ei derbyn. Rydym yn edrych, ar hyn o bryd, ar beth mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud ynglŷn â chaffael dur. Mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Ond, i fod yn onest, dyna i gyd y mae'n ei wneud yw dweud yn gwmws beth mae Value Wales yn dweud ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod amodau cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael eu hystyried pan mae'r cytundebau hyn yn cael eu gwneud. Ond ble mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig? Faint o ddur, er enghraifft, o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddefnyddio gan yr adran amddiffyn? Nid ydym yn gwybod hynny. Ar hyn o bryd, rydym ni'n mynd tuag at sefyllfa lle na fydd digon o ddur ar gael ym Mhrydain er mwyn sicrhau bod adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gallu defnyddio dur o Brydain. Mae'n rhaid cael sicrhad nawr bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd i ddelio gyda chostau uchel ynni. Os nad ydynt yn gwneud hynny—rwyf wedi bod yn dweud hyn ers pum mlynedd—wel, mae yna broblemau o'n blaenau ni. Felly, mae'n rhaid iddyn nhw wneud rhywbeth nawr i helpu gweithwyr Cymru i helpu gweithwyr Cymru.

At present, we are reviewing the model contractual documents as regards the delivery of major transport projects, for example, in order to ensure that the BS standard is accepted. We are now looking at what the UK Government has said about the procurement of steel. That's something that we are considering at present. To be honest, all that it does is say exactly what Value Wales is saying at present, in order to ensure that the social and environmental conditions are considered when these agreements are made, or these contracts are signed. Where is the United Kingdom? How much steel from the United Kingdom, for example, is used by the Ministry of Defence? We don't know. At present, we are moving towards a situation where there won't be sufficient steel available within Britain in order to ensure that UK Government departments can use British steel. So, we must have a guarantee now that the United Kingdom Government will deal with the high energy costs. If they don't do that—and I've been saying this for five years—there will be problems ahead. So, they have to do something now to help the workers of Wales.

14:15 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you'll know that the European steel summit took place in Brussels yesterday, and you'll know also that many people in the sector, and those who work in the Port Talbot plant, have said to me that they weren't very happy with the outcome, which is what they see as the UK Government contributing to the mishandling of this issue. Do you share steelworkers' concerns that granting China market status, in spite of the country failing to abide by EU rules on fair trade, will make the dumping of cheap steel on European markets worse, not better? And have you or any of your Ministers, as you have indicated, had any additional conversations to this end?

Brif Weinidog, byddwch yn gwybod y cynhaliwyd yr uwchgynhadledd dur Ewropeaidd ym Mrwsel ddoe, a byddwch yn gwybod hefyd bod llawer o bobl yn y sector, a'r rhai sy'n gweithio yng ngwaith Port Talbot, wedi dweud wrthyf nad oeddent yn hapus iawn gyda'r canlyniad, sef yr hyn y maen nhw'n ei weld fel Llywodraeth y DU yn cyfrannu at gamdrafod y mater hwn. A ydych chi'n rhannu pryderon gweithwyr dur bod rhoi statws y farchnad i Tsieina, er gwaethaf y ffaith bod y wlad honno'n methu â chadw at reolau'r UE ar fasnach deg, yn gwneud dadlwytho dur rhad ar farchnadoedd Ewropeaidd yn waeth, nid yn well? Ac a ydych chi neu unrhyw un o'ch Gweinidogion, fel yr ydych chi wedi ei nodi, wedi cael unrhyw sgyrsiau ychwanegol i'r perwyl hwn?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, this is exactly—. One of the points, of course, is that unfair trade practices are one of the problems that the industry faces. We have global over-capacity, we know that, but also those trade practices don't help. We know, for example, that energy costs, as I've mentioned, are an issue. In terms of modernisation of the steel industry, that's important, although Tata, following the visit that I made to Mumbai and met with them, have invested hundreds of millions into Port Talbot—investment that happened as a result of that visit, and that's something that we welcome. And, of course, we have the European globalisation adjustment fund, which is also a factor.

Ie, dyma'n union—. Un o'r pwyntiau, wrth gwrs, yw bod arferion masnachu annheg yn un o'r problemau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu. Mae gennym ni or-gapasiti byd-eang, rydym ni'n gwybod hynny, ond hefyd nid yw'r arferion masnach hynny'n helpu. Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, bod costau ynni, fel yr wyf wedi sôn, yn broblem. O ran moderneiddio'r diwydiant dur, mae hynny'n bwysig, er bod Tata, yn dilyn yr ymweliad a wneuthum i Mumbai a'r cyfarfod â nhw, wedi buddsoddi cannoedd o filiynau ym Mhort Talbot—buddsoddiad a ddigwyddodd o ganlyniad i'r ymweliad hwnnw, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ei groesawu. Ac, wrth gwrs, mae gennym ni'r gronfa addasiad globaleiddio Ewropeaidd, sydd hefyd yn ffactor.

There is no one factor, but the factor that is within the control of the UK Government is energy. They can't control the demand and production of steel around the world, that much is true, but anything that improves the competitiveness of the Welsh steel industry—for example, Port Talbot against IJmuiden in the Netherlands—has to be welcomed, and that is not where we are at the moment, and that does not bode well for the steel industry unless the UK Government takes action.

Nid oes un ffactor penodol, ond ynni yw'r ffactor sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU. Ni allant reoli'r galw am ddur a'i gynhyrchiant ledled y byd, mae cymaint â hynny'n wir, ond mae'n rhaid croesau unrhyw beth sy'n gwella cystadleurwydd diwydiant dur Cymru—er enghraifft, Port Talbot yn erbyn IJmuiden yn yr Iseldiroedd—ac nid dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd, ac nid yw hynny'n argoeli'n dda i'r diwydiant dur oni bai bod Llywodraeth y DU yn cymryd camau.

14:16

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, can I concur with you that anything that improves the competitiveness of the steel industry is important? Have you looked in terms of what the Welsh Government can do with regard to business rates as to whether you can do a small thing to actually help with that, although I know it's very small in comparison to the energy costs? Are there issues in terms of business rates that can specifically help Tata in terms of being more competitive?

Brif Weinidog, a gaf i gytuno â chi bod unrhyw beth sy'n gwella cystadleurwydd y diwydiant dur yn bwysig? A ydych chi wedi ystyried yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud o ran ardrethi busnes o ran pa un a allwch chi wneud rhywbeth bach i helpu gyda hynny, er fy mod i'n gwybod ei fod yn fach iawn o'i gymharu â'r costau ynni? A oes problemau o ran ardrethi busnes a all helpu Tata yn benodol o ran bod yn fwy cystadleuol?

14:17

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know that this is something that the Minister is considering. Of course, we have to be careful that it's not seen as favouring one industry rather than another—that's important as well—but I take the point and it is something that we're actively examining. It comes as a cost, as the Member would know. In terms of high energy costs, that doesn't come at a cost to Government, particularly, and that's something that could be done now by the UK Government, but we will do what we can, particularly in terms of affordability, in order to help. But it is a drop in the ocean compared to what the UK Government could do.

Gwn fod hyn yn rhywbeth y mae'r Gweinidog yn ei ystyried. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus nad yw'n cael ei weld fel ffafrio un diwydiant yn hytrach nag un arall—mae hynny'n bwysig hefyd—ond rwy'n derbyn y pwynt ac mae'n rhywbeth yr ydym ni'n ei ystyried yn ymarferol. Mae'n dod fel cost, fel y byddai'r Aelod yn gwybod. O ran costau ynni uchel, nid yw hynny'n dod ar gost i'r Llywodraeth, yn benodol, ac mae hynny'n rhywbeth y gallai Llywodraeth y DU ei wneud nawr, ond byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i helpu, yn enwedig o ran fforddiadwyedd. Ond ddiferyn yn y môr yw hynny o'i gymharu â'r hyn y gallai Llywodraeth y DU ei wneud.

14:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:17

# 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:17

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Lywydd. There's been one change to the business statement for this week's business. The Minister for Economy, Science and Transport will make a statement tomorrow on steel industry meetings. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Mae un newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad yfory am gyfarfodydd y diwydiant dur. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:17 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Business Minister, I wonder if I might ask you if you might impress on your colleague the Deputy Minister for Food and Farming whether she could urgently issue advice to farmers following the second outbreak of anthrax within a 50-mile zone of south-east Wales, in Westbury in Wiltshire. The implications of this are that, when you sell stock, it has to be properly marked, particularly at the Raglan agricultural market in Monmouthshire, it means a loss to those farmers immediately when they are selling stock that is so marked, and it also means that those who are trying to export hides are unable to do so until there is adequate explanation of the terms under which they may be marketed.

Weinidog Busnes, tybed a gaf i ofyn i chi a wnewch chi bwyso ar eich cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd am ba un a allai hi gyhoeddi cyngor ar frys i ffermwyr yn dilyn yr ail achos o anthracs mewn parth 50 milltir o’r de-ddwyrain, yn Westbury yn Wiltshire. Goblygiadau hyn yw, pan fyddwch yn gwerthu stoc, mae'n rhaid iddo gael ei farcio yn iawn, yn enwedig ym marchnad amaethyddol Rhaglan yn Sir Fynwy, ac mae'n golygu colled i'r ffermwyr hynny ar unwaith pan fyddant yn gwerthu stoc sydd wedi ei farcio felly, ac mae hefyd yn golygu nad yw’r rhai sy'n ceisio allforio crwyn yn gallu gwneud hynny hyd nes y ceir eglurhad digonol o'r telerau ar gyfer eu marchnata.

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, William Graham. I hope I can clarify the position in terms of the question that you raised. I think that this was inspired by a BBC news article on 29 October, but I think there has been a misunderstanding of what this zone entails. There’s no enforceable restriction in place in relation to this 50-mile zone, which relates exclusively to hides and skins that are exported to China, due to the trade agreement in place. It doesn’t apply to any other trade export market or animal products, and there’s an existing known requirement on the animal export health certificates. This is not a new issue. Of course, as has been commented on, it was triggered as a result of the anthrax case in Wiltshire, but it’s not related to any disease control measures associated with that holding.

Diolch i chi, William Graham. Gobeithiaf y gallaf egluro’r sefyllfa o ran y cwestiwn a godwyd gennych. Rwyf yn credu bod hyn wedi ei ysbrydoli gan erthygl newyddion y BBC ar 29 Hydref, ond rwyf yn credu y bu camddealltwriaeth o ran beth y mae’r parth hwn yn ei olygu. Nid oes cyfyngiad gorfodadwy wedi ei osod ar gyfer y parth 50 milltir hwn, sy'n ymwneud yn unig â chrwyn sy'n cael eu hallforio i Tsieina, oherwydd y cytundeb masnach sydd ar waith. Nid yw'n berthnasol i unrhyw farchnad allforio masnach arall na chynhyrchion anifeiliaid, ac mae gofyniad hysbys cyfredol ar y tystysgrifau iechyd allforio anifeiliaid. Nid yw hwn yn fater newydd. Wrth gwrs, fel y dywedwyd o’r blaen, cafodd ei sbarduno yn sgil yr achos o anthracs yn Wiltshire, ond nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw fesurau rheoli clefydau sy'n gysylltiedig â'r fferm honno.

14:19 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

When can we have a debate about Wales and its place in the world and its relationship with other countries, and could the Government use such an opportunity to congratulate Aung San Suu Kyi and the National League for Democracy on their stunning victory in the first democratic elections in Burma for many, many years, and after so many years of struggle?

Pryd y gallwn ni gael dadl am Gymru a'i lle yn y byd a’i pherthynas â gwledydd eraill, ac a wnaiff y Llywodraeth ddefnyddio cyfle o'r fath i longyfarch Aung San Suu Kyi a’r Gynghrair Genedlaethol er Democratiaeth am eu buddugoliaeth syfrdanol yn yr etholiadau democrataidd cyntaf yn Burma ers llawer iawn o flynyddoedd, ac ar ôl cymaint o flynyddoedd o frwydo?

14:19 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Julie Morgan for that question. Of course, foreign policy is a matter for the UK Government, but these are very momentous times in terms of those struggles. I think this is a matter that, of course, I would wish to raise with the First Minister, who’s responsible for managing Wales’s relationship with the UK and internationally, but I’m sure your question will be welcomed in terms of the acknowledgement of the position.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, mater i Lywodraeth y DU yw polisi tramor, ond mae hwn yn gyfnod tyngedfennol iawn o ran yr ymdrechion hynny. Rwyf yn credu bod hyn yn fater, wrth gwrs, y byddwn yn dymuno ei godi gyda'r Prif Weinidog, sydd yn gyfrifol am reoli perthynas Cymru â'r DU ac yn rhyngwladol, ond rwyf yn siŵr y bydd eich cwestiwn yn cael ei groesawu o ran cydnabod y sefyllfa.

14:20 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a oes modd cael datganiad buan iawn gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews, parthed unrhyw drafodaethau y mae ef wedi'u chael yn ddiweddar gyda Chomisiynydd Heddlu Dyfed-Powys, Christopher Salmon, a'r Swyddfa Gartref, ynglŷn â dyfodol hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys? Roeddwn i wedi derbyn gwahoddiad i gwrdd â'r prif gwnstabl ddydd Gwener, ynghyd â Rhodri Glyn, Elin Jones, Jonathan Edwards, rwy'n meddwl, hefyd, a chynghorwyr lleol i drafod dyfodol yr hofrennydd yma a'r gwasanaeth dros Ddyfed-Powys. Rwyf yn awr yn deall bod y comisiynydd yn mynd i gyhoeddi fory ei fod eisoes wedi penderfynu mynd â'r hofrennydd oddi ar Dyfed-Powys i ymuno ag NPAS, y gwasanaeth heddlu cenedlaethol—yn yr ystyr yma, wrth gwrs, mae 'cenedlaethol' yn golygu bod Dyfed-Powys yn colli hofrennydd ac ond yn gallu rhannu awyrennau a hofrenyddion sydd yn cael eu gwasgaru dros Gymru a Lloegr i gyd.

Rwyf hefyd yn deall, o edrych ar gofnodion NPAS, eu bod nhw yn awr yn mynd i fod yn berchen ar hofrennydd sy'n cael ei drosglwyddo o Ddyfed-Powys—hofrennydd y talwyd amdano gan drethdalwyr Dyfed-Powys yn cael ei drosglwyddo i wasanaeth Cymru a Lloegr ac wedi cael ei werthu gan y gwasanaeth yna gan nad yw hofrennydd o fath y maen nhw am ei ddefnyddio. Mae hynny'n dwgyd budd o Gymru a'i rannu yn rhywle arall. Rwyf am gael datganiad gan y Gweinidog ynglŷn ag unrhyw drafodaethau. A yw ef wedi cael unrhyw rybudd, er enghraifft, fod hyn yn mynd i ddigwydd? Rwyf am wneud yn siŵr nad ydym ni fel gwleidyddion yn cael ein cadw yn y tywyllwch fel hyn a'n trin fel ffyliaid, yn meddwl ein bod ni'n trafod dyfodol gwasanaeth tra bod y penderfyniad, a dweud y gwir, wedi cael ei gymryd eisoes.

Minister, could we have a statement, as a matter of urgency, from the Minister for Public Services, Leighton Andrews, on any discussions that he's had recently with the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys, Christopher Salmon, and the Home Office, on the future of the police helicopter in the Dyfed-Powys area? I received an invitation to meet the chief constable on Friday, along with Rhodri Glyn, Elin Jones, Jonathan Edwards also, I believe, and local councillors to discuss the future of this helicopter and the service it provided in Dyfed-Powys. I'm now given to understand the commissioner is going to announce tomorrow that he's already decided to take the helicopter away from Dyfed-Powys to join NPAS, the National Police Air Service—in this context, 'national', of course, means that Dyfed-Powys will lose its helicopter and will only be able to share the helicopters that are spread across the whole of England and Wales.

I'm also given to understand, from looking at the minutes of NPAS, that they are now going to own the helicopter that's being transferred from Dyfed-Powys—a helicopter paid for by taxpayers in Dyfed-Powys being transferred to an England-and-Wales service and that has been sold by that service as it's not a helicopter of a type that they want to use. That is taking a benefit from Wales and sharing it out elsewhere. I want a statement from the Minister on any discussions that he's had. Was he given any warning that this was going to happen, for example? I want to ensure that we as politicians aren't kept in the dark and treated like fools, thinking that we are discussing the future of a service, when the decision, in reality, has already been taken.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Simon Thomas for that important question, which, of course, I will draw to the attention of the Minister for Public Services. It does display a lack of respect in terms of not only you as elected Members, but us as a Welsh Government, in terms of these decisions, and the outcome in terms of the lack of such an important service in your region. So, this is certainly a matter that I will be taking up and get a report back.

Diolchaf i Simon Thomas am y cwestiwn pwysig yna, a byddaf, wrth gwrs, yn tynnu sylw'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ato. Mae yn dangos diffyg parch nid yn unig atoch chi fel Aelodau etholedig, ond atom ni fel Llywodraeth Cymru, o ran y penderfyniadau hyn, a'r canlyniad o ran diffyg gwasanaeth mor bwysig yn eich rhanbarth. Felly, mae hwn yn fater y byddaf yn sicr yn ei godi ac yn cael adroddiad yn ôl arno.

14:22 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a number of my constituents have raised with me the recent cancer pathway pilot programme that the Welsh Government has been working on. The review conducted by the Government has been a two-stage process, as I understand it, and my constituents, who are either currently suffering from cancer or are recovering, are, obviously, anxious to know the results of the programme. I wonder if the Minister would make a statement outlining the timetable for moving forward with this report and publishing the two stages, and, if possible, whether we could have an interim statement regarding the results of the first stage of the process, which I understand has now been completed.

Weinidog, mae nifer o fy etholwyr wedi dwyn i'm sylw yn ddiweddar y rhaglen llwybr canser arbrofol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio arni. Mae'r adolygiad a gynhaliwyd gan y Llywodraeth wedi bod yn broses dau gam, fel yr wyf yn deall, ac mae fy etholwyr, sydd naill ai ar hyn o bryd yn dioddef o ganser neu yn gwella, yn amlwg yn awyddus i gael gwybod canlyniadau'r rhaglen. Tybed a fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad i amlinellu'r amserlen ar gyfer symud ymlaen â'r adroddiad hwn a chyhoeddi'r ddau gam, ac, os yn bosibl, pe byddai modd i ni gael datganiad dros dro ynghylch canlyniadau cam cyntaf y broses, yr wyf ar ddeall sydd bellach wedi'i gwblhau.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm certainly aware of the cancer pathway pilot, and I know that the Minister will want to report on progress in terms of that pilot in due course.

Rwyf yn sicr yn ymwybodol o'r rhaglen llwybr canser arbrofol, a gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i adrodd ar y cynnydd o ran y rhaglen arbrofol honno maes o law.

14:23 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I support the call for a statement by Simon Thomas with regard to the helicopter, a helicopter that I understand only this last weekend was instrumental in locating a civilian who had fallen into a river and was absolutely crucial in finding that individual?

A gaf i gefnogi'r alwad am ddatganiad gan Simon Thomas o ran yr hofrennydd, hofrennydd a oedd, yr wyf ar ddeall, yn allweddol mor ddiweddar â'r penwythnos diwethaf wrth ddod o hyd i ddinesydd a oedd wedi disgyn i mewn i afon ac roedd yr hofrennydd yn gwbl hanfodol er mwyn dod o hyd i'r unigolyn hwnnw?

Quite rightly, Minister, a great deal of Government time—questions—is being taken up with regard to the steel industry, and that is only right, given the very difficult situation the steel industry finds itself in. But, Minister, you will be aware that, last month, the announcement was made of the mothballing of the Selar pit. Although sometimes opencast mining, and mining in general, has, perhaps, not a great reputation, there are still approximately 800 Welsh jobs associated with the industry. Just like steel, they're seeing a huge amount of cheap imports coming into the country. The percentage of imported coal being used in the UK is higher than it was in the early 2000s, despite the fact that, overall, coal usage is declining. Would the Minister find time for a statement on coaling and what can be done to try and support the jobs that exist in that industry, because they very much feel, like their colleagues in steel, very much under pressure?

Yn gwbl briodol, Weinidog, mae llawer iawn o amser y Llywodraeth—cwestiynau—yn cael ei ddefnyddio ynglŷn â'r diwydiant dur, ac felly y dylai fod, o gofio'r sefyllfa anodd iawn y mae'r diwydiant dur yn canfod ei hun ynddi bellach. Ond, Weinidog, byddwch yn ymwybodol, fis diwethaf, y gwnaethpwyd cyhoeddiad ynglŷn â chau pwll Selar dros dro. Er nad oes gan gloddio glo brig weithiau, a mwyngloddio yn gyffredinol, efallai, enw da, mae oddeutu 800 o swyddi yng Nghymru o hyd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant. Yn union fel dur, maent yn gweld llawer iawn o fewnforion rhad yn dod i mewn i'r wlad. Mae'r ganran o lo a fewnforiwyd sy'n cael ei ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig yn uwch nag yr oedd yn y 2000au cynnar, er gwaethaf y ffaith bod, ar y cyfan, y defnydd o lo yn gostwng. A wnaiff y Gweinidog ddod o hyd i amser i wneud datganiad ar godi glo a beth y gellir ei wneud i geisio cefnogi'r swyddi sy'n bodoli yn y diwydiant hwnnw, gan eu bod nhw'n teimlo yn bendant iawn, fel eu cydweithwyr yn y diwydiant dur, o dan bwysau mawr?

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for adding her concerns and support about the future prospects in terms of the helicopter service in terms of Dyfed-Powys Police. Of course, opencast mining has been raised this afternoon, albeit in the context of the Aberthaw power station. Indeed, of course, issues relating to opencast have been raised, and indeed the Minister for Natural Resources has been engaged in discussions as far as that sector of the industry is concerned, and certainly it is important to raise that point again this afternoon in the context today, of course, there is a particular focus on the steel industry, with a statement tomorrow, of course, by the Minister.

Diolchaf i Kirsty Williams am ychwanegu ei phryderon a'i chefnogaeth ynghylch rhagolygon y dyfodol o ran gwasanaeth hofrennydd Heddlu Dyfed Powys. Mae cloddio glo brig, wrth gwrs, wedi ei godi y prynhawn yma, er mai yng nghyd-destun yr orsaf bŵer yn Aberddawan oedd hynny. Yn wir, wrth gwrs, codwyd materion sy'n ymwneud â glo brig, ac yn wir, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi bod yn cynnal trafodaethau cyn belled ag y mae'r sector hwnnw o'r diwydiant yn y cwestiwn, ac mae'n sicr yn bwysig codi'r pwynt hwnnw unwaith eto y prynhawn yma yng nghyd-destun heddiw, wrth gwrs, y bydd pwyslais arbennig ar y diwydiant dur, ac y bydd datganiad yfory, wrth gwrs, gan y Gweinidog.

14:25 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae diffyg athrawon yn Lloegr yn fater sy'n denu tipyn o sylw ar hyn o bryd. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â HEFCW ynglŷn â nifer yr athrawon sydd ei angen trwy'r 'teacher planning and supply model'. Mae nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n cael eu hyfforddi wedi gostwng 30 y cant rhwng 2004-05 a 2012-13. Felly, a gaf i ofyn am ddatganiad i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a HEFCW yn gwneud pob peth yn eu gallu i sicrhau nad oes prinder athrawon yng Nghymru, wrth gofio, wrth gwrs, bod yna gynnydd o ryw 20 y cant yn y plant sydd o fewn ein hysgolion ar hyn o bryd?

Minister, the shortage of teachers in England is a matter that's attracting quite a bit of attention at present. In Wales, the Welsh Government agrees with the Higher Education Funding Council for Wales regarding the number of teachers required through the teacher and planning supply model. The number of teachers in Wales that are being trained has dropped 30 per cent between 2004-05 and 2012-13. So, may I ask for a statement to ensure that Welsh Government and HEFCW are doing everything within their ability to ensure that there won't be a shortage of teachers in Wales, bearing in mind there's an increase of approximately 20 per cent in the number of children in our schools at present?

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, and I think we should respect our workforce planning arrangements here in Wales, which, of course, clearly are based on the needs in terms of our child population and pupil need, but also the fact that we are working strategically with HEFCW, and of course that is an important point for the Minister to take on board.

Yn sicr, ac rwyf yn credu y dylem barchu ein trefniadau cynllunio ar gyfer y gweithlu yma yng Nghymru, sydd, wrth gwrs, yn amlwg yn seiliedig ar yr angen o ran anghenion ein plant a'n disgyblion, ond hefyd y ffaith ein bod ni yn gweithio'n strategol gyda'r CCAUC, ac wrth gwrs mae hynny'n bwynt pwysig i'r Gweinidog ei ystyried.

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:27

## 3. Trefn Trafod Gwelliannau'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

## 3. Order of Consideration of Amendments for the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is the order of consideration of amendments to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef y drefn ystyried gwelliannau i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5866 Jane Hutt

Motion NDM5866 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) Adran 2

b) Atodlen 1

c) Adrannau 3-63

d) Adran 1

e) Adran 66

f) Atodlen 2

g) Adrannau 67-174

h) Adrannau 64-65

i) Adrannau 175-184

j) Atodlen 3

k) Adrannau 185-189

l) Teitl Hir.

a) Section 2

b) Schedule 1

c) Sections 3-63

d) Section 1

e) Section 66

f) Schedule 2

g) Sections 67-174

h) Sections 64-65

i) Sections 175-184

j) Schedule 3

k) Sections 185-189

l) Long Title.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:27

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Move formally, Chair.

Cynigwch yn ffurfiol, Gadeirydd.

14:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have no speakers, therefore I assume you don't wish to reply. So, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr, felly rwyf yn cymryd yn ganiataol nad ydych yn dymuno ymateb. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Mae'r cynnig wedi ei dderbyn felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# 5. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

*Mae gwelliannau a nodir ag [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.*

# 5. Stage 3 Debate on the Renting Homes (Wales) Bill

*Amendments marked [R] mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.*

14:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the next item, which is Stage 3 of the Renting Homes (Wales) Bill.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru).

### Grŵp 1: Deiliaid Contract 16 a 17 Oed (Gwelliannau 82, 103, 114, 128, 129, 130, 131 a 145)

### Group 1: Contract Holders Aged 16 and 17 (Amendments 82, 103, 114, 128, 129, 130, 131 and 145)

14:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Group 1 concerns contract holders aged 16 and 17. The first group of amendments relates to contract holders—sorry. The lead amendment in the group, sorry, is amendment 82. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and other amendments in that group. Minister.

Mae grŵp 1 yn ymwneud â deiliaid contractau 16 a 17 oed. Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â deiliaid contract—mae'n ddrwg gennyf. Y prif welliant yn y grŵp, mae'n ddrwg gennyf, yw gwelliant 82. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwnnw a siarad amdanynt. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 82 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 82 (Lesley Griffiths) moved.*

14:28

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Presiding Officer. During consideration in committee, Members expressed significant concerns regarding the provision in the bill for 16 and 17-year-olds to be able to hold occupation contracts. Whilst I always saw this as positive and enabling provision, I recognise Members' concerns that this age group would generally be more vulnerable. I have therefore decided, after careful consideration, to bring forward amendments that limit the applicability of the Bill to those aged 18 and over, and I ask Members to support these amendments.

Diolch i chi, Lywydd. Yn ystod y drafodaeth yn y pwyllgor, mynegodd yr Aelodau bryderon sylweddol ynghylch y ddarpariaeth yn y bil ar gyfer rhai sy'n 16 a 17 oed i allu dal contractau meddiannaeth. Er fy mod bob amser wedi gweld hon fel darpariaeth gadarnhaol a galluogol, rwy'n cydnabod pryderon yr Aelodau y byddai'r grŵp oedran hwn yn gyffredinol yn fwy agored i niwed. Felly, rwyf wedi penderfynu, ar ôl ystyried yn ofalus, cyflwyno gwelliannau sy'n cyfyngu cymhwysedd y Bil i'r rhai sy'n 18 oed a hŷn, a gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

14:28 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you, Minister, for bringing this group of amendments. The provisions originally included in the Bill would have given 16 and 17-year-olds the right to enter into occupation contracts, and they were of great concern to me and, I have to say, to the whole committee.

Diolch ichi, Weinidog, am gyflwyno'r grŵp hwn o welliannau. Byddai'r darpariaethau a gynhwysir yn wreiddiol yn y Bil wedi rhoi yr hawl i rai 16 a 17 oed i gytuno contractau meddiannaeth, ac roeddent yn destun pryder mawr i mi ac, mae'n rhaid imi ddweud, i'r pwyllgor cyfan.

Some Members will be aware that I tabled a number of amendments at Stage 2 to restrict those provisions to the social rented sector and to ensure that any 16 or 17-year-old seeking to enter into an occupation contract was given support and information about the other options available to them. During the committee's initial scrutiny of the Bill, we heard mixed evidence on the effect the original provisions would have, and it seemed that there was a potential for unforeseen consequences of making such a change to contract law. Questions were asked about the difficulty of 16 and 17-year-olds having contracts with utility providers, for example. Now, I have questioned whether granting 16 and 17-year-olds the right to become occupation contract holders is in their best interests. A 16 or 17-year-old seeking to live independently may well need additional support, and I was concerned that their ability to enter into a private occupation contract could be used by local authorities to escape their duties to this group. It was unclear what problem the original provisions aimed to solve. A young person under the age of 18 can have the tenancy held in trust by a local authority or a housing association, and this gives them the opportunity to have a home of their own without the risks of entering into a full legal contract. I understand that the occupation contracts for 16 and 17-year-olds was a proposal by the Law Commission in their 'Renting Homes' report, but after hearing the evidence, and thinking through the potential consequences, removing these provisions from the Bill entirely is clearly the way to go, and I'm pleased that the Minister has chosen to rethink her position. Therefore, I will be supporting the Government amendments.

Bydd rhai Aelodau yn ymwybodol fy mod wedi cyflwyno nifer o welliannau yng Nghyfnod 2 i gyfyngu ar y darpariaethau hynny i'r sector rhentu cymdeithasol ac i sicrhau bod unrhyw rai sy'n 16 neu 17 oed sy'n ceisio cytuno ar gontract meddiannaeth yn cael cefnogaeth, a gwybodaeth am y dewisiadau eraill sydd ar gael iddynt. Yn ystod gwaith craffu cychwynnol y pwyllgor ar y Bil, clywsom dystiolaeth gymysg ar yr effaith y byddai'r darpariaethau gwreiddiol yn ei chael, ac roedd yn ymddangos bod potensial ar gyfer canlyniadau annisgwyl o wneud newid o'r fath i gyfraith contract. Gofynnwyd cwestiynau am yr anhawster o fod â chontractau gyda darparwyr cyfleustodau o ran rhai sy'n 16 a 17 oed, er enghraifft. Nawr, rwyf wedi cwestiynu a yw rhoi'r hawl i rai 16 a 17 mlwydd oed i ddod yn ddeiliaid contract meddiannaeth er eu budd gorau. Gall rhywun 16 neu 17 oed sy'n ceisio byw'n annibynnol fod angen cymorth ychwanegol, ac roeddwn yn pryderu y gallai eu gallu i ymrwymo i gontract meddiannaeth breifat gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i ddianc rhag eu dyletswyddau i'r grŵp hwn. Nid oedd yn glir pa broblem yr oedd y darpariaethau gwreiddiol â'r nod o'u datrys. Gall person ifanc o dan 18 oed gael tenantiaeth wedi'i dal mewn ymddiriedolaeth gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai, ac mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gael cartref eu hunain heb y risg o ymrwymo i gontract cyfreithiol llawn. Rwy'n deall mai cynnig gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad 'Rhentu Cartrefi' oedd contractau meddiannaeth ar gyfer rhai 16 a 17 oed, ond ar ôl clywed y dystiolaeth, ac ystyried y canlyniadau posibl, dileu'r darpariaethau hyn o'r Bil yn gyfan gwbl yn amlwg yw'r ffordd ymlaen, ac rwy'n falch bod y Gweinidog wedi dewis ailfeddwl ei safbwynt. Felly, byddaf yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank Jocelyn Davies for those comments. I did decide that the risks may outweigh the benefits, so that was the reason for bringing the amendments forward.

Hoffwn ddiolch i Jocelyn Davies am y sylwadau yna. Fe wnes i benderfynu efallai bod y risgiau yn fwy na'r manteision, felly dyna oedd y rheswm dros gyflwyno'r gwelliannau.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 82 be agreed. Does any Member object? No objections. Therefore amendment 82 is agreed.

Y cwestiwn yw bod cytuno ar gwelliant 82. A oes gwrthwynebiad? A yw unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Felly mae gwelliant 82 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 82 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 82 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 2: Datrys Anghydfodau (Gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 49, 50, 52, 54, 74, 208, 76, 77, 78 a 212)

## Group 2: Resolution of Disputes (Amendments 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 49, 50, 52, 54, 74, 208, 76, 77, 78 and 212)

14:31

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to resolutions of disputes. The lead amendment in this group is amendment 1. I call on Peter Black to speak to the lead amendment and other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â datrys anghydfodau. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1. Galwaf ar Peter Black i siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 1 (Peter Black [R]).*

*Amendment 1 (Peter Black [R]) moved.*

14:31

### Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Can I start by declaring that I'm a member of the City and County of Swansea Council? Although this doesn't relate specifically to local councils, local councils will be involved in administering and enforcing this Bill when it becomes law. Therefore, I think it's right that I should declare that interest at the start.

Diolch i chi, Lywydd. A gaf i ddechrau drwy ddatgan fy mod yn aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe? Er nad yw hyn yn ymwneud yn benodol â chynghorau lleol, bydd cynghorau lleol yn cymryd rhan mewn gweinyddu a gorfodi'r Bil hwn pan fydd yn dod yn gyfraith. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn briodol y dylwn ddatgan y buddiant hwnnw ar y dechrau.

This amendment and, in fact, the whole group of amendments, relate to recommendation 36 of the committee's report, which says that the Minister should amend the Bill to make provision for adjudication over disputes in relation to rent increases, fitness for human habitation issues, succession rights, failure to supply a contract and alternative dispute resolution mediation services, and suggests that the most effective way to do this would be to expand the current role of the Residential Property Tribunal Wales. I think that it was fairly clear in the evidence given to the committee that the over-reliance of this Bill on the courts to resolve disputes is not just going to be difficult for a number of tenants to access, but is also going to be expensive. And, given the fact that legal aid is effectively going, or not available, given the cost of taking these disputes to court, and given that many tenants will be daunted by that prospect, I believe that there is a built-in bias towards the landlord in terms of resolving these sorts of disputes in this Bill. I feel, and I think others do too, that the Residential Property Tribunal offers an opportunity, in an expanded role, to take over much of that work, meaning that, in many cases, the tenant would not need legal representation; they would not incur the same sort of costs; they would be bringing their dispute forward in a more informal setting, and, also, would have a situation where that tribunal would act effectively as a housing court for Wales, setting the trend, if you like, for the rest of the UK. I think, given the wording of the Wales Bill, this is, most probably, our last chance to do anything with tribunals unless that Bill is amended.

Mae'r gwelliant hwn ac, yn wir, y grŵp cyfan o welliannau, yn ymwneud ag argymhelliad 36 o adroddiad y pwyllgor, sy'n dweud y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau yn ymwneud â chodiadau rhent, materion addasrwydd eiddo i bobl fyw ynddo, hawliau olyniaeth, methiant i ddarparu contract a gwasanaethau cyfryngu amgen ar gyfer datrys anghydfod, ac mae'n awgrymu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn fyddai ehangu swyddogaeth bresennol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Rwy'n meddwl ei bod yn weddol glir yn y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor bod gorddibyniaeth y Bil hwn ar y llysoedd i ddatrys anghydfodau nid yn unig yn mynd i fod yn anodd i nifer o denantiaid o ran gallu ei ddefnyddio, ond mae hefyd yn mynd i fod yn ddrud. Ac, o ystyried y ffaith bod cymorth cyfreithiol i bob pwrpas yn mynd, neu nad yw ar gael, o ystyried y gost o fynd â'r anghydfodau hyn i'r llys, ac o ystyried y bydd llawer o denantiaid yn cael eu digalonni gan y syniad, credaf fod gogwydd annatod tuag at y landlord o ran datrys y mathau hyn o anghydfodau yn y Bil hwn. Rwy'n teimlo, ac rwy'n credu bod eraill yn teimlo hefyd, bod y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn cynnig cyfle, mewn swyddogaeth estynedig, i gymryd drosodd llawer o'r gwaith hwnnw, sy'n golygu, na fyddai'n rhaid i'r tenant mewn llawer o achosion gael cynrychiolaeth gyfreithiol; na fyddai'n mynd i'r un math o gostau; byddai'n dod â'r anghydfod ymlaen mewn lleoliad mwy anffurfiol, ac, hefyd, byddai mewn sefyllfa lle y byddai'r tribiwnlys hwnnw yn gweithredu mewn gwirionedd fel llys tai ar gyfer Cymru, gan osod tuedd, os mynnwch, ar gyfer gweddill y DU. Rwy'n credu, o gofio geiriad Bil Cymru, mai hwn, yn ôl pob tebyg, yw ein cyfle olaf i wneud unrhyw beth gyda thribiwnlysoedd oni bai bod y Bil yn cael ei ddiwygio.

I'm aware that the Minister believes this will cost money to set up. I don't think it's going to cost a huge amount of money, and I think it is really a matter of training and recruitment. Of course, that can be done before these particular clauses are commenced. I do think this would be an important reform in terms of housing law, and counter the trend that is in this Bill of actually taking things into court that weren't there before, giving tenants that additional security of having a tribunal to which they can take disputes. Therefore, I hope that the Plenary will be willing to consider this and accept these amendments as an important reform in housing law, setting up a housing court for Wales, in a tribunal form, without having to subject tenants to the sort of costs and tensions of going to a court of law, which, unfortunately, this Bill seems to rely on.

Rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog yn credu y bydd hyn yn costio arian i'w sefydlu. Nid wyf yn credu ei fod yn mynd i gostio llawer iawn o arian, ac rwy'n credu mai mater o hyfforddiant a recriwtio ydyw mewn gwirionedd. Wrth gwrs, gellir gwneud hynny cyn i'r cymalau penodol hyn gael eu cychwyn. Rwyf yn credu y byddai hwn yn ddiwygiad pwysig o ran cyfraith tai, ac yn atal y duedd sydd yn y Bil hwn o fynd â phethau i mewn i'r llys nad oedd yno o'r blaen, gan roi'r diogelwch ychwanegol i denantiaid o gael tribiwnlys lle y gallant fynd ag anghydfodau. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Cyfarfod Llawn yn fodlon ystyried hyn a derbyn y gwelliannau hyn fel diwygiad pwysig mewn cyfraith tai, gan sefydlu llys tai i Gymru, ar ffurf tribiwnlys, heb wneud tenantiaid yn agored i'r math o gostau a thensiynau o fynd i lys barn, y mae'r Bil hwn, yn anffodus, yn ymddangos i ddibynnu arnynt.

14:34

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will start by declaring that I'm a tenant of a flat in Cardiff. I otherwise have no relevant interests. Amendments 208 and 212 are also linked, I believe, with Peter Black's amendment 74, and seek to set out a section on alternative dispute resolution. These amendments follow the model in Scotland, the Scottish model, providing a right of recourse to rent and disrepair matters. These amendments put an obligation on the Minister to appoint a body to carry out these functions and it will be by affirmative procedure. The Public Services Ombudsman for Wales does have power to investigate complaints against local authority landlords and social landlords, but not private landlords, whereas this amendment would apply to all landlords. As Citizens Advice Cymru have said, in the absence of major revisions to the Bill to provide alternative methods to resolve issues, such as support on enforcement action from local authorities, or an increased role for the Residential Property Tribunal, the Bill only provides one option to exercise the right it creates to go to court. This will be extremely difficult, they say, for both tenants and landlords alike, without professional support and funding. They say:

Dechreuaf drwy ddatgan fy mod yn denant fflat yng Nghaerdydd. Nid oes gennyf unrhyw fuddiannau perthnasol fel arall. Mae gwelliannau 208 a 212 hefyd yn gysylltiedig, rwy'n credu, â gwelliant 74 Peter Black, ac yn ceisio nodi adran ar ddatrys anghydfod amgen. Mae'r gwelliannau hyn yn dilyn y model yn yr Alban, model yr Alban, gan ddarparu hawl ddigolledu o ran materion rhentu a chyflwr gwael. Mae'r gwelliannau hyn yn gosod rhwymedigaeth ar y Gweinidog i benodi corff i gyflawni'r swyddogaethau hyn a bydd hynny drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y pŵer i ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol, ond nid landlordiaid preifat, tra byddai'r gwelliant hwn yn berthnasol i bob landlord. Fel y mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi'i ddweud, yn absenoldeb diwygiadau mawr i'r Bil i ddarparu dulliau amgen i ddatrys problemau, megis cymorth ar y camau gorfodi gan awdurdodau lleol, neu swyddogaeth ehangach i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, un dewis yn unig y mae'r Bil yn ei ddarparu i arfer yr hawl y mae'n ei greu i fynd i'r llys. Bydd hyn yn eithriadol o anodd, meddai nhw, ar gyfer tenantiaid a landlordiaid fel ei gilydd, heb gymorth proffesiynol a chyllid. Maent yn dweud:

'We want to see alternatives that enable easy access to low cost mediation or adjudication'.

Rydym eisiau gweld dewisiadau eraill sy'n galluogi mynediad hawdd at gyfryngu neu ddyfarniad cost isel.

They call for this Assembly to seek commitments from the Minister during this debate to ensure alternatives to the courts are developed and resourced as part of implementation, ensuring easy access to low-cost mediation or adjudication.

Maent yn galw am i'r Cynulliad hwn chwilio am ymrwymiadau gan y Gweinidog yn ystod y ddadl hon er mwyn sicrhau bod dewisiadau eraill yn y llysoedd yn cael eu datblygu ac yn cael adnoddau yn rhan o'r gweithredu, gan sicrhau mynediad hawdd i gyfryngu neu ddyfarniad cost-isel.

For these reasons, we will also be supporting Peter Black's amendments 1 to 28, 35 to 54, and 74, changing 'county court' to 'tribunal' in those sections, to ensure fairness, and to allow tenants who can't access court, or fear accessing court, a chance to have their case heard by another trusted authority. We must heed the Let Down in Wales campaign, supported by Tai Pawb, Shelter Cymru, and Welsh Tenants, who say that a private tenants tribunal, or an expansion of the Residential Property Tribunal, would encourage and promote mediation between landlords and tenants. It needs to provide a safe, free route for tenants to settle disputes with bad landlords. The renting homes Bill originally proposed to make the Residential Property Tribunal smaller in scope, but with legal aid being reduced and the courts only open to those who can afford it, it's more important than ever that tenants have a safe place to tackle landlords. Frankly, without this, tenants will remain exposed, and the fundamental objective of this Bill will fail to be delivered.

Am y rhesymau hyn, byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau 1 i 28, 35 i 54, a 74 Peter Black sy'n newid 'llys sirol' i 'tribiwnlys' yn yr adrannau hynny, er mwyn sicrhau tegwch, ac i roi'r cyfle i denantiaid na allant fynd i'r llys, neu sy'n ofni mynd i'r llys, i gael eu hachos wedi'i glywed gan awdurdod arall yr ymddiriedir ynddo. Mae'n rhaid i ni wrando ar yr ymgyrch Let Down in Wales, a gefnogir gan Tai Pawb, Shelter Cymru, a Thenantiaid Cymru, sy'n dweud y byddai tribiwnlys tenantiaid preifat, neu ymestyn y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, yn annog ac yn hyrwyddo cyfryngu rhwng landlordiaid a thenantiaid. Mae angen iddo ddarparu, llwybr diogel, rhad i denantiaid ddatrys anghydfodau gyda landlordiaid drwg. Roedd y Bil rhentu cartrefi yn cynnig yn wreiddiol i wneud y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn llai o ran cwmpas, ond gan fod cymorth cyfreithiol yn cael ei leihau a'r llysoedd ar agor dim ond i'r rhai sy'n gallu eu fforddio, mae'n bwysicach nag erioed fod tenantiaid yn cael lle diogel i fynd i'r afael â landlordiaid. A dweud y gwir, heb hyn, bydd tenantiaid yn parhau i fod yn agored, a bydd amcan sylfaenol y Bil hwn yn methu â chael ei ddarparu.

14:37 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I've some sympathy with Peter Black's intentions, in bringing these amendments, to expand the current role of the Residential Property Tribunal in Wales. However, with the costs increasing, and the capacity of the tribunal remaining unknown, I don't feel able to vote in favour of the amendments, so we will be abstaining on this group today.

Mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â bwriadau Peter Black, wrth gyflwyno'r gwelliannau hyn, i ehangu swyddogaeth bresennol y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru. Fodd bynnag, gyda chostau cynyddol, a gallu'r tribiwnlys yn dal yn anhysbys, nid wyf yn teimlo y gallaf bleidleisio o blaid y gwelliannau, felly byddwn yn ymatal ar y grŵp hwn heddiw.

I think the danger is that we might be trying to reinvent the courts under a different name. Many of the problems that exist in the current courts system, like the lack of affordable access to legal assistance for many people, would still exist, were the property tribunal to take the courts' place. We wouldn't like to see the tribunal ending up like the courts, and there certainly will be hearings with barristers. It was certainly my experience, when I acted as a McKenzie friend to parents at the Special Educational Needs Tribunal for Wales, against local authorities, that they would turn up with solicitors and specialist education barristers. I think tribunals are not as informal as we would like to imagine.

Rwy'n meddwl mai'r perygl yw y gallem fod yn ceisio ailddyfeisio'r llysoedd dan enw gwahanol. Byddai llawer o'r problemau sy'n bodoli yn y system llysoedd ar hyn o bryd, fel y diffyg mynediad fforddiadwy at gymorth cyfreithiol i lawer o bobl, yn dal i fodoli, pe byddai'r tribiwnlys eiddo yn cymryd lle'r llysoedd. Ni fyddem yn hoffi gweld y tribiwnlys yn diweddu fel y llysoedd, ac yn sicr fe fydd gwrandawiadau gyda bargyfreithwyr. Dyna yn sicr oedd fy mhrofiad i, pan oeddwn yn gweithredu fel cyfaill McKenzie i rieni yn Nhribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, yn erbyn awdurdodau lleol, y byddent yn dod yno gyda chyfreithwyr a bargyfreithwyr addysg arbenigol. Rwy'n credu nad yw tribiwnlysoedd mor anffurfiol ag y byddem yn hoffi ei ddychmygu.

There is a need, though, as Peter mentioned, to reform the courts, to work better for housing cases, and perhaps the introduction of a specialist housing day in each court would be an improvement. I certainly think there is need to revisit this particular aspect in the future, if people are not getting justice. I think, perhaps, the greater issue, of course, is the Government's willingness to pass legislation that will lead to disputes. Surely, it is our role, as legislators, to pass law that is as comprehensive as possible. So, my first reaction is to try to prevent legal cases, by having good laws. And, as I say, even though there is merit in Peter's arguments, I don't think it is the solution that we should opt for at this moment.

Mae angen, fodd bynnag, fel y crybwyllodd Peter, diwygio'r llysoedd, er mwyn gweithio'n well ar gyfer achosion tai, ac efallai y byddai cyflwyno diwrnod tai arbenigol ym mhob llys yn gwella pethau. Rwy'n sicr yn credu bod angen ailedrych ar yr agwedd benodol hon yn y dyfodol, os nad yw pobl yn cael cyfiawnder. Rwy'n meddwl, efallai, mai'r mater mwyaf, wrth gwrs, yw parodrwydd y Llywodraeth i basio deddfwriaeth a fydd yn arwain at anghydfodau. Yn sicr, ein swyddogaeth ni fel deddfwyr, yw pasio cyfraith sydd mor gynhwysfawr ag y bo modd. Felly, fy ymateb cyntaf yw ceisio atal achosion cyfreithiol, drwy gael deddfau da. Ac, fel y dywedais, er bod rhinwedd yn nadleuon Pedr, nid wyf yn credu mai dyna'r ateb y dylem ei ddewis ar hyn o bryd.

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I apologise—I should have declared I am a tenant in Cardiff also.

Ymddiheuraf—dylwn fod wedi datgan fy mod yn denant yng Nghaerdydd hefyd.

I do fully understand the intention behind Peter Black's amendments, which seek to transfer the responsibility for adjudicating disputes from the court to the Residential Property Tribunal Wales. However, I do remain concerned. There would be difficulties due to capacity constraints, and very significant resources would be needed to overcome them. We don't know what the additional costs would be—they're undefined, and they're uncosted. So, I can't support the amendments.

Rwyf yn deall yn llwyr y bwriad y tu ôl i welliannau Peter Black, sy'n ceisio trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddyfarnu anghydfodau o'r llys i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Fodd bynnag, rwy'n dal yn bryderus. Byddai anawsterau oherwydd cyfyngiadau gallu, a byddai angen adnoddau sylweddol iawn i'w goresgyn. Nid ydym yn gwybod beth fyddai'r costau ychwanegol—nid ydynt wedi'u diffinio, ac maen nhw heb eu costio. Felly, ni allaf gefnogi'r gwelliannau.

But I would like to say at the onset that this Bill is about simplifying housing law, which is very complex at the current time. So, I would hope that there would be fewer disputes going to court as a result of the Bill. I would also like to Members' attention a working group recently established by the Civil Justice Council. The council is an advisory public body with responsibility for overseeing and co-ordinating the modernisation of the civil justice system. The group is tasked with considering the allocation of disputes and the deployment of judges between the county court and tribunals and it aims to enhance access to justice and to improve efficiency in the resolution of landlord and tenant disputes. I strongly support this group's objectives and my officials have already spoken to the chair to ensure that Wales's interests are taken into account, and a meeting is being arranged. I do believe that the group's findings and recommendations could have very far-reaching consequences. Therefore, I would not wish to pre-empt its findings by accepting Peter's amendments today. But I think it does address the concerns that were raised by Mark Isherwood and by Citizens Advice also.

Ond hoffwn ddweud ar y dechrau bod y Bil hwn yn ymwneud â symleiddio cyfraith tai, sydd yn gymhleth iawn ar hyn o bryd. Felly, byddwn yn gobeithio y byddai llai o anghydfodau yn mynd i'r llys o ganlyniad i'r Bil. Hoffwn hefyd dynnu sylw'r Aelodau at weithgor a sefydlwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Cyfiawnder Sifil. Mae'r cyngor yn gorff cyhoeddus ymgynghorol sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r broses o foderneiddio'r system cyfiawnder sifil. Gosodwyd y dasg i'r grŵp o ystyried dyrannu anghydfodau a defnyddio barnwyr rhwng y llys a'r tribiwnlysoedd sirol a'i nod yw gwella mynediad at gyfiawnder a gwella effeithlonrwydd mewn datrys anghydfodau rhwng landlord a thenant. Rwy'n cefnogi amcanion y grŵp hwn yn gryf ac mae fy swyddogion eisoes wedi siarad â'r cadeirydd i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried, ac mae cyfarfod yn cael ei drefnu. Rwy'n credu y gallai canfyddiadau ac argymhellion y grŵp arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol iawn. Felly, ni fyddwn yn dymuno achub y blaen ar ei ganfyddiadau trwy dderbyn gwelliannau Peter heddiw. Ond rwy'n credu bod hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan Mark Isherwood a gan Gyngor ar Bopeth hefyd.

Other amendments in the group from Peter Black and Mark Isherwood are seeking to alter the compensation arrangements when the landlord does not provide certain information to the contract holder such as a contact address. I do not consider the alternative arrangements proposed, with compensation being set by the tribunal, to be practical or desirable. The compensation arrangements that are set out in the Bill mean that landlords will be very clear on the potential consequences of failing to provide the required information. Peter Black has also proposed the word 'equitable' should be deleted in section 100. I believe the current wording should be retained. It was the wording proposed by the Law Commission and it reflects the fact that rules limiting specific performance arise in equity. I don't believe we should depart from the Law Commission's recommendations.

Mae gwelliannau eraill yn y grŵp gan Peter Black a Mark Isherwood yn ceisio newid y trefniadau iawndal pan nad yw'r landlord yn rhoi gwybodaeth benodol i'r deiliad contract megis cyfeiriad cyswllt. Nid wyf yn ystyried bod y trefniadau amgen a gynigiwyd, gydag iawndal yn cael ei osod gan y tribiwnlys, yn ymarferol nac yn ddymunol. Mae'r trefniadau iawndal a nodir yn y Bil yn golygu y bydd landlordiaid yn glir iawn ar y canlyniadau posibl o fethu â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen. Mae Peter Black hefyd wedi cynnig y dylai'r gair 'teg' gael ei ddileu yn adran 100. Rwyf i'n credu y dylai'r geiriad presennol gael ei gadw. Dyma'r geiriad a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod rheolau yn cyfyngu perfformiad penodol yn codi mewn ecwiti. Nid wyf yn credu y dylem wyro oddi wrth argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Peter Black's amendments 52 and 54 would enable a contract holder to refer any variation of rent to the tribunal for determination of whether or not it is fair. Bearing in mind only a relatively small number of such cases are currently considered by the tribunal and, in around half of those considered in recent years, the tribunal either agreed the rent sought by the landlord or actually set a higher rent, these amendments could result in vexatious claims in respect of reasonable increases, which, again, would significantly increase the tribunal's workloads. I think the amendments would also significantly change the current arrangement whereby the tribunal can also consider a rent increase for an assured tenancy if the contract does not contain a rent increase mechanism. Since, apart from fixed-term contracts, where the rent cannot be varied, occupation contracts under the Bill include arrangements to vary the rent, the contracts would then be outside the tribunal's current remit. The proposed amendments also apply to all contracts, irrespective of whether the landlord is a private landlord or a community landlord. Again, that would add significantly to the current workload of the tribunal.

Byddai gwelliannau 52 a 54 Peter Black yn galluogi deiliad contract i gyfeirio unrhyw amrywiad o rent i'r tribiwnlys ar gyfer penderfynu a yw'n deg. O gofio mai dim ond nifer cymharol fach o achosion o'r fath sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y tribiwnlys ac, mewn tua hanner y rhai a ystyriwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cytunodd y tribiwnlys â'r rhent a geisiwyd gan y landlord neu fe osododd rhent uwch mewn gwirionedd, gallai'r gwelliannau hyn olygu hawliadau blinderus o ran cynnydd rhesymol, a fyddai, unwaith eto, yn cynyddu llwyth gwaith y tribiwnlys yn sylweddol. Rwy'n credu y byddai'r gwelliannau hefyd yn newid y trefniant presennol yn sylweddol lle gall y tribiwnlys hefyd ystyried cynnydd yn y rhent ar gyfer tenantiaeth sicr os nad yw'r contract yn cynnwys mecanwaith codiad rhent. Gan, ar wahân i gontractau tymor penodol, lle na cheir amrywio'r rhent, fod contractau meddiannaeth dan y Bil yn cynnwys trefniadau i amrywio'r rhent, byddai'r contractau wedyn y tu allan i gylch gwaith presennol y tribiwnlys. Mae'r gwelliannau arfaethedig hefyd yn berthnasol i bob contract, heb ystyried a yw'r landlord yn landlord preifat neu'n landlord cymunedol. Unwaith eto, byddai hynny'n ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith presennol y tribiwnlys.

Amendment 74 from Peter Black and amendment 208 from Mark Isherwood refer to the alternative dispute resolution. While I agree that alternative dispute resolution should be encouraged, I do not believe it would be right to require all disputes to be treated in this way. So, for example, Peter's amendment would mean the resolution would have to be undertaken by the landlord before seeking possession in cases of serious anti-social behaviour or serious rent arrears. So, this would unduly delay the landlord in being able to address such problems. I understand, again, that alternative dispute resolutions are going to be examined by the Civil Justice Council's working group, so I look forward to the recommendations they bring forward in this regard. So, for now, where the parties are willing, the Bill enables alternative dispute resolutions to be addressed through an additional term in the occupation contract.

Mae gwelliant 74 gan Peter Black a gwelliant 208 gan Mark Isherwood yn cyfeirio at y dull amgen o ddatrys anghydfod. Er fy mod yn cytuno y dylai datrys anghydfod amgen gael ei annog, nid wyf yn credu y byddai'n iawn i fynnu bod pob anghydfod yn cael ei drin fel hyn. Felly, er enghraifft, byddai gwelliant Peter yn golygu y byddai'n rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud gan y landlord cyn ceisio meddiannu mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol neu ôl-ddyledion rhent difrifol. Felly, byddai hyn yn oedi'r landlord yn ormodol o ran gallu mynd i'r afael â phroblemau o'r fath. Rwyf ar ddeall, unwaith eto, bod datrysiadau amgen ar gyfer anghydfodau yn mynd i gael eu harchwilio gan weithgor y Cyngor Cyfiawnder Sifil, felly edrychaf ymlaen at yr argymhellion y bydd yn eu cyflwyno yn hyn o beth. Felly, am y tro, pan fo'r partïon yn fodlon, mae'r Bil yn galluogi datrysiadau amgen ar gyfer anghydfodau i gael sylw drwy amod ychwanegol yn y contract meddiannaeth.

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply to the debate. [Interruption.] I'm sorry —

Peter Black i ymateb i'r ddadl. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gen i—

14:43

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I raise a point of order?

A gaf i godi pwynt o drefn?

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you can do.

Wel, gallwch wneud hynny.

14:43

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's in relation to declarations of interest.

Mae'n ymwneud â datganiadau o fuddiant.

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm coming to that in a minute. Don't worry about it. We'll give you the opportunity. Peter Black.

Rwy'n dod at hynny mewn munud. Peidiwch â phoeni am y peth. Byddwn yn rhoi'r cyfle i chi. Peter Black.

14:44 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm intrigued by the Minister's argument that because a proposal goes against a recommendation of the Law Commission, therefore we cannot accept it, given that she herself has already abandoned some Law Commission recommendations in the last group. I think that the fact that it's in a Law Commission document does not make it sacrosanct and I think the whole point of this scrutiny process, both in Stage 2 and Stage 3, was to see how practical and workable the Law Commission's recommendations were before we put them into place, or not, as the case may be. I think, Chair, the main argument being wielded by the Minister is that this proposal I'm putting forward with these amendments is one of capacity. Capacity can be built and capacity can be provided through investment, both in people and in resources. When the Residential Property Tribunal gave evidence to the committee, they seemed comfortable with the prospect of taking on the role which is envisaged in this amendment. I don't consider that capacity is a major barrier to that. I think we are putting tenants in a position where they're going to have to go to court to resolve disputes, and we're adding to that in this Bill. That is a concern of the committee, it was a concern that was put forward in evidence to us, and it was also a concern put to us by the committee's adviser, who is himself an eminent lawyer in this particular field.

Diolch i chi, Lywydd. Rwyf i'n synnu at ddadl y Gweinidog pan fo cynnig yn mynd yn erbyn argymhelliad gan Gomisiwn y Gyfraith, felly ni allwn ei dderbyn, o gofio ei bod hi ei hun eisoes wedi anwybyddu rhai argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith yn y grŵp olaf. Rwyf o'r farn nad yw'r ffaith ei fod mewn dogfen Comisiwn y Gyfraith yn ei wneud yn gysegredig ac rwy'n meddwl mai holl bwynt y broses graffu hon, yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3, oedd gweld pa mor ymarferol a dichonadwy oedd argymhellion Comisiwn y Gyfraith cyn i ni eu rhoi ar waith, neu beidio, yn ôl y digwydd. Rwy'n credu, Gadeirydd, mai'r brif ddadl sy'n cael ei defnyddio gan y Gweinidog yw bod y cynnig hwn yr wyf yn ei gyflwyno gyda'r gwelliannau hyn yn un o allu. Gellir adeiladu gallu a gellir darparu gallu drwy fuddsoddiad, mewn pobl ac mewn adnoddau. Pan roddodd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl dystiolaeth i'r pwyllgor, roedd yn ymddangos ei fod yn gyfforddus â'r posibilrwydd o ymgymryd â'r swyddogaeth a ragwelir yn y gwelliant hwn. Nid wyf o'r farn bod gallu yn rhwystr mawr i hynny. Rwy'n credu ein bod yn rhoi tenantiaid mewn sefyllfa lle maent yn mynd i orfod mynd i'r llys i ddatrys anghydfodau, ac rydym yn ychwanegu at hynny yn y Bil hwn. Mae hynny'n bryder i'r pwyllgor, mae'n bryder a roddwyd gerbron mewn tystiolaeth i ni, ac roedd hefyd yn bryder a roddwyd i ni gan ymgynghorydd y pwyllgor, sydd ei hun yn gyfreithiwr amlwg yn y maes penodol hwn.

The courts, of course, do not offer the sort of mediation that the residential property tribunals offer. They're there to judge and to determine a conflict and not to try to resolve that conflict. And the idea that maybe tenants could call in other advice if it's available, I think, is important, but I think the capacity issue applies equally to advice such as Citizens Advice and Shelter, which might possibly come in to the court to help tenants in this. Clearly, there's a huge amount of work that they would need to do to actually assist tenants through this particular process.

Nid yw'r llysoedd, wrth gwrs, yn cynnig y math o gyfryngu y mae'r tribiwnlysoedd eiddo preswyl yn ei gynnig. Maen nhw yno i farnu ac i benderfynu ar wrthdaro ac nid i geisio datrys y gwrthdaro hwnnw. Ac mae'r syniad efallai y gallai tenantiaid alw ar gyngor arall os yw ar gael, rwy'n meddwl, yn bwysig, ond rwy'n meddwl bod y mater gallu yr un mor berthnasol i gyngor gan Cyngor ar Bopeth a Shelter, a allai o bosibl ddod i mewn i'r llys i helpu tenantiaid â hyn. Yn amlwg, mae llawer iawn o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud i gynorthwyo tenantiaid mewn gwirionedd drwy'r broses benodol hon.

Jocelyn is right that, yes, sometimes lawyers do come to tribunals and, even with the Mobile Homes (Wales) Act 2013 and the residential property tribunal, lawyers are used in that process, but the tribunal is a far more friendly and accessible place for a tenant to be able to take a particular dispute to. They can mediate as opposed to adjudicate. And I think that it's right that we do have a housing court for Wales that is there to help tenants and to help resolve these disputes, as well as help landlords, who I'm sure don't relish the legal costs of going to court either.

Mae Jocelyn yn iawn bod cyfreithwyr weithiau yn dod i dribiwnlysoedd a, hyd yn oed gyda Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a'r tribiwnlys eiddo preswyl, defnyddir cyfreithwyr yn y broses honno, ond mae'r tribiwnlys yn lle llawer mwy cyfeillgar a hygyrch i denant allu mynd ag anghydfod arbennig iddo. Gallant gyfryngu yn hytrach na dyfarnu. Ac rwy'n meddwl ei bod yn briodol bod gennym lys tai i Gymru sydd yno i helpu tenantiaid ac i helpu i ddatrys yr anghydfodau hyn, yn ogystal â helpu landlordiaid, nad ydynt rwy'n siŵr yn hoff o'r costau cyfreithiol o fynd i'r llys ychwaith.

It seems to me, Presiding Officer, that the current remit of the residential property tribunal can be amended, that these amendments are practical and workable and that we should enable tenants to access justice and to resolve disputes without having to incur huge costs and huge risk, and without having to access legal aid, assuming that is available. Every Bill and every Act that we pass here, of course, has the potential of some sort of legal action attached to it. It is my view that we shouldn't be passing law that is going to enrich lawyers and not help the tenants or even the landlords. At the end of the day, what we should be doing here is finding the most practical way to resolve disputes, and I believe that we have an alternative here that is going to avoid that enrichment of the legal profession, which otherwise we seem to be going down the route of doing. Thank you.

Mae'n ymddangos i mi, Lywydd, y gellir diwygio cylch gorchwyl presennol y tribiwnlys eiddo preswyl, bod y gwelliannau hyn yn ymarferol ac yn ddichonadwy ac y dylem alluogi tenantiaid i gael mynediad at gyfiawnder ac i ddatrys anghydfod heb orfod ysgwyddo costau enfawr a risg enfawr, a heb orfod cael mynediad at gymorth cyfreithiol, gan dybio ei fod ar gael. Mae gan bob Bil a Deddf yr ydym yn eu pasio yma, wrth gwrs, y potensial o gael rhyw fath o gamau cyfreithiol ynghlwm wrthynt. Fy marn i yw na ddylem fod yn pasio cyfraith sy'n mynd i gyfoethogi cyfreithwyr ac nad yw'n helpu'r tenantiaid na hyd yn oed y landlordiaid. Yn y pen draw, yr hyn y dylem fod yn ei wneud yma yw dod o hyd i'r ffordd fwyaf ymarferol o ddatrys anghydfodau, ac rwy'n credu bod gennym ddewis arall yma sy'n mynd i osgoi'r cyfoethogi hwnnw o'r proffesiwn cyfreithiol, y mae'n ymddangos, fel arall, ein bod yn mynd i lawr y llwybr o'i wneud. Diolch.

14:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we proceed to the vote, Simon Thomas has indicated he wishes to declare an interest. So, I'll ask Simon Thomas to do that, and then I'll ask any other Members if they wish to do the same. Simon Thomas.

Cyn inni symud ymlaen at y bleidlais, mae Simon Thomas wedi nodi ei fod yn dymuno datgan buddiant. Felly, gofynnaf i Simon Thomas wneud hynny, ac yna byddaf yn gofyn i unrhyw Aelodau eraill os ydynt yn dymuno gwneud hynny hefyd. Simon Thomas.

14:47

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Hoffwn i ddatgan budd perthnasol yn y Bil yma, gan fy mod i'n denant tenantiaeth sydd yn deillio o'r ffaith fy mod i'n Aelod o'r Cynulliad.

Thank you, Presiding Officer. I'd like to declare a relevant interest in this Bill, as I am a tenant of a tenancy as a result of the fact that I am an Assembly Member.

14:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Anybody else?

Diolch. Unrhyw un arall?

14:47

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Lywydd, rwy'n datgan diddordeb gan fy mod i'n denant i eiddo yng Nghaerdydd.

Presiding Officer, I declare an interest as I am also a tenant of a property in Cardiff.

14:47

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf innau hefyd yn datgan diddordeb fel tenant yng Nghaerdydd.

I also declare an interest as a tenant in Cardiff.

14:47

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf innau yn datgan diddordeb fel tenant yng Nghaerdydd, ond fel landlord hefyd.

I declare an interest as a tenant in Cardiff, and as a landlord.

14:47

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mi wnaf innau ddatgan diddordeb fel tenant yn rhinwedd fy ngwaith fel Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol, ond hefyd fel landlord.

I will also declare an interest in light of my work as an Assembly Member, but also as a landlord.

14:48

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm a beneficiary under a will trust, but it relates just to one amendment in group 21—amendment 142.

Rwy'n fuddiolwr dan ymddiriedolaeth ewyllys, ond mae'n ymwneud dim ond ag un gwelliant yn grŵp 21—gwelliant 142.

14:48

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I must declare an interest as I am a landlord of a flat in Cardiff.

Mae'n rhaid imi ddatgan buddiant gan fy mod yn landlord fflat yng Nghaerdydd.

14:48

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

I, too, would like to declare an interest that I'm a landlord.

Hoffwn innau, hefyd, ddatgan buddiant fy mod yn landlord.

Senedd.tv Fideo Video

14:48

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

I'd also like to declare an interest as a landlord of two properties in north Wales.

Hoffwn hefyd ddatgan buddiant fel landlord dau eiddo yn y gogledd.

Senedd.tv Fideo Video

14:48

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Rwyf eisiau datgan diddordeb oherwydd bod gennyf fi denant mewn fflat yng Nghaerdydd.

I want to declare an interest because I have a tenant in a flat in Cardiff.

Senedd.tv Fideo Video

14:48

## William Graham Bywgraffiad Biography

I wish to declare an interest as a landlord.

Hoffwn ddatgan buddiant fel landlord.

Senedd.tv Fideo Video

14:48

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

I also declare an interest as a tenant, as a Member of this place.

Rwyf innau hefyd yn datgan buddiant fel tenant, fel Aelod o'r lle hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:48

## Russell George Bywgraffiad Biography

I declare an interest as a tenant in Cardiff.

Rwy'n datgan buddiant fel tenant yng Nghaerdydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:49

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

I'd like to declare an interest as a tenant in Cardiff.

Hoffwn ddatgan buddiant fel tenant yng Nghaerdydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:49

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

I'd like to declare an interest as a tenant, a landlord and a joint landlord.

Hoffwn ddatgan buddiant fel tenant, landlord a landlord ar y cyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:49

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I would also like to declare an interest as a landlord.

Hoffwn innau hefyd ddatgan buddiant fel landlord.

Senedd.tv Fideo Video

14:49

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

I'd like to declare an interest as a tenant of a flat in Cardiff.

Hoffwn ddatgan buddiant fel tenant fflat yng Nghaerdydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:49

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

I'd also like to declare an interest as a tenant, although it was my understanding that we only need to declare an interest if we're speaking in the debate, not just voting.

Hoffwn hefyd ddatgan buddiant fel tenant, er fy nealltwriaeth i oedd mai dim ond os ydym yn siarad yn y ddadl y mae angen i ni ddatgan buddiant, nid dim ond yn pleidleisio.

Senedd.tv Fideo Video

14:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

It's entirely up to you. Where you've had advice, it's up to you to whether to declare or not. Anyone else? No? In that case, we'll move to the vote. And the question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] Object. We'll proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 17. Nine abstentions, and 27 against. Therefore, the amendment falls.

Mae hynny'n fater i chi yn llwyr. Pan eich bod wedi cael cyngor, mae'n fater i chi a ydych am ddatgan ai peidio. Unrhyw un arall? Na? Felly, symudwn at y bleidlais. A'r cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn ymlaen i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 17. Naw yn ymatal, a 27 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

Senedd.tv Fideo Video

*Gwrthodwyd gwelliant 1: O blaid 17, Yn erbyn 27, Ymatal 9.*

*Amendment 1 not agreed: For 17, Against 27, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1

Result of the vote on amendment 1

14:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 2 to 7 are disposed of en bloc. Does any Member object? You object? You don't object. Right.

Cynigiaf fod gwelliannau 2 i 7 yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Rydych yn gwrthwynebu? Nid ydych yn gwrthwynebu. Iawn.

Peter Black, amendments 2 to 7.

Peter Black, gwelliannau 2 i 7.

*Cynigiwyd gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7 (Peter Black [R]).*

*Amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7 (Peter Black [R]) moved.*

14:50

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

14:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is they be agreed. Does any Member object? [Objection.] You object. We'll proceed to an electronic vote. The first amendment is amendment 2—we'll do 2 to 7 together. Sorry, I beg your pardon. Amendments 2 to 7 together. Open the vote. Close the vote. In favour 16, 10 abstentions and 27 against. Therefore, the amendments fall.

Y cwestiwn yw eu bod yn cael eu derbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rydych yn gwrthwynebu. Symudwn ymlaen i bleidlais electronig. Y gwelliant cyntaf yw gwelliant 2—gwnawn 2 i 7 gyda'i gilydd. Mae'n ddrwg gennyf, maddeuwch i mi. Gwelliannau 2 i 7 gyda'i gilydd. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 16, 10 yn ymatal a 27 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliannau yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 10.*

*Amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7

Result of the vote on amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7

### Grŵp 3: Addasu ac Amrywio Contractau Meddiannaeth (Gwelliannau 83, 167, 84, 168, 189, 51, 105, 53, 109, 204, 112, 205, 209, 80, 210 a 211)

### Group 3: Modification and Variation of Occupation Contracts (Amendments 83, 167, 84, 168, 189, 51, 105, 53, 109, 204, 112, 205, 209, 80, 210 and 211)

14:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to modification and variation of occupation contracts. The lead amendment in this group is amendment 83. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group. Minister.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag addasu ac amrywio contractau meddiannaeth. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 83. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 83 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 83 (Lesley Griffiths) moved.*

14:51

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer.

Diolch i chi, Lywydd.

The Government amendments in this group reflect the commitment I gave to Jocelyn Davies at Stage 2 on modifications to the fundamental terms of an occupation contract. Under the amendments, whether or not a modification improves the position of the contract holder will be a matter subject to the opinion of the contract holder. For consistency, similar amendments are included in relation to the variation of contracts following commencement.

Mae gwelliannau’r Llywodraeth yn y grŵp hwn yn adlewyrchu ymrwymiad a roddais i Jocelyn Davies yn ystod Cyfnod 2 ar addasiadau i delerau sylfaenol contract meddiannaeth. O dan y gwelliannau, bydd pa un a yw addasiad yn gwella sefyllfa’r deiliad contract ai peidio yn fater sy’n ddarostyngedig i farn y deiliad contract. Er mwyn cysondeb, mae gwelliannau tebyg wedi eu cynnwys sy’n ymwneud ag amrywio contractau ar ôl iddynt gychwyn.

As at Stage 2, I note the amendments tabled by Jocelyn Davies for Stage 3 include the additional qualification that the contract holder’s opinion must be reasonable. The difficulty here is the landlord could challenge a contract holder’s refusal to agree a modification in the court on the basis the decision was unreasonable. Indeed, the landlord could use the threat of a challenge, even if it’s not well founded, as a means of forcing a contract holder into agreeing to a modification. We would want, really, to avoid such challenges.

Fel yng Nghyfnod 2, nodaf fod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies ar gyfer Cyfnod 3 yn cynnwys y cymhwyster ychwanegol bod yn rhaid i farn y deiliad contract fod yn rhesymol. Yr anhawster yma yw y gallai'r landlord herio gwrthodiad deiliad contract i gytuno ar addasiad yn y llys ar y sail bod y penderfyniad yn afresymol. Yn wir, gall y landlord ddefnyddio'r bygythiad o her, hyd yn oed os nad yw ar sail dda, fel ffordd o orfodi deiliad contract i gytuno i addasiad. Byddem, mewn gwirionedd, yn dymuno osgoi heriau o'r fath.

Turning to amendments 189, 204, 205, 210 and 211 from Mark Isherwood, these are not necessary if the Government’s amendments in the group are agreed. Furthermore, the amendments set out additional tests that I think would greatly complicate the position, and these tests would ultimately require resolution by the court.

Gan droi at welliannau 189, 204, 205, 210 a 211 gan Mark Isherwood, nid yw'r rhain yn angenrheidiol os yw gwelliannau’r Llywodraeth yn y grŵp yn cael eu derbyn. Yn ogystal, mae'r gwelliannau yn nodi profion ychwanegol rwy’n credu y byddent yn cymhlethu’r sefyllfa i raddau helaeth, a byddai'r profion hyn yn y pen draw angen eu datrys gan y llys.

Amendments 51 and 53 from Peter Black would prevent a landlord increasing the rent within one year from the start of the contract. Whilst I do understand what Peter’s trying to achieve here, it would cause problems where a periodic standard contract follows a fixed-term contract. The arrangements in the Bill are based on current law. However, instead of a one month’s notice period before an initial rent increase, landlords would be required to give two months’ notice. So, the Bill actually offers greater protection.

Byddai Gwelliannau 51 a 53 gan Peter Black yn atal landlord rhag codi’r rhent o fewn blwyddyn o ddechrau'r contract. Er fy mod yn deall beth y mae Peter yn ceisio ei gyflawni yma, byddai'n achosi problemau pan fo contract cyfnodol safonol yn dilyn contract cyfnod penodol. Mae'r trefniadau yn y Bil yn seiliedig ar y gyfraith bresennol. Fodd bynnag, yn hytrach na chyfnod rhybudd o un mis cyn codiad rhent cychwynnol, byddai gofyn i landlordiaid roi dau fis o rybudd. Felly, mae'r Bil mewn gwirionedd yn cynnig mwy o amddiffyniad.

Amendment 80, also from Peter Black, would make the regulations setting out supplementary terms subject to the affirmative procedure. At Stage 2, I accepted an equivalent amendment from Peter Black regarding changes to fundamental terms as this would effectively change the provision that’s set out on the face of the Bill. However, supplementary terms will cover more practical matters, which are also more likely to change from time to time. So, I do not consider the affirmative procedure to be appropriate. I would ask Members to support the Government amendments in this group.

Mae gwelliant 80, hefyd gan Peter Black, yn gwneud y rheoliadau sy'n nodi telerau atodol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yng Nghyfnod 2, derbyniais welliant cyfatebol gan Peter Black ynglŷn â newidiadau i delerau sylfaenol gan y byddai hyn mewn gwirionedd yn newid y ddarpariaeth sy'n cael ei nodi ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, bydd telerau atodol yn ymdrin â materion mwy ymarferol, sydd hefyd yn fwy tebygol o newid o bryd i'w gilydd. Felly, nid wyf yn ystyried y weithdrefn gadarnhaol yn briodol. Gofynnaf i’r Aelodau gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn.

14:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Landlord organisations would beg to differ with the Minister that the current provision is sufficient to provide the protections she claims. The amendments that I'm moving would give greater confidence and protection to people with any protected characteristic, within the meaning of the Equality Act 2010, who may require the alteration of fundamental terms in accordance with their particular characteristics. It also provides peace of mind and security to landlords who may not offer fundamental terms through fear of penalty, despite such an alteration having the potential to benefit a particular group or class of contract holder. I therefore ask the Minister to hear what the experts and the legal advisers to the landlords are advising in order to put the necessary protections in, both for people with protected characteristics and landlords seeking to support them.

Byddai sefydliadau landlordiaid yn anghytuno â'r Gweinidog fod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddarparu'r amddiffyniad y mae hi'n ei honni. Byddai'r gwelliannau yr wyf yn eu cynnig yn rhoi mwy o hyder a diogelwch i bobl ag unrhyw nodwedd warchodedig, o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, y gallai fod angen newid arnynt o delerau sylfaenol yn unol â'u nodweddion penodol. Mae hefyd yn rhoi tawelwch meddwl a sicrwydd i landlordiaid nad ydynt efallai yn cynnig telerau sylfaenol oherwydd eu bod yn ofni cosb, er bod gan newid o'r fath y potensial i fod o fudd i grŵp neu ddosbarth penodol o ddeiliaid contract. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog glywed beth y mae'r arbenigwyr a chynghorwyr cyfreithiol y landlordiaid yn ei gynghori er mwyn rhoi'r amddiffyniad angenrheidiol i mewn, ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig a landlordiaid sy'n ceisio'u cefnogi.

14:54 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have two amendments tabled in this group but I shall be supporting the Government's amendments instead. So, I don't intend to move my amendments, Presiding Officer.

Mae gennyf ddau welliant wedi'u cyflwyno yn y grŵp hwn, ond byddaf yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth yn hytrach. Felly, nid wyf yn bwriadu cynnig fy ngwelliannau, Lywydd.

The evidence that we heard during scrutiny sessions highlighted a significant omission from the Bill. It included that there were no criteria for judging whether the modification or removal of a fundamental term of an occupation contract had improved the position of the contract holder. Now, this omission would have inevitably led to legal challenges, and I don't think we should be passing legislation that, from the outset, would rely on the courts to define the meaning of significant provisions within it.

Mae'r dystiolaeth a glywsom yn ystod sesiynau craffu yn tynnu sylw at hepgoriad sylweddol o'r Bil. Roedd yn cynnwys nad oedd unrhyw feini prawf ar gyfer barnu a yw addasu neu ddileu amod sylfaenol contract meddiannaeth wedi gwella sefyllfa'r deiliad contract. Nawr, byddai'r hepgoriad hwn yn anochel wedi arwain at heriau cyfreithiol, ac nid wyf yn credu y dylem fod yn pasio deddfwriaeth a fyddai, o'r cychwyn cyntaf, yn dibynnu ar y llysoedd i ddiffinio ystyr darpariaethau sylweddol o'i mewn.

Mark Isherwood's amendment in this group introduces the concept of the average contract holder. I don't believe that this is a helpful inclusion because every tenant has a unique set of circumstances and priorities that will impact on whether the modification of a fundamental term is an improvement to them. So, the comparison with some average contract holder does nothing to determine whether the change is an improvement or not. So, I will not be supporting his amendments.

Mae gwelliant Mark Isherwood yn y grŵp hwn yn cyflwyno'r cysyniad o ddeiliad contract cyfartalog. Nid wyf yn credu bod hwn yn gynnwys defnyddiol oherwydd bod gan bob tenant gyfres unigryw o amgylchiadau a blaenoriaethau a fydd yn effeithio ar ba un a yw'r addasiad o amod sylfaenol yn welliant iddynt. Felly, nid yw'r gymhariaeth gyda rhai deiliad contract cyfartalog yn gwneud dim i benderfynu a yw'r newid yn welliant ai peidio. Felly, ni fyddaf yn cefnogi ei welliannau.

14:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As the Minister has already said, my two amendments, 51 and 53, effectively incorporate a minimum period of 12 months before a rent-varying notice can be served on the first occasion. That actually relates, again, to a recommendation of the committee—recommendation 14—and I think it's important that we don't have a situation where tenants who take up a tenancy quickly find that their rent is going up and that we do provide that additional protection for tenants in terms of ensuring that there is a minimum period of 12 months before they face such a rent rise.

Fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud eisoes, mae fy nau welliant, 51 a 53, mewn gwirionedd yn ymgorffori cyfnod o 12 mis o leiaf cyn y gellir cyflwyno rhybudd amrywio rhent am y tro cyntaf. Mae hynny mewn gwirionedd yn ymwneud, unwaith eto, ag argymhelliad y pwyllgor—argymhelliad 14—ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig na fydd gennym sefyllfa lle mae tenantiaid sy'n cymryd tenantiaeth yn gyflym yn gweld bod eu rhent yn mynd i fyny a'n bod ni yn darparu'r amddiffyniad ychwanegol hwnnw i denantiaid o ran sicrhau bod o leiaf cyfnod o 12 mis cyn iddynt wynebu codiad rhent o'r fath.

Amendment 80 relates to a recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and again seeks to make sure that regulations under this particular Bill are brought before us as much as possible. I think it's important that we do have as many of these done by the affirmative procedure as possible. I understand what the Minister says in terms of these relating to practical matters that can come back on a regular basis, but I don't think that's any reason why there shouldn't be effective scrutiny by Plenary of what is a technical and complex but also very important area of law that affects a large number of people across Wales. I think, for that reason, I would therefore press for that amendment in terms of having an affirmative procedure.

Mae gwelliant 80 yn ymwneud ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac unwaith eto mae'n ceisio gwneud yn siŵr bod rheoliadau dan y Bil penodol hwn yn cael eu dwyn ger ein bron cymaint â phosibl. Rwy'n credu ei fod yn bwysig ein bod yn gwneud cymaint o'r rhain ag y bo modd drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Rwy'n deall yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud o ran bod y rhain yn ymwneud â materion ymarferol sy'n gallu dod yn ôl yn rheolaidd, ond nid wyf yn credu bod hynny'n unrhyw reswm pam na ddylai fod craffu effeithiol gan y Cyfarfod Llawn ar yr hyn sy'n dechnegol a chymhleth, ond sydd hefyd, yn faes pwysig iawn o gyfraith sy'n effeithio ar nifer fawr o bobl ledled Cymru. Rwy'n meddwl, am y rheswm hwnnw, y byddwn felly yn pwyso am y gwelliant hwnnw o ran cael gweithdrefn gadarnhaol.

14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I think I addressed Peter Black's comments in my opening remarks. In answer to Mark Isherwood, I don't think it's clear what is meant by 'an average contract holder'. So, that would also fall to the court to determine. I think what the Government's amendments mean is that the test would be very straightforward. It appears that the opposition parties, excluding Plaid Cymru, want more tests and, therefore, it would just be more problematic. I'm grateful to Jocelyn Davies for withdrawing her amendments.

Diolch. Rwy'n credu fy mod wedi rhoi sylw i sylwadau Peter Black yn fy sylwadau agoriadol. Mewn ateb i Mark Isherwood, nid wyf yn credu ei fod yn glir beth a olygir wrth 'deiliad contract cyfartalog'. Felly, byddai hynny hefyd yn fater i'r llys i'w benderfynu. Rwy'n credu mai'r hyn y mae gwelliannau'r Llywodraeth yn ei olygu yw y byddai'r prawf yn syml iawn. Mae'n ymddangos bod y gwrthbleidiau, ac eithrio Plaid Cymru, eisiau mwy o brofion ac, felly, byddai ond yn achosi mwy o broblemau. Rwy'n ddiolchgar i Jocelyn Davies am dynnu ei gwelliannau yn ôl.

14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 83 is agreed to, amendment 167 falls. The question is that amendment 83 is agreed. Any objections? Amendment 83 is therefore agreed.

Os derbynnir gwelliant 83, mae gwelliant 167 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 83 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? Felly caiff gwelliant 83 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 83 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 83 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 167.*

*Amendment 167 fell.*

14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 84.

Weinidog, gwelliant 84.

*Cynigiwyd gwelliant 84 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 84 (Lesley Griffiths) moved.*

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 84 is agreed, amendment 168 falls. So, the question is to agree amendment 84. Does anyone object? No objections. Therefore, amendment 84 is agreed.

Os derbynnir gwelliant 84, bydd gwelliant 168 yn methu. Felly, y cwestiwn yw bod gwelliant 84 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiadau. Felly, mae gwelliant 84 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 84 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 84 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 168.*

*Amendment 168 fell.*

## Grŵp 4: Terfynu Contractau Meddiannaeth (Gwelliannau 85, 86, 107, 108, 111, 60, 61, 115, 62, 118, 119, 120, 121, 63, 64, 122, 124, 125, 135, 154, 155, 136, 137 a 138)

## Group 4: Termination of Occupation Contracts (Amendments 85, 86, 107, 108, 111, 60, 61, 115, 62, 118, 119, 120, 121, 63, 64, 122, 124, 125, 135, 154, 155, 136, 137 and 138)

14:58

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the next group of amendments, which relates to termination of occupation contracts. The lead amendment in this group is amendment 85, and I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and others in the group. Minister.

Symudwn yn awr at y grŵp nesaf o welliannau, sy'n ymwneud â therfynu contractau meddiannaeth. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 85, a galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant ac eraill yn y grŵp a siarad amdanynt. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 85 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 85 (Lesley Griffiths) moved.*

14:58

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. In line with the commitment I gave at Stage 2 regarding the six-month moratorium, the Government amendments in this group make provision to prevent a landlord from making a possession claim within the first six months of occupation. The amendments also introduce an additional Schedule to the Bill setting out certain types of occupation contract to which the minimum six-month period will not apply. This is in line with current arrangements, for example in relation to demoted tenancies imposed by the court as a sanction against anti-social behaviour and to which the moratorium does not apply.

Amendment 115, which applies to periodic standard contracts, prohibits a landlord from issuing a notice seeking possession within the first four months of occupation under the contract. When you combine that with the two-month notice period, this provides for a minimum of six months before a landlord can make a possession claim to the court on the grounds of the notice.

In relation to fixed-term standard contracts, amendments 118 and 119 prohibit a landlord from specifying a date on which possession is sought that is less than six months after the occupation date of the contract. At least two months’ notice must be given. Landlords and contract holders will still be free to agree a fixed term of less than six months, for example to cover a period between house moves. However, if the contract holder does not voluntarily give up possession at the end of the term, the landlord will not be able to make a possession claim until six months from the occupation date of the contract. Amendment 122 applies a similar restriction on the use of a landlord’s break clause during the first four months of occupation.

Diolch. Yn unol â'r ymrwymiad a roddais yn ystod Cyfnod 2 ynghylch y moratoriwm chwe mis, mae gwelliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn yn gwneud darpariaeth i atal landlord rhag hawlio meddiant o fewn y chwe mis cyntaf o feddiannaeth. Mae'r gwelliannau hefyd yn cyflwyno Atodlen ychwanegol i'r Bil yn nodi rhai mathau o gontract meddiannaeth na fydd y cyfnod lleiaf o chwe mis yn berthnasol iddo. Mae hyn yn unol â'r trefniadau presennol, er enghraifft o ran tenantiaethau isradd a osodir gan y llys fel cosb yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol a phan nad yw'r moratoriwm yn berthnasol.

Mae gwelliant 115, sy'n berthnasol i gontractau cyfnodol safonol, yn gwahardd landlord rhag cyflwyno hysbysiad yn ceisio meddiant o fewn y pedwar mis cyntaf o feddiannaeth o dan y contract. Pan fyddwch yn cyfuno hynny gyda'r cyfnod rhybudd o ddau fis, mae hyn yn darparu ar gyfer o leiaf chwe mis cyn y gall landlord wneud hawliad i feddiannu i'r llys ar sail yr hysbysiad.

O ran y contractau safonol cyfnod penodol, mae gwelliannau 118 a 119 yn gwahardd landlord rhag pennu dyddiad pryd y ceisir meddiant sy'n llai na chwe mis ar ôl y dyddiad meddiannu yn y contract. Bydd yn rhaid rhoi o leiaf ddau fis o rybudd. Bydd landlordiaid a deiliaid contractau yn dal i fod yn rhydd i gytuno ar gyfnod penodol o lai na chwe mis, er enghraifft, i gwmpasu cyfnod rhwng symud tŷ. Fodd bynnag, os nad yw'r deiliad cytundeb yn wirfoddol yn ildio meddiant ar ddiwedd y tymor, ni fydd y landlord yn gallu hawlio meddiant cyn bod chwe mis wedi mynd heibio o ddyddiad meddiannu'r contract. Mae gwelliant 122 yn berthnasol i gyfyngiad tebyg ar y defnydd o gymal terfynu’r landlord yn ystod y pedwar mis cyntaf o feddiannaeth.

Amendment 155 introduces the new Schedule setting out types of standard contract to which the minimum six-month occupation arrangements do not apply. Amendments are also included to ensure the moratorium properly fits within the Bill, and the provisions are expressed as being fundamental ones, which are to be incorporated into occupation contracts as fundamental terms. A power for the Welsh Ministers to amend the Schedule as the types and descriptions of contracts is included, given the need to be able to update the list over time.

Mae gwelliant 155 yn cyflwyno'r Atodlen newydd sy’n nodi mathau o gontract safonol lle nad yw'r trefniadau meddiannaeth chwe mis o leiaf yn berthnasol. Mae gwelliannau hefyd wedi eu cynnwys i sicrhau bod y moratoriwm yn cyd-fynd yn briodol yn y Bil, ac mae’r darpariaethau yn cael eu mynegi fel rhai sylfaenol, a fydd yn cael eu hymgorffori mewn contractau meddiannaeth fel telerau sylfaenol. Mae pŵer wedi’i gynnwys i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Atodlen o ran y mathau a disgrifiadau o gontractau, o ystyried yr angen i allu diweddaru'r rhestr dros amser.

The remaining Government amendments address the need to ensure the arrangements will apply consistently in all situations. For example, amendment 120 addresses the situation of substitute contracts, where one contract immediately follows another.

Mae gwelliannau'r Llywodraeth sy'n weddill yn mynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod y trefniadau yn berthnasol yn gyson ym mhob sefyllfa. Er enghraifft, mae gwelliant 120 yn mynd i'r afael â'r sefyllfa o gontractau cyfnewid, pan fo un contract yn dilyn un arall ar unwaith.

If I can just turn, now, to the amendments from Peter Black, amendment 61 is also seeking to make provision similar to the Government amendments in respect of periodic standard contracts. However, it doesn’t address issues such as substitute contracts, nor does it make provision for them to be incorporated as fundamental terms.

Os caf i droi, yn awr, at y gwelliannau gan Peter Black, mae gwelliant 61 hefyd yn ceisio gwneud darpariaeth debyg i welliannau'r Llywodraeth ynglŷn â chontractau cyfnodol safonol.  Fodd bynnag, nid yw'n mynd i'r afael â materion megis contractau cyfnewid, nid yw ychwaith yn gwneud darpariaeth iddynt gael eu hymgorffori fel telerau sylfaenol.

Amendment 62 prohibits the agreement of a fixed-term standard contract for a period of fewer than six months. However, I don’t believe that’s necessary or desirable to have such a restriction, since sometimes a contract holder will not want to commit to a six-month term, for example if undertaking a three-month secondment for work purposes. Parties would still be at liberty to agree lesser periods, as indeed they are now, under the assured shorthold tenancy regime. I think it’s more appropriate to focus on restricting the ability of the landlord to seek possession within the first six months, which is what the Government’s amendments do.

Mae gwelliant 62 yn gwahardd contract safonol cyfnod penodol am gyfnod o lai na chwe mis. Fodd bynnag, nid wyf yn credu ei fod yn angenrheidiol nac yn ddymunol i gael cyfyngiad o'r fath, gan na fydd deiliad contract weithiau yn dymuno ymrwymo i dymor o chwe mis, er enghraifft os yw’n ymgymryd â secondiad tri mis at ddibenion gwaith. Byddai partïon yn dal i fod yn rhydd i gytuno ar gyfnodau llai, fel yn wir y maent yn awr, o dan y drefn tenantiaeth fyrddaliol sicr. Rwy'n credu ei fod yn fwy priodol i ganolbwyntio ar gyfyngu ar allu landlord i geisio meddiant o fewn y chwe mis cyntaf, sef yr hyn y mae gwelliannau’r Llywodraeth yn ei wneud.

Amendment 60 from Peter would make termination by agreement subject to the agreement being in writing, as opposed to being able to be done verbally, as is the case now. Whilst it is good practice to have something in writing for evidential purposes, the agreement to terminate would necessitate a written document. Furthermore, notwithstanding whatever’s in the agreement, the Bill would have an overriding effect. If the agreement set out a date other than when possession is actually required to be given up in accordance with the Bill, it could give rise to some legal uncertainty and confusion.

Byddai gwelliant 60 gan Peter yn gwneud terfynu drwy gytundeb yn amodol ar fod y cytundeb yn ysgrifenedig, yn hytrach na gallu ei wneud ar lafar, fel sy'n digwydd yn awr. Er ei fod yn arfer da i gael rhywbeth yn ysgrifenedig at ddibenion tystiolaeth, byddai'r cytundeb yn golygu bod angen terfynu dogfen ysgrifenedig. Yn ogystal, er gwaethaf beth bynnag sydd yn y cytundeb, byddai gan y Bil yr effaith o ddiystyru. Pe byddai’r cytundeb yn nodi dyddiad heblaw pan fydd angen rhoi’r gorau i feddiant mewn gwirionedd yn unol â'r Bil, gallai arwain at rywfaint o ansicrwydd cyfreithiol a dryswch.

Amendments 63 and 64 seek to alter the definition of serious rent arrears. Amendment 63 would reverse the existing statutory provision, which addresses quarterly rents, but not six-monthly rents, so I don’t consider that is necessary. Amendment 64 would make possession for rent arrears more difficult to bring where rent was payable on an annual basis. That could create difficulties, particularly, I think, for private landlords, who would have to incur a much greater financial hit before being able to seek possession. So, I don’t support this change either.

Mae gwelliannau 63 a 64 yn ceisio newid y diffiniad o ôl-ddyledion rhent difrifol. Byddai gwelliant 63 yn gwrthdroi'r ddarpariaeth statudol bresennol, sy'n mynd i'r afael â rhenti chwarterol, ond nid rhenti bob chwe mis, felly nid wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol. Byddai gwelliant 64 yn gwneud meddiant ar gyfer ôl-ddyledion rhent yn fwy anodd ei gyflawni pan fo rhent yn daladwy yn flynyddol. Gallai hynny greu anawsterau, yn enwedig, rwy’n credu, ar gyfer landlordiaid preifat, a fyddai'n gorfod ysgwyddo llawer mwy o ergyd ariannol cyn gallu ceisio meddiant. Felly, nid wyf yn cefnogi'r newid hwn ychwaith.

15:02 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start by welcoming the Minister's amendments effectively to retain the six-month moratorium, and in light of that, I will not be moving my two amendments 61 and 62, which are along the same lines. I think the Minister's solution is fine and I'm happy with that. I think it has removed a substantial obstacle to my supporting this Bill, which I think is very welcome.

A gaf i ddechrau drwy groesawu gwelliannau'r Gweinidog i gadw'r moratoriwm chwe mis mewn gwirionedd, ac yng ngoleuni hynny, ni fyddaf yn cynnig fy nau welliant 61 a 62, sydd ar yr un llinellau. Rwy'n meddwl bod ateb y Gweinidog yn iawn ac rwy'n hapus â hynny. Rwy'n credu ei fod wedi cael gwared ar rwystr sylweddol i mi gefnogi'r Bil hwn, sydd i'w groesawu'n fawr rwy'n credu.

In terms of my other amendments, Presiding Officer, on amendment 60, I just want to draw the Minister's attention to evidence from Shelter Cymru relating to section 153, 'Termination by agreement', and the lack of a requirement for the termination of an agreement to be in writing. The Minister says that it is good practice to force such a termination to be in writing and I think that's absolutely right and I think it's important, therefore, that we do reflect good practice within the law, so that both parties fully understand what is intended in terms of the termination of that particular tenancy.

O ran fy ngwelliannau eraill, Lywydd, ar welliant 60, rwyf eisiau tynnu sylw'r Gweinidog at dystiolaeth gan Shelter Cymru sy'n ymwneud ag adran 153, 'Terfynu trwy gytundeb', a'r diffyg gofyniad i derfynu cytundeb fod yn ysgrifenedig. Dywed y Gweinidog ei fod yn arfer da i orfodi terfyniad o'r fath i fod yn ysgrifenedig ac rwy'n credu bod hynny'n hollol gywir, ac rwy'n credu ei fod yn bwysig, felly, ein bod yn adlewyrchu arfer da o fewn y gyfraith, fel bod y ddau barti yn deall yn llawn yr hyn a fwriedir o ran terfynu'r denantiaeth benodol honno.

In terms of my amendments 63 and 64, I think it's important to have some clarity in terms of what is understood to be serious rent arrears. I think the Bill as drafted has no provision for serious rent arrears where rent is paid six-monthly, so this will now be added in if this amendment is passed, so the contract holders who pay their rent quarterly or every six months will be in serious arears when a rental payment is unpaid.

O ran fy ngwelliannau 63 a 64, rwy'n credu ei fod yn bwysig cael rhywfaint o eglurder o ran yr hyn a ddeellir i fod yn ôl-ddyledion rhent difrifol. Rwy'n meddwl nad oes gan y Bil fel y'i drafftiwyd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ôl-ddyledion rhent difrifol pan fo rhent yn cael ei dalu bob chwe mis, felly bydd hyn yn awr yn cael ei ychwanegu os caiff y gwelliant hwn ei basio, felly bydd y deiliaid contract sy'n talu eu rhent yn chwarterol neu bob chwe mis mewn ôl-ddyled ddifrifol pan fydd taliad rhent heb ei dalu.

Amendment 64 follows on from that and would change the reference in paragraph (d) from '25%' to '50%' and ensures that a person who pays the rent six-monthly is in serious arrears if the six months' rent is unpaid, but a person who pays an annual rent is in serious arrears if only three months' rent is unpaid. That is inconsistent. I think what we're trying to do is get rid of that inconsistency and allow for the cases where rent is paid on a different basis other than monthly, which does happen on many occasions. I hope, therefore, Minister, that you are able to accept those particular amendments.

Mae gwelliant 64 yn dilyn ymlaen o hynny a byddai'n newid y cyfeiriad ym mharagraff (d) o '25% 'i '50%' ac yn sicrhau bod person sy'n talu'r rhent bob chwe mis mewn ôl-ddyledion difrifol os yw'r rhent chwe mis heb ei dalu, ond mae rhywun sy'n talu rhent blynyddol mewn ôl-ddyledion difrifol os yw dim ond tri mis o rent heb ei dalu. Mae hynny'n anghyson. Rwy'n credu mai'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw cael gwared ar yr anghysondeb a chaniatáu ar gyfer yr achosion lle mae rhent yn cael ei dalu ar sail wahanol ar wahân i bob mis, sy'n digwydd ar sawl achlysur. Rwy'n gobeithio, felly, Weinidog, eich bod yn gallu derbyn y gwelliannau penodol hynny.

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:04 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for his comments and for withdrawing the two amendments he mentioned. The Government amendments I've brought forward will establish a minimum six-month period before possession can be sought.

Diolch i Peter Black am ei sylwadau ac am dynnu y ddau welliant a grybwyllodd yn ôl. Bydd gwelliannau'r Llywodraeth yr wyf wedi'u cyflwyno yn sefydlu cyfnod o chwe mis o leiaf cyn y gellir ceisio meddiant.

In relation to a couple of points that Peter raised, the amendments I've tabled will maintain the current statutory security of tenure. I've seen what Citizens Advice have had to say, and I think it's really important that my officials will engage very widely with stakeholders in developing model written contracts, for instance. I think this Bill is about transparency and fairness; it's about the relationship between the landlord and the contract holder; and it's about simplicity. I think the policy intent of the Bill is very clear and some of the asks that have been brought forward by quite a lot of the opposition amendments probably extend far beyond the policy intent of the Bill. So, I would ask Members to support the Government amendments.

O ran un neu ddau o bwyntiau a gododd Peter, bydd y gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno yn cynnal diogelwch statudol presennol deiliadaeth. Rwyf wedi gweld beth oedd gan Cyngor ar Bopeth i'w ddweud, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn y bydd fy swyddogion yn ymgysylltu'n eang iawn gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu contractau model ysgrifenedig, er enghraifft. Rwy'n credu bod y Bil hwn yn ymwneud â thryloywder a thegwch; mae'n ymwneud â'r berthynas rhwng y landlord a'r deiliad contract; ac mae'n ymwneud â symlrwydd. Rwy'n meddwl bod bwriad polisi'r Bil yn glir iawn ac mae rhai o'r cwestiynau sydd wedi cael eu dwyn ymlaen gan gryn dipyn o welliannau'r gwrthbleidiau yn ôl pob tebyg yn ymestyn ymhell y tu hwnt i fwriad polisi'r Bil. Felly, rwyf yn gofyn i'r Aelodau gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth.

15:05

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I need to declare an interest in this debate as my partner is a landlord. Thank you.

Mae angen i mi ddatgan buddiant yn y ddadl hon gan fod fy mhartner yn landlord. Diolch.

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 85 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] Object. We'll go to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 40, 12 abstentions, none against. Therefore, the amendment is carried.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 85 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Awn i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 40, 12 yn ymatal, dim un yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 85: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 85 agreed: For 40, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 85

Result of the vote on amendment 85

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 86.

Weinidog, gwelliant 86.

*Cynigiwyd gwelliant 86 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 86 (Lesley Griffiths) moved.*

15:06

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 86 be agreed. [Objection.] Object. We'll move to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 40, 12 abstentions, none against. Therefore, the amendment is carried.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 86 yn cael ei dderbyn. [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 40, 12 yn ymatal, dim un yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 86: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 86 agreed: For 40, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 86

Result of the vote on amendment 86

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 189.

Mark Isherwood, gwelliant 189.

*Cynigiwyd gwelliant 189 (Mark Isherwood).*

*Amendment 189 (Mark Isherwood) moved.*

15:07

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. If amendment 189 is not agreed to, amendment 209 falls. So, the question is amendment 189 be agreed. Are there any objections? [Objection.] Object. We'll move to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 16, no abstentions, 36 against. Therefore, the amendment falls.

Diolch. Os nad yw gwelliant 189 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 209 yn methu. Felly, y cwestiwn yw bod gwelliant 189 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 16, neb yn ymatal, 36 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 189: O blaid 16, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 189 not agreed: For 16, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 189

Result of the vote on amendment 189

*Methodd gwelliant 209.*

*Amendment 209 fell.*

### Grŵp 5: Cynyddu Rhenti (Gwelliannau 169 a 187)

### Group 5: Rent Increases (Amendments 169 and 187)

15:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to rent increases, and the lead amendment in the group is amendment 169. I call on Jocelyn Davies to move and speak to the lead amendment and any other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chodiadau rhent, a'r prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 169. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig y prif welliant ac unrhyw welliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 169 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 169 (Jocelyn Davies) moved.*

15:07

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. The amendments I've tabled in this group grant Welsh Ministers the power to issue supplementary regulations to restrict rent increases. It is time, I think, to rethink our approach to the private rented sector. The demographics of the sector have changed. The image of renters as being young and childfree, and people who would benefit from the flexibility and ease of movement provided by the private rented sector, I think, no longer holds true. There are larger numbers now of older people and families with children in the private rented sector, and that is markedly increasing. So, there's a real demand now for more secure, longer term tenancies to suit these groups.

Diolch i chi, Lywydd. Mae'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno yn y grŵp hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau atodol i gyfyngu ar godiadau rhent. Mae'n bryd, rwy'n meddwl, i ailfeddwl ein dull o ymdrin â'r sector rhentu preifat. Mae demograffeg y sector wedi newid. Nid yw'r ddelwedd o rentwyr fel bod yn ifanc a heb blant, ac yn bobl a fyddai'n elwa ar yr hyblygrwydd a'r rhwyddineb i symud a ddarperir gan y sector rhentu preifat, rwy'n credu, bellach yn wir. Mae niferoedd mwy erbyn hyn o bobl hŷn a theuluoedd â phlant yn y sector rhentu preifat, ac mae hynny'n cynyddu'n sylweddol. Felly, mae galw gwirioneddol bellach am denantiaethau mwy diogel, tymor hi i weddu i'r grwpiau hyn.

Restricting rent increases would deliver much greater stability for those renters. If you know whether or not your rent will remain affordable for you and your family into the future, you will know whether it's possible to stay in your home and put down roots. It would also help to ensure that more affordable homes are available. Although the cost of rent is increasing more slowly in Wales than in other parts of the UK, it is still rising, at a time when many people are struggling to make the basic cost of living. So, the problem is that the housing market is extremely volatile and complex, and, of course, any meddling by us politicians may have unforeseen circumstances.

Byddai cyfyngu ar godiadau rhent yn cyflawni llawer mwy o sefydlogrwydd ar gyfer y rhentwyr hynny. Os ydych yn gwybod pa un a fydd eich rhent yn parhau i fod yn fforddiadwy i chi a'ch teulu yn y dyfodol, byddwch yn gwybod a yw'n bosibl i aros yn eich cartref a bwrw gwreiddiau. Byddai hefyd yn helpu i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael. Er bod cost rhent yn codi yn arafach yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, mae'n dal i godi, ar adeg pan fo llawer o bobl yn ei chael yn anodd i fforddio costau byw sylfaenol. Felly, y broblem yw bod y farchnad dai yn hynod gyfnewidiol ac yn gymhleth, ac, wrth gwrs, gall unrhyw ymyrraeth gennym ni wleidyddion greu amgylchiadau na ellir eu rhagweld.

I think that the debate about exactly what action should be taken to control rent increases is far from settled. But it is a debate, I think, that we should be committed to having and to continue to have. So, I've tabled these amendments today to secure a further debate on the issue in the future, and, of course, these amendments give the Ministers power to use, if needed, in the future, the ability to control rent increase. It does not commit the Government to doing anything until it sees fit. Thank you, Presiding Officer.

Credaf fod y ddadl am ba gamau yn union y dylid eu cymryd i reoli codiadau mewn rhent yn bell o fod wedi'i datrys. Ond mae'n ddadl, rwy'n meddwl, y dylem fod yn ymrwymedig i'w chael ac i barhau i'w chael. Felly, rwyf wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn heddiw i sicrhau trafodaeth bellach ar y mater hwn yn y dyfodol, ac, wrth gwrs, mae'r gwelliannau hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion i ddefnyddio, os oes angen, yn y dyfodol, y gallu i reoli codiadau rhent. Nid yw'n ymrwymo'r Llywodraeth i wneud dim hyd nes y gwêl yn dda. Diolch i chi, Lywydd.

15:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Minister.

Diolch. Weinidog.

15:09 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I do understand that Jocelyn Davies is very keen to have a public debate and, maybe, the time is right to have that public debate regarding rent control, but there's been no public consultation on that matter in relation to this Bill. I think that to proceed without examining the matter in detail and engaging in a very broad-based consultation would cause me some concern. I think it would be premature to provide such powers in this Bill—powers that could have significant unintended consequences if exercised without thorough consideration.

Diolch. Rwy'n deall bod Jocelyn Davies yn awyddus iawn i gael dadl gyhoeddus ac, efallai, fod yr amser yn iawn i gael y ddadl gyhoeddus honno ynglŷn â rheolaeth rhent, ond ni fu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwnnw mewn cysylltiad â'r Bil hwn. Rwy'n meddwl y byddai mynd ymlaen heb edrych ar y mater yn fanwl ac ymgysylltu mewn ymgynghoriad eang iawn yn achosi cryn bryder i mi. Rwy'n credu ei bod yn rhy gynnar i roi pwerau o'r fath yn y Bil—pwerau a allai gael canlyniadau anfwriadol sylweddol pe byddent yn cael eu harfer heb ystyriaeth drylwyr.

The current pressures on our housing supply are very well documented, and I think we need to take particular care to avoid creating additional problems. I think if we introduced such provisions specifically in relation to the Welsh rental market without consideration of wider potential ramifications, that could again have further consequences, along with some practical problems.

Mae'r pwysau presennol ar ein cyflenwad tai wedi cael cryn sylw, ac rwy'n credu bod angen i ni gymryd gofal arbennig i osgoi creu problemau ychwanegol. Rwy'n meddwl pe byddem yn cyflwyno darpariaethau o'r fath yn benodol ar gyfer y farchnad rhentu yng Nghymru heb ystyried y goblygiadau ehangach posibl, y gallai hynny unwaith eto arwain at ganlyniadau pellach, ynghyd â rhai problemau ymarferol.

Jocelyn mentioned rents being a lot lower in Wales, and the Office for National Statistics figures from June of this year showed a much lower rate. I think it was 0.8 per cent, compared with 2.1 per cent in Scotland and 2.5 per cent in England. So, again, we've got to be very careful. We'd have to certain that the benefits outweigh the risk. I'm not sure of that at the current time, so I won't be supporting the amendments.

Soniodd Jocelyn fod rhenti yn llawer is yng Nghymru, ac mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o fis Mehefin y flwyddyn hon yn dangos cyfradd is o lawer. Rwy'n credu ei fod yn 0.8 y cant, o'i gymharu â 2.1 y cant yn yr Alban a 2.5 y cant yn Lloegr. Felly, unwaith eto, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn. Byddai'n rhaid i ni fod yn sicr bod y manteision yn fwy na'r risg. Nid wyf yn siŵr o hynny ar hyn o bryd, felly ni fyddaf yn cefnogi'r gwelliannau.

15:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies to reply to the debate.

Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

15:11 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Well, I wasn't really expecting the Minister to support me on this, but, of course, I think she's confused the point here because this would give the Ministers power to do something in the future, obviously following a public consultation. So, I think you've dug rather deep in the excuses box there for that one. You could have just said, of course, that you didn't want to take these powers because we wouldn't have expected them to be exercised before a proper debate, public consultation and everything that goes into using secondary legislation. I didn't say that the rents, of course, were a lot lower here in Wales. I said they were rising a lot slower, but that can change very, very quickly. So, I'm disappointed but not too surprised, but I would like to move to the vote, if you don't mind, Presiding Officer.

Diolch. Wel, nid oeddwn wir yn disgwyl i'r Gweinidog fy nghefnogi i ar hyn, ond, wrth gwrs, rwy'n meddwl ei bod wedi drysu'r pwynt yn y fan yma oherwydd byddai hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion i wneud rhywbeth yn y dyfodol, yn amlwg yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Felly, rwy'n credu eich bod wedi cloddio braidd yn ddwfn yn y blwch esgusodion ar gyfer yr un yna. Gallech fod wedi dweud, wrth gwrs, nad oeddech eisiau cymryd y pwerau hyn oherwydd na fyddem wedi disgwyl iddynt gael eu harfer cyn cael dadl briodol, ymgynghoriad cyhoeddus a phopeth sy'n gysylltiedig â defnyddio is-ddeddfwriaeth. Wnes i ddim dweud bod y rhenti, wrth gwrs, yn llawer is yma yng Nghymru. Dweud eu bod yn codi'n llawer arafach wnes i, ond gall hynny newid yn gyflym iawn, iawn. Felly, rwy'n siomedig ond nid wedi fy synnu'n ormodol, ond hoffwn symud i bleidlais, os nad oes gwahaniaeth gennych, Lywydd.

15:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 169 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll move to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, 11 abstentions and 27 against. [Interruption.] Okay. I'm told it's 14 in favour, 11 abstentions and 27 against. Therefore it falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 169 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Symudwn i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, 11 yn ymatal a 27 yn erbyn. [Torri ar draws.] Iawn. Rwy'n deall mai 14 sydd o blaid, 11 wedi ymatal a 27 yn erbyn. Mae'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 169: O blaid 14, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment 169 not agreed: For 14, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 169.

Result of the vote on amendment 169.

## Grŵp 6: Y Landlord yn Darparu Gwybodaeth (Gwelliannau 87, 8, 88, 89, 91, 92, 93, 94, 95, 190, 191, 96, 29, 192, 30, 31, 32, 33, 97, 116, 123, 72, 73, 75 a 159)

## Group 6: Provision of Information by Landlord (Amendments 87, 8, 88, 89, 91, 92, 93, 94, 95, 190, 191, 96, 29, 192, 30, 31, 32, 33, 97, 116, 123, 72, 73, 75 and 159)

15:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to the provision of information by landlord. The lead amendment in this group is amendment 87. I call on the Minister to move and speak to that amendment and the other amendments in the group. Minister.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â'r ddarpariaeth o wybodaeth gan landlord. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 87. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 87 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 87 (Lesley Griffiths) moved.*

15:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. If I could turn first to amendments 8, 72 and 73 from Peter Black, which would make issuing contracts electronically the default position. As I said at Stage 2, I don't support this amendment because I do fear it would disadvantage people who don't have access to IT, or indeed if they're less IT literate. If the contract holder is happy to receive the contract electronically, then the Bill already provides for the contract to be issued in this way. I think that's a much more pragmatic approach.

Diolch. Pe gallwn i droi yn gyntaf at welliannau 8, 72 a 73 gan Peter Black, a fyddai'n gwneud cyhoeddi contractau yn electronig y sefyllfa ddiofyn. Fel y dywedais yng Nghyfnod 2, nid wyf yn cefnogi'r gwelliant hwn oherwydd fy mod yn ofni y byddai'n anfantais i bobl nad oes ganddynt fynediad at TG, neu yn wir os ydynt yn llai TG llythrennog. Os bydd y deiliad contract yn hapus i dderbyn y contract yn electronig, yna mae'r Bil eisoes yn darparu ar gyfer i'r contract gael ei gyhoeddi yn y modd hwn. Rwy'n credu bod hwnnw'n ddull llawer mwy ymarferol.

Similarly, I do not consider amendment 75 is necessary as the matters it addresses are already covered under the Interpretation Act 1978 and the Electronic Transactions Act 2000.

Yn yr un modd, nid wyf yn ystyried gwelliant 75 yn angenrheidiol gan fod y materion y mae'n ymdrin â nhw eisoes yn dod dan Ddeddf Dehongli 1978 a Deddf Trafodion Electronig 2000.

Amendments 190, 191 and 192 from Mark Isherwood would increase from two weeks to three weeks the time a landlord has to issue information to the contract holder, for instance a contact address. I don’t accept that the two-week period is problematic. Again, as I said at Stage 2, the Bill only provides a time limit by which such information must be provided.

Byddai gwelliannau 190, 191 a 192 gan Mark Isherwood yn cynyddu o bythefnos i dair wythnos yr amser sydd gan landlord i gyflwyno gwybodaeth i'r deiliad contract, er enghraifft, cyfeiriad cyswllt. Nid wyf yn derbyn bod y cyfnod o bythefnos yn broblemus. Unwaith eto, fel y dywedais yng Nghyfnod 2, y cwbl mae'r Bil yn ei wneud yw darparu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid darparu gwybodaeth o'r fath.

Amendment 29 from Peter Black replicates the amendment he submitted at Stage 2. It’s about ensuring that a contract holder joining a contract receives a written statement of the contract. When this was discussed in committee, I did say I would bring forward amendments today that address the concern, and that’s what I’ve brought forward in the Government amendments.

Mae gwelliant 29 gan Peter Black yn ailadrodd y gwelliant a gyflwynwyd ganddo yng Nghyfnod 2. Mae'n ymwneud â sicrhau bod deiliad contract sy’n ymuno â chontract yn derbyn datganiad ysgrifenedig o'r contract. Pan oedd hyn yn cael ei drafod yn y pwyllgor, dywedais y byddwn yn cyflwyno gwelliannau heddiw sy'n mynd i'r afael â'r pryder, a dyna beth yr wyf wedi ei gyflwyno yng ngwelliannau'r Llywodraeth.

So, where there is change in contract holder, Government amendment 87 requires the landlord to provide a copy of the written statement within 14 days. A number of other amendments in this group are also necessary to ensure that the provision is enforceable. These are consequential amendments to provide the timescales in which the written statement must be given, and also to ensure the current compensation provisions also apply to this situation.

Felly, lle mae newid o ran y deiliad contract, mae gwelliant 87 y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddarparu copi o'r datganiad ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod. Mae nifer o welliannau eraill yn y grŵp hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau hefyd bod y ddarpariaeth yn orfodadwy. Mae'r rhain yn newidiadau canlyniadol i ddarparu'r terfynau amser pryd mae'n rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gael ei roi, a hefyd i sicrhau bod y darpariaethau iawndal presennol hefyd yn berthnasol i'r sefyllfa hon.

Additionally, amendment 94 provides that the written statement given to the new contract holder must reflect any changes to the terms since the beginning of the contract. So, I believe our amendments achieve the same objective, but more effectively. Therefore, I would ask Members to reject Peter Black’s amendment and support the Government’s amendment.

Yn ogystal, mae gwelliant 94 yn darparu bod yn rhaid i'r datganiad ysgrifenedig a roddir i'r deiliad cytundeb newydd adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r telerau ers dechrau'r contract. Felly, rwy’n credu bod ein gwelliannau yn cyflawni'r un amcan, ond yn fwy effeithiol. Felly, rwyf yn gofyn i'r Aelodau wrthod gwelliant Peter Black, a chefnogi gwelliant y Llywodraeth.

Amendments 30 to 33 from Peter Black would alter the compensation arrangements that apply if the landlord does not comply with the requirement to provide information under section 39. Again, at Stage 2 I mentioned that section 87 already provides for compensation to be equivalent to rent, with section 88 providing a right for the contract holder to set off rent against the compensation. The Bill ensures that both contract holders and landlords are very clear as to what their rights and responsibilities are, and the sanctions that would apply if the landlord did not comply with the requirements. Under Peter Black’s amendments, each individual case would then have to go to a residential property tribunal to determine the compensation payable, and again that would have significant resourcing issues. It would also affect the procedure for setting off the compensation against rent due, as that would have to wait until the tribunal had determined the claim. So, for this reason I don’t support the amendments.

Byddai Gwelliannau 30 a 33 gan Peter Black yn newid y trefniadau iawndal sy'n berthnasol os nad yw'r landlord yn cydymffurfio â'r gofyniad i roi gwybodaeth o dan adran 39. Unwaith eto, yng Nghyfnod 2 soniais fod adran 87 eisoes yn darparu i iawndal gyfateb i rent, gydag adran 88 yn darparu hawl i ddeiliad y contract osod y rhent yn erbyn yr iawndal. Mae'r Bil yn sicrhau bod y deiliaid contract a landlordiaid yn glir iawn ynghylch beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a’r cosbau a fyddai'n berthnasol os nad yw'r landlord yn cydymffurfio â'r gofynion. O dan welliannau Peter Black, byddai'n rhaid i bob achos unigol wedyn fynd i dribiwnlys eiddo preswyl i benderfynu ar yr iawndal sy'n daladwy, ac unwaith eto byddai problemau adnoddau sylweddol gyda hynny. Byddai hefyd yn effeithio ar y weithdrefn ar gyfer gosod yr iawndal yn erbyn rhent sy'n ddyledus, gan y byddai'n rhaid i hynny aros nes bod y tribiwnlys wedi penderfynu ar yr hawliad. Felly, am y rheswm hwn nid wyf yn cefnogi'r gwelliannau.

15:16 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is one of many practical concerns raised by landlords' representative organisations, who are concerned that they asked the Minister five times to meet her personally to discuss concerns, and she neglected to meet them on any single occasion. She would have heard why this was one of their concerns.

Mae hwn yn un o nifer o bryderon ymarferol a godwyd gan sefydliadau sy'n cynrychioli landlordiaid, sy'n pryderu eu bod wedi gofyn i'r Gweinidog bum gwaith i gael cwrdd â hi yn bersonol i drafod pryderon, ac nid yw hi wedi cwrdd â nhw ddim un waith. Byddai hi wedi clywed pam mae hyn yn un o'u pryderon.

Replacing 14 days with 21 days as the period, starting with the occupation date of the contract, within which the landlord must give the contract holder notice of an address or a change of address, addresses the practical problem highlighted by landlords, recognising that almost nine in 10 of them only have one or two properties. They're not businesses with staff and offices, but people living normal lives. They say that 14 days doesn't provide adequate time to compensate for circumstances—unforeseen, normally, but sometimes not—that may arise, such as holidays, hospital visits, the need to seek advice from legal professionals, and the gaining of relevant information from superior landlords, which is a factor addressed in other elements of this Bill. These are practical constraints that people will legitimately and genuinely face, and this is a simple, modifying set of amendments to ensure that, in such circumstances, unforeseen and undesirable consequences don't arise. I regret that the Minister won't hear the concern raised by the sector in this respect.

Mae disodli 14 diwrnod gyda 21 diwrnod fel y cyfnod, gan ddechrau gyda dyddiad meddiannu'r contract, pryd y mae'n rhaid i'r landlord roi rhybudd i ddeiliad contract o gyfeiriad neu newid cyfeiriad, yn mynd i'r afael â'r broblem ymarferol a amlygwyd gan landlordiaid, gan gydnabod mai dim ond un neu ddau eiddo sydd gan bron i naw o bob 10 ohonynt. Nid ydynt yn fusnesau gyda staff a swyddfeydd, ond pobl sy'n byw bywydau normal. Maent yn dweud nad yw 14 diwrnod yn darparu digon o amser i wneud iawn am amgylchiadau—na ellir eu rhagweld, fel arfer, ond weithiau ddim—a all godi, megis gwyliau, ymweliadau â'r ysbyty, yr angen i ofyn am gyngor gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol, a chael gwybodaeth berthnasol gan landlordiaid uwchraddol, sy'n ffactor y rhoddir sylw iddo mewn elfennau eraill o'r Bil hwn. Mae'r rhain yn gyfyngiadau ymarferol y bydd pobl yn gyfreithlon ac yn wirioneddol yn eu hwynebu, ac mae hon yn gyfres syml, addasol o welliannau i sicrhau, mewn amgylchiadau o'r fath, na fydd canlyniadau annisgwyl ac annymunol yn codi. Gresynaf nad yw'r Gweinidog yn fodlon clywed y pryderon a godwyd gan y sector yn hyn o beth.

15:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm happy to not move amendment 29 in the light of the Minister's own amendment, which I'm happy to support. In relation to the other amendments in this group, amendment 8 concurs with recommendation 8 of the committee, which is that the Minister should amend the Bill so that the issue of occupation contracts is digital by default. I understand the Minister's concerns in relation to many people not having access to digital means, but that doesn't mean to say that this is compulsory—it means that it is by default. In fact, the subsequent amendment 75, which I've also tabled, gives landlords the reassurance that they can use the method of communication most suitable for a tenant, and also some clarity in the timescales that these methods would work on. So, I think it's important that, although it's obviously available by default digitally, that does not mean to say that that is the only means available to tenants.

Rwy'n hapus i beidio â chynnig gwelliant 29 yng ngoleuni gwelliant y Gweinidog ei hun, yr wyf yn hapus i'w gefnogi. O ran y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn, mae gwelliant 8 yn cytuno ag argymhelliad 8 y pwyllgor, sef y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil fel bod y mater o gontractau meddiannaeth yn ddigidol yn ddiofyn. Deallaf bryderon y Gweinidog o ran bod llawer o bobl nad oes ganddynt fynediad at ddulliau digidol, ond nid yw hynny'n golygu bod hyn yn orfodol—mae'n golygu ei fod yn ddiofyn. Yn wir, mae'r gwelliant 75 dilynol, yr wyf hefyd wedi'i gyflwyno, yn rhoi sicrwydd i landlordiaid y cânt ddefnyddio'r dull cyfathrebu mwyaf addas ar gyfer tenant, a hefyd rhywfaint o eglurder yn y graddfeydd amser y byddai'r dulliau hyn yn gweithio arnynt. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig, er ei fod yn amlwg ar gael yn ddiofyn yn ddigidol, nid yw hynny'n golygu mai dyna'r unig ffordd sydd ar gael i denantiaid.

I think the issue is, of course, that the amount of paperwork associated with this Bill would most probably clear a small forest on an annual basis, given the size of the contracts. I think everyone is concerned about that paperwork, and I think it's useful—many people do work through digital, and many people do work in that way, and I think enabling it to be by default that it should be issued digitally would assist both landlords and tenants. If a tenant feels that they do not want it digitally and they say, 'We don't have access to that', they can have it delivered by an alternative means. I think that's the point. This is not a compulsory, 'You must have it digitally'; it is saying that should be the default position, but of course things can change in relation to that.

My amendments 181 and 182 reinstate ground 7A, which is the absolute ground for possession found in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014. It enables landlords to apply for possession following a conviction for a serious offence. This absolute ground for possession is used in only the most serious cases, and offers significant protection for victims, for neighbours, and witnesses. Without it, they may be required to go to court again, to give evidence in a second court proceedings, in order for the landlord to remove the tenant from the property.

Mae fy ngwelliannau 181 a 182 yn adfer sail 7A, sef y sail absoliwt ar gyfer meddiant a geir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Mae'n galluogi landlordiaid i wneud cais am feddiant yn dilyn collfarn am drosedd ddifrifol. Defnyddir y sail absoliwt hon dros feddiannu yn yr achosion mwyaf difrifol yn unig, ac mae'n cynnig diogelwch sylweddol i ddioddefwyr, i gymdogion, a thystion. Hebddi, efallai y bydd gofyn iddynt fynd i'r llys eto, i roi tystiolaeth mewn ail achos llys, er mwyn i'r landlord gael gwared â'r tenant o'r eiddo.

Ground 7A is used very rarely, but it is a vital tool, especially for housing associations, to deal with some of the most disruptive and dangerous behaviour in their tenants. Social landlords tell me that, without it, victims must then face a second trial—a civil trial—on top of the criminal proceedings, where a guilty verdict, of course, has already been returned. So, I would urge the Minister to take the concerns of those in the sector seriously. This Bill must not weaken the protection available against anti-social behaviour, because we can't claim to have a victim-centred approach if we ignore the representations from the sector on this matter. Thank you, Presiding Officer.

Mae sail 7A yn cael ei defnyddio yn anaml iawn, ond mae'n offeryn hanfodol, yn enwedig ar gyfer cymdeithasau tai, i ymdrin â rhywfaint o'r ymddygiad mwyaf aflonyddgar a pheryglus gan eu tenantiaid. Mae landlordiaid cymdeithasol yn dweud wrthyf, heb y sail hon, bod yn rhaid i ddioddefwyr wedyn wynebu ail dreial—treial sifil—yn ogystal â'r achos troseddol, lle mae person eisoes, wrth gwrs, wedi cael ei ddyfarnu'n euog. Felly, byddwn yn annog y Gweinidog i ystyried yn ddifrifol bryderon y rheini sydd yn y sector. Ni ddylai'r Bil hwn wanhau'r amddiffyniad sydd ar gael yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd ni allwn honni bod gennym ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr os ydym yn anwybyddu'r sylwadau gan y sector ar y mater hwn. Diolch i chi, Lywydd.

15:40

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Similarly, based on representations made by the residential social landlords sector, including very much Community Housing Cymru, I move the amendments, or seek to move the amendments, 195 and 206 in order to strengthen section 55 to place the responsibility for household members and visitors on the contract holder. I acknowledge that amendment 174, as we've heard, would place prohibitions on contract holders regarding anti-social behaviour applying to anyone living in or visiting the property, and, clearly, we seek to pursue that alongside Plaid Cymru and, I understand, potentially, others.

Yn yr un modd, yn seiliedig ar sylwadau a wnaed gan y sector landlordiaid cymdeithasol preswyl, gan gynnwys Cartrefi Cymunedol Cymru yn wir, cynigiaf welliannau, neu ceisiaf gynnig gwelliannau, 195 a 206 er mwyn cryfhau adran 55 i osod y cyfrifoldeb am aelodau'r cartref ac ymwelwyr ar y deiliad contract. Rwy'n cydnabod bod gwelliant 174, fel yr ydym wedi clywed, yn gosod gwaharddiadau ar ddeiliaid contract o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud ag unrhyw un sy'n byw neu'n ymweld â'r eiddo, ac, yn amlwg, rydym yn ceisio mynd ar drywydd hynny ochr yn ochr â Phlaid Cymru ac eraill o bosibl, yn ôl a ddeallaf.

As the police and crime commissioner for Gwent has written to Members, the Bill has the potential to hinder a victim-centred approach: in effect, the Bill would change the focus introduced in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 that aimed to place victims at the heart of any response to anti-social behaviour. Regarding section 65 on anti-social behaviour and other prohibited conduct, he said that this will remove the current position, which places responsibility for household members and visitors on the tenant. The introduction of the 'to allow, incite or encourage' someone to do something is vague and places the onus on the landlord to prove the tenant has allowed, incited or encouraged someone to anti-social behaviour. This is likely to cause uncertainty in court, particularly when a tenant argues they were not responsible for the anti-social behaviour. He says that this approach does not effectively hold the tenant to account for the full range of anti-social behaviour activities.

Fel yr ysgrifennodd comisiynydd heddlu a throseddu Gwent at yr Aelodau, mae gan y Bil y potensial i rwystro dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr: mewn gwirionedd, byddai'r Bil yn newid y ffocws a gyflwynwyd yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 a oedd yn ceisio gosod dioddefwyr wrth wraidd unrhyw ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ran adran 65 ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall, dywedodd y bydd hyn yn cael gwared ar y sefyllfa bresennol, sy'n gosod cyfrifoldeb dros aelodau'r cartref ac ymwelwyr ar y tenant. Mae cyflwyno 'i ganiatáu, ysgogi neu annog' rhywun i wneud rhywbeth yn amwys ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y landlord i brofi bod y tenant wedi caniatáu, ysgogi neu annog rhywun i gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn debygol o achosi ansicrwydd yn y llys, yn enwedig pan fo tenant yn dadlau nad oedd yn gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n dweud nad yw'r dull hwn yn effeithiol ar gyfer dal y tenant i gyfrif am yr ystod lawn o weithgareddau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Similarly, Linc Cymru Housing Association and Victims in Wales said that, 'With regard to the prohibitive conduct clause, responsible social landlords wish to ensure that tenants are treated fairly. When dealing with acts perpetrated by a tenant, family or visitors we feel this could be done as it is now through looking at this as part of the question of reasonableness rather than the current wording of the prohibited conduct clause, which creates uncertainty and, therefore, expense and time for those having to work within the statutory framework, leaving the victims and communities to suffer. Leaving it to be dealt with as part of the reasonableness considerations means that, having heard all the evidence, a judge will be in a much better position to take a view of accountability and managing the anti-social behaviour going forward. This will safeguard those tenants which need it but also allow the courts to deal with those who continue to make neighbours' lives intolerable.'

Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Tai Linc Cymru a Dioddefwyr yng Nghymru, 'Mewn perthynas â'r cymal ymddygiad afresymol, mae landlordiaid cymdeithasol cyfrifol yn dymuno sicrhau bod tenantiaid yn cael eu trin yn deg. Wrth ymdrin â gweithredoedd a gyflawnir gan denant, teulu neu ymwelwyr rydym yn teimlo y gallai hyn gael ei wneud fel sy'n digwydd nawr drwy edrych ar hyn fel rhan o'r cwestiwn rhesymoldeb yn hytrach na geiriad presennol y cymal ymddygiad gwaharddedig, sy'n golygu ansicrwydd ac, felly, gost ac amser i'r rhai sy'n gorfod gweithio o fewn y fframwaith statudol, gan adael y dioddefwyr a chymunedau i ddioddef. Mae gadael i hyn gael ei drin fel rhan o'r ystyriaethau rhesymol yn golygu, ar ôl clywed yr holl dystiolaeth, y bydd barnwr mewn sefyllfa llawer gwell i gymryd safbwynt o atebolrwydd a rheoli'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol. Bydd hyn yn diogelu'r tenantiaid hynny sydd ei angen, ond hefyd yn caniatáu i'r llysoedd ymdrin â'r rhai sy'n parhau i wneud bywydau cymdogion yn annioddefol.'

Now, I note that my amendments, certainly 195, would clash with amendment 174—195 putting a safeguard into the process that the court has to consider actions taken by the contract holder. I'm advised by Assembly lawyers that amendments 195 and 206 give the court a direct power to make a possession order in the right circumstances, whereas amendment 174 places the obligation on the other resident or visitor, and, although 174 doesn't prevent a court from making an order, the link with the contract holder being the person with obligations under the contract is less direct. So, 174, according to Assembly lawyers, is actually a weaker way of achieving what we clearly both seek to achieve. Nonetheless, because I want this to pass, we will support 174 and, if that passes, 175. But if, as I hope it doesn't, it falls, I would urge others to then support us on 195 and 206. Thank you.

Nawr, rwy'n nodi y byddai fy ngwelliannau i, yn sicr 195, yn gwrthdaro gyda gwelliant 174—195 yn rhoi cam diogelu yn y broses a bod rhaid i'r llys ystyried camau a gymerwyd gan y deiliad contract. Cynghorir fi gan gyfreithwyr y Cynulliad fod gwelliannau 195 a 206 yn rhoi pŵer uniongyrchol i'r llys i wneud gorchymyn ildio meddiant yn yr amgylchiadau cywir, tra bod gwelliant 174 yn gosod rhwymedigaeth ar y preswylydd neu'r ymwelydd arall. Ac er nad yw 174 yn rhwystro llys rhag gwneud gorchymyn, mae'r cysylltiad â'r deiliad contract, sef y person â rhwymedigaethau o dan y contract, yn llai uniongyrchol. Felly, mae 174, yn ôl cyfreithwyr y Cynulliad, mewn gwirionedd yn ffordd wannach o gyflawni'r hyn y mae'r ddau ohonom yn amlwg yn ceisio ei gyflawni. Serch hynny, oherwydd fy mod am i'r gwelliant hwn basio, byddwn yn cefnogi 174 ac, os yw hwnnw'n pasio, 175. Ond os bydd yn methu, ac rwy'n gobeithio na fydd, byddwn yn annog pobl eraill wedyn i'n cefnogi ar 195 a 206. Diolch.

15:43

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My amendment 34 is in line with recommendation 25 of the committee's report, which suggests that the Minister should amend section 55 of the Bill to ensure it applies to the partner of the contract holder where that contract holder is the perpetrator of domestic abuse and the partner does not live in the dwelling or in the locality of the dwelling. I think it's important that the contract holder does take responsibility for the behaviour of the people on their property and the people they associate with. I think this is an important amendment in line with that particular proposal. I also support Jocelyn Davies' amendments, particularly in light of the representation that we've all received, I think, from the police commissioner for Gwent and from the sector. I think it's absolutely important that we don't water down the response that is able to be applied to anti-social behaviour by tenants in this Bill and that tenants are forced to take responsibility for their own actions and the actions of people on their property. For that reason I think it's important that the amendments that Jocelyn Davies has brought forward, which I think are stronger than that of the Minister's at 98, are supported if we are to ensure that that regime continues in Wales, irrespective of what happens elsewhere in the UK.

Mae fy ngwelliant 34 yn unol ag argymhelliad 25 o adroddiad y pwyllgor, sy'n awgrymu y dylai'r Gweinidog ddiwygio adran 55 y Bil i sicrhau ei bod yn berthnasol i bartner y deiliad contract os mai'r deiliad contract sy'n cyflawni'r cam-drin domestig ac nad yw'r partner yn byw yn yr annedd neu yng nghymdogaeth yr annedd. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod deiliad y cytundeb yn cymryd cyfrifoldeb dros ymddygiad y bobl ar ei eiddo a'r bobl y mae'n cysylltu â nhw. Rwy'n credu bod hwn yn welliant pwysig yn unol â'r cynnig penodol. Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliannau Jocelyn Davies, yn enwedig o ystyried y gynrychiolaeth yr ydym i gyd wedi'i derbyn, rwy'n meddwl, gan gomisiynydd yr heddlu ar gyfer Gwent a gan y sector. Rwy'n credu ei bod yn hollol bwysig nad ydym yn glastwreiddio'r ymateb y gellir ei gymhwyso i ymddygiad gwrthgymdeithasol gan denantiaid yn y Bil hwn, a bod tenantiaid yn cael eu gorfodi i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain a gweithredoedd pobl ar eu heiddo. Am y rheswm hwnnw rwy'n credu ei bod yn bwysig cefnogi'r gwelliannau y mae Jocelyn Davies wedi'u dwyn ymlaen, sydd yn fy marn i yn gryfach nag un y Gweinidog ar 98, os ydym am sicrhau bod y drefn yn parhau yng Nghymru, beth bynnag sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y DU.

15:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'll start with Peter Black's amendment. That would introduce specific references to gender-based violence, domestic abuse and sexual violence into the prohibited conduct term. I fully support Peter's motivation, but I do believe that it would actually have the opposite effect of what he's trying to achieve. It would set a much higher threshold for breaching the contract for such behaviour than the Bill currently sets, and such abuse already falls within the test of behaviour capable of causing nuisance or annoyance to anyone living in the dwelling or the locality.

Rwy'n dechrau gyda gwelliant Peter Black. Byddai hwnnw'n cyflwyno cyfeiriadau penodol at drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i'r ymadrodd ymddygiad gwaharddedig. Rwy'n llwyr gefnogi cymhelliant Peter, ond rwy'n credu y byddai mewn gwirionedd yn cael yr effaith groes i'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Byddai'n gosod trothwy uwch o lawer am dorri contract ar gyfer ymddygiad o'r fath nag y mae'r Bil yn ei osod ar hyn o bryd, ac mae cam-drin o'r fath eisoes yn dod o fewn y prawf ymddygiad sy'n gallu achosi niwsans neu flinder i unrhyw un sy'n byw yn yr annedd neu'r ardal leol.

Including 'violence' in the definition would run a significant risk of the courts not making an order, save where violence has occurred. The amendment would run the risk of undermining the existing, much broader approach that we have. I don't really think that's the outcome that any of us would want.

Byddai cynnwys 'trais' yn y diffiniad yn peri risg sylweddol o weld y llysoedd yn peidio â gwneud gorchymyn, ac eithrio lle mae trais wedi digwydd. Byddai'r gwelliant mewn perygl o danseilio'r dull cyfredol, llawer ehangach sydd gennym eisoes. Dwi ddim yn credu mai dyna'r canlyniad y byddai unrhyw un ohonom ei eisiau.

I believe the test for intervening in such behaviours should be the same as for intervening in other forms of anti-social behaviour, and therefore I cannot support the amendment. However, I do recognise we all wish to ensure contract holders understand the test of nuisance or annoyance also applies to domestic abuse. That can be achieved through using an existing power in the Bill to require occupation contracts to contain certain explanatory information.

Rwy'n credu y dylai'r prawf ar gyfer ymyrryd mewn ymddygiad o'r fath fod yr un fath ag ar gyfer ymyrryd mewn mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac felly ni allaf gefnogi'r gwelliant. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod ein bod i gyd am sicrhau bod deiliaid contract yn deall bod y prawf o niwsans neu flinder hefyd yn berthnasol i gam-drin domestig. Gellir cyflawni hynny drwy ddefnyddio pŵer presennol yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i gontractau meddiannaeth gynnwys gwybodaeth esboniadol benodol.

Amendments 171 to 173 from Jocelyn Davies introduce the word 'harassment' into the definition. However, since the existing definition of 'nuisance or annoyance' also encompasses harassment, as well as the more severe behaviours of causing alarm or distress, I think it is unnecessary and, again, I think it could give rise to a risk that the current broad terms might take on a narrower interpretation. 'Nuisance or annoyance' is the recognised definition of housing-related anti-social behaviour, and I see no reason to depart from it.

Mae gwelliannau 171 i 173 gan Jocelyn Davies yn cyflwyno'r gair 'aflonyddu' yn y diffiniad. Fodd bynnag, gan fod y diffiniad presennol o 'niwsans neu flinder' hefyd yn cwmpasu aflonyddu, yn ogystal â'r ymddygiad mwy difrifol o achosi braw neu ofid, rwy'n credu ei fod yn ddiangen ac, unwaith eto, rwy'n meddwl y gallai achosi'r risg y gallai'r termau bras presennol fagu dehongliad cul. 'Niwsans neu flinder' yw'r diffiniad cydnabyddedig o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai, ac ni welaf unrhyw reswm i wyro oddi wrtho.

Regarding amendment 174, also from Jocelyn Davies, this states visitors and others living in the dwelling are subject to the prohibitions under section 55. However, this would not work as it does not place a responsibility for any breach on the contract holder. The term is one which binds the contract holder as a party to the occupation contract. We don't agree with Jocelyn's legal advice; section 55 can be amended should circumstances change and new matters need to be considered.

O ran gwelliant 174, hefyd gan Jocelyn Davies, mae hwn yn datgan bod ymwelwyr ac eraill sy'n byw yn yr annedd yn ddarostyngedig i'r gwaharddiadau o dan adran 55. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn gweithio gan nad yw'n gosod cyfrifoldeb am unrhyw dorri ar y deiliad contract. Mae'r term yn un sy'n rhwymo'r deiliad contract fel rhan o'r contract meddiannaeth. Nid ydym yn cytuno â chyngor cyfreithiol Jocelyn; gellir diwygio adran 55 os bydd amgylchiadau yn newid a bod angen ystyried materion newydd.

However, I did make a commitment at Stage 2 to consider how best to ensure action can be taken against contract holders where they have not taken steps to prevent anti-social behaviour by others. Amendment 98 will achieve this.

Fodd bynnag, fe wnes i ymrwymiad yng Nghyfnod 2 i ystyried y ffordd orau o sicrhau y gellir cymryd camau yn erbyn deiliaid contractau lle nad ydynt wedi cymryd camau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol gan eraill. Bydd gwelliant 98 yn cyflawni hyn.

Amendment 175 from Jocelyn Davies seeks to apply the 'prohibited conduct' term to pets. However, current law already has effect that a contract holder would be responsible for nuisance caused by, or by the keeping of, domestic pets. Therefore, I do not consider this amendment is necessary.

Mae gwelliant 175 gan Jocelyn Davies yn ceisio cymhwyso'r term 'ymddygiad gwaharddedig' i anifeiliaid anwes. Fodd bynnag, mae cyfraith bresennol eisoes yn pennu y byddai deiliad contract yn gyfrifol am niwsans a achosir gan, neu drwy gadw, anifeiliaid anwes yn y cartref. Felly, nid wyf yn ystyried bod y gwelliant hwn yn angenrheidiol.

Amendments 181 to 184 from Jocelyn Davies seek to reinstate in the Bill the mandatory ground for eviction which was introduced under the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014. In keeping with the Law Commission's recommendations to avoid mandatory grounds wherever possible, the Bill did not include such a ground. That's the reason why the current mandatory ground 8 for rent arrears is not included in the Bill.

Mae gwelliannau 181 i 184 gan Jocelyn Davies yn ceisio ailsefydlu yn y Bil y sail orfodol ar gyfer troi allan a gyflwynwyd o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith i osgoi seiliau gorfodol lle bynnag y bo modd, nid oedd y Bil yn cynnwys sail o'r fath. Dyna'r rheswm pam nad yw'r sail 8 orfodol bresennol am ôl-ddyledion rhent yn cael ei chynnwys yn y Bil.

In addition to following the Law Commission's recommendations, mandatory grounds are still subject to consideration by the courts in accordance with human rights law, and I'm very mindful of the human rights dimension of this Bill. I think it's very important we keep on the right side of human rights legislation, and I believe the current approach to be the right one. As I said at Stage 2, I believe it is possible for landlords to take very robust action to address anti-social behaviour under the Bill as currently drafted, without creating an additional mandatory ground.

Yn ogystal â dilyn argymhellion Comisiwn y Gyfraith, mae seiliau gorfodol yn dal i fod yn amodol ar ystyriaeth gan y llysoedd yn unol â chyfraith hawliau dynol, ac rwy'n ymwybodol iawn o ddimensiwn hawliau dynol y Bil hwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cadw ar yr ochr iawn i ddeddfwriaeth hawliau dynol, ac rwy'n credu mai'r dull presennol yw'r un cywir. Fel y dywedais yng Nghyfnod 2, rwy'n credu ei bod yn bosibl i landlordiaid gymryd camau cadarn iawn i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, heb greu sail orfodol ychwanegol.

I know the issue of witnesses returning to court is something that Jocelyn Davies is very concerned about, and I do recognise those concerns. However, where there has already been a conviction, the court can take that into account without the need to reconsider the evidence.

Rwy'n gwybod bod y mater o dystion yn dychwelyd i'r llys yn rhywbeth y mae Jocelyn Davies yn bryderus iawn amdano, ac rwy'n cydnabod y pryderon hynny. Fodd bynnag, lle bu collfarn eisoes, gall y llys ystyried hynny heb yr angen i ailystyried y dystiolaeth.

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies to reply to the debate.

Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

15:49 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood and I obviously tried to achieve the same aim. We will probably disagree on which is best, but we will be supporting his amendments in any case, and also supporting Peter Black's amendments. I thank Peter for stressing the need to not water down current powers.

Mae Mark Isherwood a minnau yn amlwg yn ceisio cyrraedd yr un nod. Mae'n debyg y byddwn yn anghytuno ar ba un sydd orau, ond byddwn yn cefnogi ei welliannau beth bynnag, a hefyd yn cefnogi gwelliannau Peter Black. Diolch i Peter am bwysleisio'r angen i beidio glastwreiddio pwerau presennol.

I think it's a shame that the Minister thinks that my amendments are unnecessary. Of course, she's entitled to her view, but has obviously still got a few tricks left in that excuses box. Practitioners are very supportive of the amendments and assisted me in putting them together. Obviously, we'll be supporting her own amendment if ours should fail, and it looks like the writing's on the wall there because I suppose hers is better than having nothing at all. I think the point on the mandatory ground is, yes, of course, the courts can take into consideration that there's been a previous conviction, but it does still require that second court case and still requires people to come forward again, which, of course, that mandatory ground would have done away with. Obviously, I'm not going to be able to persuade the Minister to change her mind, so I think we should move to the vote.

Rwy'n credu ei bod yn drueni bod y Gweinidog yn meddwl bod fy ngwelliannau yn ddiangen. Wrth gwrs, mae ganddi hawl i'w barn, ond mae'n amlwg bod ganddi ychydig o driciau yn dal ar ôl yn y blwch esgusodion. Mae ymarferwyr yn gefnogol iawn i'r gwelliannau ac wedi fy nghynorthwyo wrth eu rhoi at ei gilydd. Yn amlwg, byddwn yn cefnogi ei gwelliant hi os bydd ein gwelliant ni yn methu, ac mae'n edrych fel bod yr ysgrifen ar y wal yno oherwydd mae'n debyg bod ei gwelliant hi yn well na chael dim byd o gwbl. Rwy'n meddwl mai'r pwynt ar y sail orfodol yw, ie, wrth gwrs, gall y llysoedd gymryd i ystyriaeth y bu collfarn flaenorol, ond mae angen yr ail achos llys o hyd ac mae angen i bobl ddod ymlaen eto, ac wrth gwrs, byddai'r sail orfodol wedi cael gwared ar hynny. Yn amlwg, dydw i ddim yn mynd i allu perswadio'r Gweinidog i newid ei meddwl, felly rwy'n credu y dylem symud at y bleidlais.

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, the question is that amendment 171 be agreed. Any objections? [Objection.] Objection. Move to the vote, and open the vote. Close the vote. Twenty-seven in favour. No abstentions. Twenty-seven against. So, I then cast my vote against. So, it's 28 to 27, so the amendment falls.

Felly, y cwestiwn yw bod gwelliant 171 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwch i bleidlais, ac agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Saith ar hugain o blaid. Dim ymatal. Saith ar hugain yn erbyn. Felly, rwyf wedyn wedi bwrw fy mhleidlais yn erbyn. Felly, mae'n 28 i 27, felly mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 171: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 171 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 171

Result of the vote on amendment 171

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, 172.

Jocelyn Davies, 172.

*Cynigiwyd gwelliant 172 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 172 (Jocelyn Davies) moved.*

15:50 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move. The question is that 172 be agreed. Any objections? [Objection.] Objection. We move to the vote, and open the vote. Close the vote. Twenty-seven in favour. No abstentions. Twenty-seven against. Therefore, I cast my vote against and the amendment falls.

Cynnig. Y cwestiwn yw bod 172 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Rydym yn symud i bleidlais, ac yn agor y bleidlais. Caewch y bleidlais. Saith ar hugain o blaid. Dim ymatal. Saith ar hugain yn erbyn. Felly, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 172: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 172 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 172

Result of the vote on amendment 172

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, 173.

Jocelyn Davies, 173.

*Cynigiwyd gwelliant 173 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 173 (Jocelyn Davies) moved.*

15:51 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. The question is that 173 be agreed. Any objections? [Objection.] Object. Move to the vote, and open the vote. Close the vote. In favour 27. No abstentions. Twenty-seven against. I therefore cast my vote against and the amendment falls.

Cynnig. Y cwestiwn yw bod 173 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwch i bleidlais, ac agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 27. Dim ymatal. Saith ar hugain yn erbyn. Felly, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 173: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 173 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 173

Result of the vote on amendment 173

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 34.

Peter Black, gwelliant 34.

*Cynigiwyd gwelliant 34 (Peter Black [R]).*

*Amendment 34 (Peter Black [R]) moved.*

15:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. The question is that 34 be agreed. Any objections? [Objection.] Objections. Open the vote. Close the vote. In favour 27. No abstentions. Twenty-seven against. Therefore, I cast my vote against and the amendment falls.

Cynnig. Y cwestiwn yw bod 34 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 27. Dim ymatal. Saith ar hugain yn erbyn. Felly, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 34: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 34 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 34

Result of the vote on amendment 34

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, 174.

Jocelyn Davies, 174.

*Cynigiwyd gwelliant 174 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 174 (Jocelyn Davies) moved.*

15:52 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is 174 be agreed. Any—

Y cwestiwn yw bod 174 yn cael ei dderbyn. Unrhyw—

15:52 **Janice Gregory** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Object.

Gwrthwynebiad.

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I haven't asked the question yet.

Nid wyf wedi gofyn y cwestiwn eto.

15:52 **Janice Gregory** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, I know, but I'm trying to help out here, Presiding Officer. [Laughter.]

Wel, rwy'n gwybod, ond rwy'n ceisio helpu yma, Lywydd. [Chwerthin.]

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. In favour 27. No abstentions. Twenty-seven against. Therefore, I cast my vote against and the amendment falls.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 27. Dim ymatal. Saith ar hugain yn erbyn. Felly, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 174: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 174 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 174

Result of the vote on amendment 174

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, 195.

Mark Isherwood, 195.

*Cynigiwyd gwelliant 195 (Mark Isherwood).*

*Amendment 195 (Mark Isherwood) moved.*

15:52 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

15:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. If amendment 195 is agreed to, amendments 98 and 175 will fall. So, the question is that 195 be agreed. Any objections? [Objection.] Open the vote. Close the vote. In favour 23. No abstentions. Thirty-one against. Therefore, the amendment falls.

Cynnig. Os derbynnir gwelliant 195, bydd gwelliannau 98 a 175 yn methu. Felly, y cwestiwn yw bod 195 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 23. Dim ymatal. Tri deg un yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 195: O blaid 23, Yn erbyn 31, Ymatal 0.*

*Amendment 195 not agreed: For 23, Against 31, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 195

Result of the vote on amendment 195

15:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 98.

Weinidog, gwelliant 98.

*Cynigiwyd gwelliant 98 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 98 (Lesley Griffiths) moved.*

15:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

15:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally. The question is that 98 be agreed to. Any objections? No objections. Therefore, amendment 98 is agreed.

Yn ffurfiol. Y cwestiwn yw bod 98 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 98 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 98 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 98 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, 175.

Jocelyn Davies, 175.

*Cynigiwyd gwelliant 175 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 175 (Jocelyn Davies) moved.*

15:53

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move. The question is that 175 be agreed. Any objections? [Objection.] Objections. Therefore, we move to a vote, and open the vote. Close the vote. Twenty-seven for. No abstentions. Twenty-seven against. Therefore, I cast my vote against and the amendment falls.

Cynnig. Y cwestiwn yw bod 175 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Felly, rydym yn symud i bleidlais, ac yn agor y bleidlais. Caewch y bleidlais. Saith ar hugain o blaid. Dim ymatal. Saith ar hugain yn erbyn. Felly, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 175: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 175 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 175

Result of the vote on amendment 175

### Grŵp 11: Contractau Isfeddiannaeth (Gwelliannau 99, 100, 101 a 102)

### Group 11: Sub-occupation Contracts (Amendments 99, 100, 101 and 102)

15:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to sub-occupation contracts. The lead amendment in this group is 99. I call on the Minister to move and speak to that amendment and any other amendments in the group. Minister.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chontractau is-feddiannaeth. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw 99. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y gwelliant hwnnw ac unrhyw welliannau eraill yn y grŵp. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 99 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 99 (Lesley Griffiths) moved.*

15:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. These Government amendments address subletting by a contract holder. Occasionally, a head landlord may allow subletting subject to certain conditions but those conditions set by that landlord may not be reflected in the subletting agreement. This means a sub-holder may end up occupying the dwelling under terms that would not have been agreed by the head landlord. To overcome this problem, my amendments do two things. Firstly, they require any conditions set by the head landlord to any consent to subletting to be communicated by the contract holder to a prospective sub-holder prior to the sub-occupation contract being entered into. That's to ensure the sub-holder is aware of the terms that should apply to that contract. If this does not happen, the contract holder or, in other words, the sub-landlord, will be treated as having committed a repudiatory breach of the contract, meaning the sub-holder can then potentially walk away from the contract. Secondly, the amendments require any conditions set by the head landlord to be included in the written statement of the sub-occupation contract.

Diolch i chi, Lywydd. Mae'r gwelliannau hyn gan y Llywodraeth yn mynd i'r afael ag is-osod gan ddeiliad contract. O bryd i'w gilydd, gall prif landlord ganiatáu is-osod yn amodol ar rai amodau, ond efallai na fydd yr amodau hynny a bennir gan y landlord yn cael eu hadlewyrchu yn y cytundeb is-osod. Golyga hyn y gall is-ddeiliad ddiweddu yn meddiannu'r annedd dan delerau na fyddent wedi cael eu cytuno gan y prif landlord. Er mwyn goresgyn y broblem hon, mae fy ngwelliannau yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, maent yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw amodau a osodwyd gan y prif landlord i unrhyw ganiatâd i is-osod gael eu cyfleu gan y deiliad contract i ddarpar is-ddeiliad cyn dechrau ar y contract is-feddiannaeth. Mae hynny i sicrhau bod yr is-ddeiliad yn ymwybodol o'r telerau a ddylai fod yn berthnasol i'r contract hwnnw. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd y deiliad contract neu, mewn geiriau eraill, yr is-landlord, yn cael ei drin fel pe bai wedi cyflawni tor contract ymwrthodol, sy'n golygu y gall yr is-ddeiliad o bosibl gerdded i ffwrdd oddi wrth y contract. Yn ail, mae'r gwelliannau yn ofynnol i unrhyw amodau a osodwyd gan y prif landlord sydd i'w cynnwys yn natganiad ysgrifenedig y contract is-feddiannaeth.

In the event a sub-occupation contract has been made contrary to the head landlord's conditions, under amendment 101, the head landlord can choose to treat the sub-contract as a periodic standard contract. That seeks to balance the interests of the head landlord whose conditions have not been adhered to with the interests of the person occupying the dwelling without knowledge of the conditions set by the head landlord. Under existing law, the head landlord could seek to terminate the head tenancy, which would have the effect, simply, of terminating the sub-tenancy as well.

Os bydd contract is-feddiannaeth wedi cael ei wneud yn groes i amodau'r prif landlord, dan welliant 101, gall y prif landlord ddewis trin yr is-gontract fel contract cyfnodol safonol. Mae hynny'n ceisio cydbwyso buddiannau'r prif landlord na chadwyd at ei amodau gyda buddiannau'r person sy'n meddiannu'r annedd heb wybodaeth o'r amodau a osodwyd gan y prif landlord. O dan y gyfraith bresennol, gallai'r prif landlord geisio terfynu'r brif denantiaeth, a fyddai'n cael yr effaith, yn syml, o derfynu'r is-denantiaeth hefyd.

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers, so the question is that amendment 99 be agreed. Does any Member object? No objections, therefore amendment 99 is agreed.

Nid oes gennyf siaradwyr, felly y cwestiwn yw bod gwelliant 99 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad, felly caiff gwelliant 99 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 99 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 99 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 100 to 102 are disposed of en bloc. Does any Member object? No objection. Minister, 100 to 102?

Cynigiaf fod gwelliannau 100 i 102 yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Weinidog, 100 i 102?

*Cynigiwyd gwelliannau 100, 101 ac 102 (Lesley Griffiths).*

*Amendments 100, 101 and 102 (Lesley Griffiths) moved.*

15:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally. The question is that those three amendments are agreed. Any objections? No objections, therefore amendments 100 to 102 are agreed.

Yn ffurfiol. Y cwestiwn yw bod y tri gwelliant hyn yn cael eu derbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad, felly caiff gwelliannau 100 i 102 eu derbyn.

*Derbyniwyd gwelliannau 100, 101 ac 102 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendments 100, 101 and 102 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, 103.

Weinidog, 103.

*Cynigiwyd gwelliant 103 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 103 (Lesley Griffiths) moved.*

15:55

## Lesley Griffiths
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

15:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that 103 be agreed. Any objections? No objections, therefore 103 is agreed.

Y cwestiwn yw bod 103 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad, felly caiff 103 ei dderbyn.

*Amendment 103 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Amendment 103 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I propose that amendments 35 to 37 are disposed of en bloc. Any objections? Peter Black, amendments 35 to 37.

Cynigiaf fod gwelliannau 35 i 37 yn cael eu gwaredu en bloc. Unrhyw wrthwynebiadau? Peter Black, gwelliannau 35 i 37.

*Cynigiwyd gwelliannau 35, 36 a 37 (Peter Black [R]).*

*Amendments 35, 36 and 37 (Peter Black [R]) moved.*

15:56

## Peter Black
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

15:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Move. The question is that 35 to 37 are agreed. Any objections? [Objection.] Open the vote. Close the vote. In favour 16, 11 abstentions, 27 against. Therefore, they fall.

Cynnig. Y cwestiwn yw bod 35 i 37 yn cael eu derbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 16, 11 yn ymatal, 27 yn erbyn. Felly, maent yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliannau 35, 36 a 37: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendments 35, 36 and 37 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliannau 35, 36 a 37

Result of the vote on amendments 35, 36 a 37

### Grŵp 12: Cydsyniad y Landlord (Gwelliannau 196 a 197)

### Group 12: Landlord's Consent (Amendments 196 and 197)

15:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The next group of amendments relates to the landlord's consent. The lead amendment in this group is amendment 196 and I call on Mark Isherwood to move and speak to the lead amendment and any others in the group. Mark Isherwood.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chaniatâd y landlord. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 196 a galwaf ar Mark Isherwood i gynnig a siarad am y prif welliant ac unrhyw rai eraill yn y grŵp. Mark Isherwood.

*Cynigiwyd gwelliant 196 (Mark Isherwood).*

*Amendment 196 (Mark Isherwood) moved.*

15:56 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, indeed. The sector, the practitioners, again emphasise that 14 days is not sufficient time to gather all the information needed for landlords' consent in relation to any term of an occupation contract that permits something to be done only with the landlord's consent. Landlords could be away for a period of time, or the landlord may need to inquire with a superior landlord or other third party before progressing further.

Diolch yn fawr iawn, yn wir. Mae'r sector, yr ymarferwyr, unwaith eto yn pwysleisio nad yw 14 diwrnod yn ddigon o amser i gasglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer caniatâd landlordiaid mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod yn y contract meddiannaeth sy'n caniatáu i rywbeth gael ei wneud dim ond gyda chaniatâd y landlord. Gallai landlordiaid fod i ffwrdd am gyfnod o amser, neu efallai y bydd angen i'r landlord wneud ymholiad gydag uwchlandlord neu drydydd parti arall cyn symud ymlaen ymhellach.

At Stage 2, I argued that landlords should be allowed to work with third parties to find a positive resolution for the tenant, as opposed to denying the request because the landlord doesn't have the time to investigate further. Again, this is a practical consideration identified by the professional landlord sector as something that will occur if not remedied.

Yng Nghyfnod 2, dadleuais y dylai landlordiaid gael yr hawl i weithio gyda thrydydd partïon i daro ar benderfyniad cadarnhaol ar gyfer y tenant, yn hytrach na gwadu'r cais oherwydd nad oes gan y landlord yr amser i ymchwilio ymhellach. Unwaith eto, mae hyn yn ystyriaeth ymarferol a nodwyd gan y sector landlordiaid proffesiynol fel rhywbeth a fydd yn digwydd os na chaiff ei gywiro.

Again, we call on this Assembly and the Minister to heed the warning and request from the sector, which, clearly, has the expertise and knowledge of the practical operations involved, and support our amendment accordingly.

Unwaith eto, rydym yn galw ar y Cynulliad hwn a'r Gweinidog i wrando ar y rhybudd a'r cais gan y sector, sydd, yn amlwg, â'r arbenigedd a'r wybodaeth o'r gweithrediadau ymarferol sydd ynghlwm, ac i gefnogi ein gwelliant yn unol â hynny.

15:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister.

Weinidog.

15:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I think, where an occupation contract includes a term that allows something to be done, but only with the landlord's consent, these amendments address how long it should be and you're obviously extending from the time period that I brought forward as a Government amendment at Stage 2. I think it's just making the whole process much more cumbersome. The intention was to make the process much more streamlined, so I reject the amendments.

Diolch. Rwy'n meddwl, lle mae contract meddiannaeth yn cynnwys term sy'n caniatáu i rywbeth gael ei wneud, ond gyda chaniatâd y landlord yn unig, mae'r gwelliannau hyn yn mynd i'r afael â pha mor hir y dylai fod, ac yn amlwg rydych chi yn ymestyn y cyfnod amser a ddygwyd ymlaen gennyf i fel gwelliant y Llywodraeth yng Nghyfnod 2. Rwy'n credu bod hyn yn gwneud y broses gyfan yn llawer mwy llafurus. Y bwriad oedd gwneud y broses yn llawer symlach, felly rwy'n gwrthod y gwelliannau.

15:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mark Isherwood to reply.

Mark Isherwood i ymateb.

15:58 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Clearly, it's not intended to make it more cumbersome. The intention is to recognise the practical realities that may arise, as identified by the sector, so that it can work better and avoid foreseeable consequences.

Yn amlwg, nid y bwriad yw ei gwneud yn fwy llafurus. Y bwriad yw cydnabod y realiti ymarferol a allai godi, fel y nodwyd gan y sector, fel y gall weithio'n well ac osgoi canlyniadau y gellir eu rhagweld.

You'll note this was originally paired with amendment 197. I've withdrawn this because of a drafting error, but this was altered in response to the Minister's comments at Stage 2, that this could allow a landlord to vastly extend a time period. In special circumstances, a landlord may not be able to give a definitive answer immediately, but they should be afforded the opportunity to investigate for the benefit of the tenant.

Byddwch yn nodi bod hwn wedi ei baru yn wreiddiol â gwelliant 197. Rwyf i wedi tynnu hwn yn ôl oherwydd gwall drafftio, ond cafodd ei newid mewn ymateb i sylwadau'r Gweinidog yng Nghyfnod 2, y gallai hyn ganiatáu i landlord ymestyn cyfnod amser yn helaeth. Mewn amgylchiadau arbennig, efallai na fydd landlord yn gallu rhoi ateb pendant ar unwaith, ond dylent gael y cyfle i ymchwilio er budd y tenant.

The amendment, as proposed, would have allowed the landlord to work with third parties to find a positive resolution for the tenant, as opposed to denying the request because the landlord doesn't have the time to investigate further.

Byddai'r gwelliant, fel y cynigiwyd, wedi caniatáu i'r landlord weithio gyda thrydydd partïon i daro ar benderfyniad cadarnhaol ar gyfer y tenant, yn hytrach na gwadu'r cais oherwydd nad oes gan y landlord yr amser i ymchwilio ymhellach.

The intention also, to address the Minister's concerns at Stage 2, was to introduce a change which would decline the landlord's request if the contract holder didn't respond, so that the only way a landlord could extend the time period was with the absolute consent from the tenant. I've withdrawn the amendment, because unfortunately, as drafted, it says the opposite; it says, wrongly, that a landlord could extend the time period if the tenant didn't consent within five days. That was not the intent; the opposite is the intent. If there isn't going to be a further Stage 3 session, I therefore, on behalf of the sector, urge the Minister to consider enabling the concerns to be addressed, with the proviso that a landlord could only extend the time period with absolute consent from the tenant.

Y bwriad hefyd, i ymdrin â phryderon y Gweinidog yn ystod Cyfnod 2, oedd cyflwyno newid a fyddai'n gwrthod cais y landlord os na fyddai'r deiliad contract yn ymateb, fel mai'r unig ffordd y gallai landlord ymestyn y cyfnod oedd gyda chaniatâd absoliwt y tenant. Rwyf wedi tynnu'r gwelliant yn ôl, oherwydd yn anffodus, fel y'i drafftiwyd, mae'n dweud y gwrthwyneb; mae dweud, yn anghywir, y gallai landlord ymestyn y cyfnod amser os nad yw'r tenant yn cydsynio o fewn pum diwrnod. Nid dyna oedd y bwriad; y gwrthwyneb yw'r bwriad. Os nad oes sesiwn arall Cyfnod 3 yn mynd i fod, rwyf felly, ar ran y sector, yn annog y Gweinidog i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r pryderon, ar yr amod y gallai landlord ond ymestyn y cyfnod amser gyda chaniatâd absoliwt y tenant.

16:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 196 be agreed. Are there any objections? [Objection.] Objections. Open the vote. Close the vote. In favour 12, no abstentions, 42 against and, therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 196 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 12, dim ymatal, 42 yn erbyn ac, felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 196: O blaid 12, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Amendment 196 not agreed: For 12, Against 42, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 196

Result of the vote on amendment 196

16:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 197.

Mark Isherwood, gwelliant 197.

16:00

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move—no, sorry, 197, I think, is withdrawn, as I—

Cynnig—na, mae'n ddrwg gennyf, mae 197, rwy'n meddwl, yn cael ei dynnu'n ôl, gan fy—

16:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry?

Mae'n ddrwg gen i?

16:00

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 197 is withdrawn.

Mae gwelliant 197 yn cael ei dynnu'n ôl.

*Ni chynigiwyd gwelliant 197 (Mark Isherwood).*

*Amendment 197 (Mark Isherwood) not moved.*

16:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose amendments 38 to 41 are disposed of en bloc. Does any Member object? No objections. Peter Black, amendments 38 to 41.

Cynigiaf fod gwelliannau 38 i 41 yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Peter Black, gwelliannau 38 i 41.

*Cynigiwyd gwelliannau 38, 39, 40 a 41 (Peter Black [R]).*

*Amendments 38, 39, 40 and 41 (Peter Black [R]) moved.*

16:00

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The question is that they be agreed. Are there any objections? [Objection.] Object. Open the vote. Close the vote. In favour 16, 11 abstentions and 27 against. Therefore, those amendments fall.

Diolch. Y cwestiwn yw eu bod yn cael eu derbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 16, 11 yn ymatal a 27 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliannau hynny yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliannau 38, 39, 40 a 41: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendments 38, 39, 40 and 41 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliannau 38, 39, 40 and 41

Result of the vote on amendments 38, 39, 40 and 41

16:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 42.

Peter Black, gwelliant 42.

*Cynigiwyd gwelliant 42 (Peter Black [R]).*

*Amendment 42 (Peter Black [R]) moved.*

16:01 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is amendment 42 be agreed. Are there any objections? [Objection.] Objection. We'll go to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour 16, 11 abstentions and 27 against. Therefore, it falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 42 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Byddwn yn mynd i bleidlais. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 16, 11 yn ymatal a 27 yn erbyn. Felly, mae'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 42: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment 42 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 42

Result of the vote on amendment 42

16:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 42.

Peter Black, gwelliant 42.

16:01 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, we've done that. I beg your pardon. I propose that amendments 43 to 45 are disposed of en bloc. Does any Member object?

Na, rydym wedi gwneud hwnnw. Mae'n ddrwg gennyf. Cynigiaf fod gwelliannau 43 i 45 yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu?

Peter Black.

Peter Black.

*Cynigiwyd gwelliannau 43, 44 a 45 (Peter Black [R]).*

*Amendments 43, 44 and 45 (Peter Black [R]) moved.*

16:01 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Moved. The question is that amendments 43 to 45 are agreed. Are there any objections? [Objection.] Object. We'll move to the vote. Open the vote. Close the vote. In favour 16, 11 abstentions and 27 against. Therefore, the amendments fall.

Wedi cynnig. Y cwestiwn yw bod gwelliannau 43 i 45 yn cael eu derbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Byddwn yn symud i bleidlais. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 16, 11 yn ymatal a 27 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliannau yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliannau 43, 44 a 45: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendments 43, 44 and 45 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliannau 43, 44 and 45

Result of the vote on amendments 43, 44 and 45

16:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In accordance with Standing Order 12.18, I will suspend proceedings now for 15 minutes. The bell will be rung five minutes before proceedings reconvene, but there will only be one bell, so please be back promptly. Thank you very much.

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, byddaf yn atal y trafodion yn awr am 15 munud. Bydd y gloch yn cael ei chanu pum munud cyn ailymgynnull y trafodion, ond dim ond un gloch fydd, felly os gwelwch yn dda byddwch yn ôl yn brydlon. Diolch yn fawr iawn.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 16:02.*

*Plenary was suspended at 16:02.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:16, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 16:16, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

## Grŵp 13: Cyflwr Anheddau (Gwelliannau 46, 198, 199, 200, 201, 202, 104, 47, 203, 48 ac 81)

## Group 13: Condition of Dwelling (Amendments 46, 198, 199, 200, 201, 202, 104, 47, 203, 48 and 81)

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. We continue our Stage 3 debate on the Renting Homes (Wales) Bill. We move to group 13, which relates to the condition of the dwelling. The lead amendment in this group is amendment 46. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Trefn. Rydym yn parhau â'n dadl Cyfnod 3 ar y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Rydym yn symud i grŵp 13, sy'n ymwneud â chyflwr yr annedd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 46. Galwaf ar Peter Black i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 46 (Peter Black [R]).*

*Amendment 46 (Peter Black [R]) moved.*

16:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. This group of amendments, in my view, are absolutely crucial to the success of this particular Bill. I think we've said, during the passage of the Housing (Wales) Act 2014 last year and also during the passage of this Bill, that if we are going to pass legislation on the private rented sector we must ensure that the quality of the housing in that particular sector increases over a period of time, and that we come to a situation whereby local authorities have the power and the resources to be able to ensure that tenants living in the private rented sector are not living in substandard accommodation.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r grŵp hwn o welliannau, yn fy marn i, yn gwbl hanfodol i lwyddiant y Bil penodol hwn. Rwy'n credu ein bod wedi dweud, yn ystod hynt Deddf Tai (Cymru) 2014 y llynedd, a hefyd yn ystod hynt y Bil hwn, os ydym yn mynd i basio deddfwriaeth ar y sector rhentu preifat mae'n rhaid i ni sicrhau bod ansawdd y tai yn y sector penodol hwnnw yn codi dros gyfnod o amser, a'n bod yn cyrraedd pwynt lle mae gan awdurdodau lleol y grym a'r adnoddau i allu sicrhau nad yw tenantiaid sy'n byw yn y sector rhentu preifat yn byw mewn llety is-safonol.

The amendments that I've tabled here, particularly amendment 46, effectively bring forward the criteria, or reconsiders the criteria in terms of fitness for human habitation and imports a number of proposals from that which is in force in Scotland. I think how serious this is is highlighted by the Shelter Cymru Living in Wales 2008 survey relating to the housing health and safety rating system, which found that 39.7 per cent of private rented sector housing in Wales has at least one category 1 hazard. So, I think that, although things have improved since then, there is a clear issue in relation to the number of hazards that are in the private rented sector, and which need to be addressed—if not by this legislation, then by what?

Mae'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno yma, yn enwedig gwelliant 46, i bob pwrpas yn cyflwyno'r meini prawf, neu'n ailystyried y meini prawf o ran bod yn addas i bobl fyw ynddynt ac yn mewnforio nifer o gynigion o hynny sydd mewn grym yn yr Alban. Rwy'n credu bod difrifoldeb hyn yn cael ei amlygu gan Arolwg Shelter Byw yng Nghymru 2008 mewn cysylltiad â system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, a ganfu fod gan 39.7 y cant o dai yn y sector rhentu preifat yng Nghymru o leiaf un perygl categori 1. Felly, rwy'n meddwl, er bod pethau wedi gwella ers hynny, mae problem amlwg o ran nifer y peryglon sydd yn y sector rhentu preifat, ac mae angen mynd i'r afael â nhw—os nad yw hynny gan y ddeddfwriaeth hon, yna gan beth?

The cost of poor housing in Wales to the NHS in treating ill health resulting from substandard housing has been estimated by the National Housing Federation as £2.4 billion per year. The annual cost to the national health service of treating category 1 hazards accounts for a maximum of 40 per cent of the total cost to society.

Mae'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol wedi amcangyfrif bod cost tai gwael yng Nghymru yn £2.4 biliwn y flwyddyn i'r GIG wrth drin afiechyd sy'n deillio o dai is-safonol. Mae'r gost flynyddol i'r gwasanaeth iechyd gwladol o drin peryglon categori 1 yn cyfrif am uchafswm o 40 y cant o gyfanswm y gost i gymdeithas.

So, I think that, in line with a number of recommendations in the committee—recommendation 30, about making provision for the installation of carbon monoxide detectors and smoke alarms, and the periodic inspection of electrical installation to be mandatory in rental properties, and a number of other recommendations in terms of the criteria for the fitness for human habitation test to be a more ambitious test—I've tabled amendment 46, which sets out a number of additional factors that should be taken into account in assessing whether a property is fit for human habitation. I think that if that particular amendment falls, then I would urge Members to support those that have been tabled by Mark Isherwood, which effectively set out a whole range of other factors in replacement of that particular one.

Felly, rwy'n meddwl, yn unol â nifer o argymhellion yn y pwyllgor—argymhelliad 30, ynghylch gwneud darpariaeth ar gyfer gosod synwyryddion carbon monocsid a larymau mwg, ac archwiliad cyfnodol o osodiadau trydanol i fod yn orfodol mewn eiddo ar rent, a nifer o argymhellion eraill o ran y meini prawf ar gyfer prawf addasrwydd i bobl fyw yn y tai gwael hyn i fod yn un mwy uchelgeisiol—rwyf i wedi cyflwyno gwelliant 46, sy'n nodi nifer o ffactorau ychwanegol y dylid eu hystyried wrth asesu a yw eiddo yn addas i bobl fyw ynddo. Rwy'n credu, os yw'r gwelliant arbennig hwn yn methu, yna byddwn yn annog yr Aelodau i gefnogi'r rhai sydd wedi cael eu cyflwyno gan Mark Isherwood, sydd i bob pwrpas yn nodi ystod eang o ffactorau eraill yn lle'r un penodol hwnnw.

I think that we do need to take this seriously. I think we do need to ensure that any legislation that we pass does improve the quality of life for tenants in the private rented sector. I think we need to start making progress on tackling hazards under the HHSRS, and I think we also need to make sure that, if we are to pass legislation, it's not just about improving the administration of rented property, but also about improving its quality as well, and making sure that we're actually making a real difference in the private rented sector in Wales.

Rwy'n credu bod angen i ni gymryd hyn o ddifrif. Rwy'n meddwl bod angen i ni sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth yr ydym yn ei phasio yn gwella ansawdd bywyd i denantiaid yn y sector rhentu preifat. Rwy'n credu bod angen i ni ddechrau gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â pheryglon o dan yr HHSRS, ac rwy'n meddwl hefyd bod angen sicrhau, os ydym i basio deddfwriaeth, nad yw'n ymwneud â gwella gweinyddiaeth eiddo ar rent yn unig, ond hefyd â gwella ei ansawdd, a gwneud yn siŵr ein bod mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn yn y sector rhentu preifat yng Nghymru.

16:20

## Mark Isherwood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Reciprocally, I fully agree that this is critical, this is core to the Bill, and we share the objectives that you've also brought to this Assembly today.

Yn gyfnewid, cytunaf yn llwyr fod hyn yn hanfodol, mae hyn yn greiddiol i'r Bil, ac rydym ni'n rhannu'r amcanion yr ydych chi hefyd wedi dod â nhw i'r Cynulliad hwn heddiw.

Our amendments 198 and 199 seek to deliver what Ministers and Members frequently refer to, which is sharing good practice—not just good practice that may exist in certain areas in Wales, but the good practice we can learn from other places. These amendments would bring the standards of the private rented sector into line with the standards set in Scotland by requiring landlords to ensure that a property is wind-and-water tight, and that fixtures, fittings and appliances provided were all at least in a reasonable state of repair and working order. Landlords in the private rented sector, reputable landlords, hold the view that these obligations are required in any event. These amendments link a habitability standard to the building regulations, as is done in Scotland, being a well-understood measure that chartered surveyors can reference easily. We must remember that this legislation has to be delivered out there by professionals, be they chartered surveyors, environmental health officers or others. In relation to the housing health and safety rating system, we consider that the increase in landlord repairing standards accomplishes the effects of section 94 in a less intrusive manner, and in a manner that allows reliance on case law already developed in Scotland. This would put Welsh tenants on at least an equal footing to those in Scotland, and above those in England.

Mae ein gwelliannau 198 a 199 yn ceisio cyflawni’r hyn y mae Gweinidogion ac Aelodau yn aml yn cyfeirio ato, sef rhannu arfer da—nid yn unig arfer da a all fodoli mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, ond arfer da y gallwn ddysgu o fannau eraill. Byddai'r gwelliannau hyn yn dod â safonau'r sector rhentu preifat yn unol â'r safonau a bennwyd yn yr Alban drwy ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod eiddo yn dal gwynt a dŵr, a bod gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar a ddarperir i gyd mewn cyflwr rhesymol o leiaf ac yn gweithio’n iawn. Mae landlordiaid yn y sector rhentu preifat, landlordiaid cyfrifol, o'r farn bod y rhwymedigaethau hyn yn ofynnol beth bynnag. Mae'r gwelliannau hyn yn cysylltu safon cyfaneddoldeb i’r rheoliadau adeiladu, fel sy'n digwydd yn yr Alban, sef mesur a ddeellir yn dda ac y gall syrfewyr siartredig gyfeirio ato’n hawdd. Rhaid inni gofio bod yn rhaid i’r ddeddfwriaeth hon gael ei darparu allan yno gan weithwyr proffesiynol, boed yn syrfewyr siartredig, swyddogion iechyd yr amgylchedd neu eraill. O ran y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, rydym o'r farn bod y cynnydd yn safonau atgyweirio landlordiaid yn cyflawni effeithiau adran 94 mewn modd llai ymwthiol, ac mewn modd sy'n caniatáu dibyniaeth ar gyfraith achos a ddatblygwyd eisoes yn yr Alban. Byddai hyn yn rhoi tenantiaid Cymru ar yr un lefel o leiaf â’r rhai yn yr Alban, ac yn uwch na'r rhai yn Lloegr.

Amendment 200 makes the landlord responsible for the parts of the property to which he or she has the power to act upon. This provides greater clarity for the tenant as to what they can expect the landlord to do, and also corrects what appears to be a drafting error in which obligations under section 92(1) and section 92(2) are imposed simultaneously. Under amendment 201, a landlord may well need to impose obligations on the contract holder in order to carry out works. Not permitting this could prevent landlords carrying out works where they needed to require a tenant to restrict themselves to part of the property or to decant for a short period. Such works may actually be to bring the property up to habitable standard, or to deliver requirements under HHSRS, or address specifically category 1 hazards or, potentially, category 2 hazards. Again, it’s a technical requirement that, unaddressed, could have foreseeable consequences.

Mae gwelliant 200 yn gwneud y landlord yn gyfrifol am y rhannau o'r eiddo y mae ganddo'r pŵer i weithredu arnynt. Mae hyn yn darparu mwy o eglurder i'r tenant ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl i'r landlord ei wneud, ac mae hefyd yn cywiro'r hyn sy'n ymddangos i fod yn wall drafftio lle mae rhwymedigaethau dan adran 92 (1) ac adran 92 (2) yn cael eu gosod ar yr un pryd. Dan welliant 201, efallai y bydd angen i landlord osod rhwymedigaethau ar y deiliad contract er mwyn gwneud y gwaith. Gallai peidio â chaniatáu hyn atal landlordiaid rhag gwneud gwaith lle'r oedd angen i denant gyfyngu ei hunan i ran o'r eiddo neu adleoli am gyfnod byr. Mewn gwirionedd gall gwaith o'r fath fod er mwyn dod â'r eiddo i fyny i safon byw gyfanheddol, neu i gyflawni gofynion o dan HHSRS, neu i fynd i'r afael yn benodol â pheryglon categori 1 neu, o bosibl, beryglon categori 2. Unwaith eto, mae'n ofyniad technegol a allai, heb fynd i’r afael ag e, gael canlyniadau rhagweladwy.

Amendment 202 seeks to remove section 94, 'Determination of fitness for human habitation', because Peter Black's amendment 46 adequately seeks to improve the standard of the private rented sector to the benefit of both landlords and tenants in Wales. It does not seem necessary, and would only cause a great deal of uncertainty, to allow the executive the power to change these standards via regulations. The housing health and safety rating system is a standard that is seeking to improve the quality of property more generally. Its use here fits badly with the requirement to create a minimum fitness standard. Additionally, there is limited skill and experience in the private sector in assessing properties for the housing health and safety rating system. There's therefore likely to be a considerable period in which surveyors need to develop their knowledge in this area, which would increase legal costs both privately and in the legal aid budget, and which would also create delays in legal proceedings. I think it needs also to be noted that, in terms of the public sector, local government in Wales have rarely taken enforcement action under the housing health and safety rating system, which was implemented under the 2004 UK Housing Act by subordinate legislation in this place. What's more, both in terms of the Housing (Wales) Act and this Bill, local government have made it clear that they will not—they do not have the resource—be carrying out routine inspections, and will not be increasing their inspection rate, and would only do so if a tenant formally complained. We know that tenants who most need help, those for whom we tried to implement amendments earlier to protect, are the least likely to complain, either because they don't know how to or they don't have a friend or advocate they can trust, or, perhaps, because they're under duress from a criminal landlord. Therefore, these amendments are required.

Mae gwelliant 202 yn ceisio cael gwared ar adran 94, sef penderfynu ar addasrwydd eiddo i bobl fyw ynddo, oherwydd mae gwelliant 46 Peter Black yn ceisio gwella safon y sector rhentu preifat er budd landlordiaid a thenantiaid yng Nghymru. Nid yw'n ymddangos yn angenrheidiol, ac ni fyddai ond yn achosi llawer iawn o ansicrwydd, i roi'r pŵer i'r weithrediaeth i newid y safonau hyn trwy gyfrwng rheoliadau. Mae'r system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai yn safon sy'n ceisio gwella ansawdd eiddo yn fwy cyffredinol. Mae ei defnydd yma yn cyd-fynd yn wael â'r gofyniad i greu safon ofynnol o addasrwydd. Yn ogystal â hyn, prin yw'r sgiliau a'r profiad yn y sector preifat o ran asesu eiddo ar gyfer y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai. Felly, mae'n debygol y bydd cyfnod sylweddol pan mae angen i syrfewyr ddatblygu eu gwybodaeth yn y maes hwn, a fyddai'n cynyddu costau cyfreithiol yn breifat ac yn y gyllideb cymorth cyfreithiol, ac a fyddai hefyd yn creu oedi mewn achosion cyfreithiol. Rwy'n credu bod angen nodi hefyd, o ran y sector cyhoeddus yng Nghymru, mai anaml y mae llywodraeth leol wedi cymryd camau gorfodi dan y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, a roddwyd ar waith dan Ddeddf Tai y DU 2004 drwy is-ddeddfwriaeth yn y lle hwn. Yn fwy na hynny, o ran Deddf Tai (Cymru) a'r Bil hwn, mae llywodraeth leol wedi pwysleisio na fyddant—nid oes ganddynt yr adnoddau—yn cynnal archwiliadau cyffredinol, ac na fyddant yn cynyddu nifer eu harchwiliadau, a byddant ond yn gwneud hynny os yw tenant yn cwyno'n ffurfiol. Rydym yn gwybod mai'r tenantiaid sydd angen help fwyaf, y rhai y gwnaethom geisio gweithredu'r gwelliannau yn gynharach i'w hamddiffyn, sydd leiaf tebygol o gwyno, naill ai oherwydd nad ydynt yn gwybod sut i gwyno neu oherwydd nad oes ganddynt ffrind neu eiriolwr y gallant ymddiried ynddynt, neu, efallai, am eu bod dan orfodaeth gan landlord sy'n droseddwr. Felly, mae angen y gwelliannau hyn.

In terms of amendment 203, this is in response to the Minister's comments at Stage 2 that the power to make regulations on fitness for human habitation gives much needed flexibility. Although we'd rather see the above amendments I've referred to in my earlier contribution in this section—181 to 184, 201 and 202—pass and included within the Bill, this amendment would hold the Minister to a full and proper consultation with stakeholders were those amendments to fall.

O ran gwelliant 203, mae hyn mewn ymateb i sylwadau'r Gweinidog yng Nghyfnod 2 bod y pŵer i wneud rheoliadau ar addasrwydd eiddo i bobl fyw ynddo yn rhoi hyblygrwydd sydd ei angen yn fawr. Er y byddai'n well gennym weld y newidiadau uchod yr wyf wedi cyfeirio atynt yn fy nghyfraniad yn gynharach yn yr adran hon—181 i 184, 201 a 202—yn pasio ac yn cael eu cynnwys yn y Bil, byddai'r gwelliant hwn yn mynnu bod y Gweinidog yn cynnal ymgynghoriad llawn a phriodol gyda rhanddeiliaid pe byddai'r gwelliannau hynny yn methu.

As the Residential Landlords Association have said at Stage 2, the Minister has said that she would not be putting the standards on the face of the Bill, but would be doing so via regulation. She said in a letter to the Communities, Equality and Local Government Committee:

Fel y dywedodd Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl yng Nghyfnod 2, mae'r Gweinidog wedi dweud na fyddai'n rhoi'r safonau ar wyneb y Bil, ond byddai yn gwneud hynny trwy reoleiddio. Mewn llythyr at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol dywedodd:

'As I know the committee would expect, I intend to consult fully on the regulations. I attach great importance to stakeholder engagement, and input to inform the regulations will be essential to an efficient and effective approach'.

'Gwn y byddai'r pwyllgor yn disgwyl imi ymgynghori'n llawn ar y rheoliadau. Rhoddaf bwys mawr ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, a bydd mewnbwn i lywio'r rheoliadau yn hanfodol ar gyfer dull effeithlon ac effeithiol o weithredu.

But, given the Minister's reluctance, they say, to set the standards on the face of the Bill, landlords and the Residential Landlords Association would like to see the Minister commit on the face of the Bill to a minimum consultation period.

Ond, o ystyried amharodrwydd y Gweinidog, maent yn dweud, er mwyn gosod y safonau ar wyneb y Bil, byddai landlordiaid a Chymdeithas Landlordiaid Preswyl yn hoffi gweld y Gweinidog yn ymrwymo ar wyneb y Bil i gyfnod ymgynghori gofynnol.

Again, if the Minister listens to these points and addresses the concerns raised by the sector, she can only add to and improve this Bill, and help it achieve the objectives that we all support.

Unwaith eto, os yw'r Gweinidog yn gwrando ar y pwyntiau hyn ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y sector, ni all ond ychwanegu at y Bil hwn a'i wella, a'i helpu i gyflawni'r amcanion yr ydym oll yn eu cefnogi.

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister.

Weinidog.

16:26

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. In line with the commitment I gave at Stage 2, Government amendment 104 makes the issuing of regulations by the Welsh Ministers on determining fitness for human habitation a duty rather than a power.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn unol â'r ymrwymiad a roddais yn ystod Cyfnod 2, mae gwelliant 104 y Llywodraeth yn ei gwneud cyhoeddi rheoliadau gan Weinidogion Cymru ar bennu bod eiddo'n addas i bobl fyw ynddo yn ddyletswydd yn hytrach nag yn bŵer.

Peter Black's amendment 46 amends a landlord's obligation for repairs under section 92 to include provision for detecting fire. That provision is more appropriately dealt with under regulations relating to fitness for human habitation. As Mark Isherwood just referred to in the letter I shared with members of the committee following my Stage 2 appearance, I think it's what we do with those regulations that's so important; it is that that gives us a much more flexible approach and I think a much more ambitious approach. Again, amendment 203 that Mark Isherwood referred to, I think that's unnecessary, because I do say that relevant stakeholders would, as a matter of course, be part of the process.

Mae gwelliant 46 Peter Black yn diwygio rhwymedigaeth landlord ar gyfer gwaith atgyweirio o dan adran 92 i gynnwys darpariaeth ar gyfer canfod tân. Mae'n fwy priodol ymdrin â'r ddarpariaeth honno dan reoliadau yn ymwneud â bod eiddo'n addas i bobl fyw ynddo. Fel y mae Mark Isherwood newydd gyfeirio ato yn y llythyr rwyf wedi'i rannu gydag aelodau o'r pwyllgor yn dilyn fy ymddangosiad Cyfnod 2, rwy'n credu mai'r hyn rydym yn ei wneud â'r rheoliadau hynny yw'r peth pwysig; hynny sy'n rhoi inni ddull llawer mwy hyblyg ac, yn fy marn i, ddull llawer mwy uchelgeisiol. Unwaith eto, yn achos gwelliant 203 y cyfeiriodd Mark Isherwood ato, rwy'n credu bod hwnnw'n ddiangen, gan fy mod yn dweud y byddai rhanddeiliaid perthnasol, yn ôl yr arfer, yn rhan o'r broses.

The current draft of the Bill is based on established statute law relating to repairing obligations, and the Bill will benefit from case law on this subject. The additional requirements cited, such as ensuring furnishings provided by the landlord are capable of being used safely, as well as further requirements that may be recognised as necessary in future, are, again, better addressed through the broader regulation-making power that was agreed at Stage 2.

Mae drafft presennol y Bil yn seiliedig ar gyfraith statud sefydledig sy'n ymwneud â rhwymedigaethau atgyweirio, a bydd y Bil yn cael budd o gyfraith achosion ar y pwnc hwn. Eir i'r afael yn well â'r gofynion ychwanegol a nodwyd, megis sicrhau bod deunyddiau a ddarperir gan y landlord yn gallu cael eu defnyddio'n ddiogel, yn ogystal â gofynion pellach y gellir eu cydnabod fel bo angen yn y dyfodol, unwaith eto, trwy bŵer i wneud rheoliadau ehangach a gytunwyd yng Nghyfnod 2.

Amendment 48 from Peter Black would amend the Housing (Wales) Act 2014. However, the issues he seeks to cover by that amendment are already being addressed by reference to law relating to housing or landlord and tenant in section 20(3)(c) of the Housing (Wales) Act 2014.

Byddai gwelliant 48 gan Peter Black yn diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mae'r materion y mae'n ceisio ymdrin â nhw drwy'r gwelliant hwnnw eisoes yn cael sylw trwy gyfeirio at gyfraith sy'n ymwneud â thai neu landlordiaid a thenantiaid yn adran 20 (3) (c) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Amendment 201 from Mark Isherwood runs the risk of landlords seeking to impose unreasonable obligations on contract holders, notwithstanding the reasonably required wording through sharp practice, and the onus would then be on the contract holder to challenge these obligations imposed by the landlord.

Mae gwelliant 201 gan Mark Isherwood yn golygu bod risg o landlordiaid yn ceisio gosod rhwymedigaethau afresymol ar ddeiliaid contractau. Mae hyn er gwaethaf y geiriad sy'n ofynnol yn rhesymol drwy arferion diegwyddor, a byddai'r cyfrifoldeb wedyn ar y deiliad contract i herio'r rhwymedigaethau hyn a osodir gan y landlord.

16:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

16:28

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I was quite taken by the Minister's argument that regulations are a more ambitious approach than putting these things on the face of the Bill; I think the Minister has a different understanding of 'ambitious' than I do.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gwnaeth dadl y Gweinidog gryn argraff arnaf, sef bod rheoliadau yn ddull mwy uchelgeisiol na rhoi'r pethau hyn ar wyneb y Bil; ond rwy'n meddwl bod y Gweinidog yn dehongli 'uchelgeisiol' mewn ffordd wahanol i mi.

I don't understand why it is that the Minister argues that these things are better dealt with through regulation when Scotland has quite clearly led the way in putting these matters on the face of the Bill. I think the test has to be in terms of what the regulations will contain, how quickly they're going to be brought in and what penalties are going to be attached to them. The Minister has already written to the committee in terms of those regulations, and I have to say that what she set out in terms of her letter was very unambitious indeed, in comparison to what we're proposing to put on the face of the Bill here.

Nid wyf yn deall pam mae'r Gweinidog yn dadlau ei bod yn well trin y pethau hyn drwy reoleiddio pan mae'r Alban yn eithaf clir wedi arwain y ffordd wrth roi'r materion hyn ar wyneb y Bil. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i'r prawf fod o ran yr hyn y bydd y rheoliadau yn ei gynnwys, pa mor gyflym y maent yn mynd i gael eu cyflwyno a pha gosbau fydd ynghlwm wrthynt. Mae'r Gweinidog eisoes wedi ysgrifennu at y pwyllgor o ran y rheoliadau hynny, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod yr hyn mae hi'n nodi yn nhermau ei llythyr yn ddiuchelgais iawn yn wir, o'i gymharu â'r hyn yr ydym yn bwriadu ei roi ar wyneb y Bil yma.

I don't think we're asking for anything revolutionary; we're not asking for anything exceptional. We're asking for the law in Wales to reflect that in Scotland, where, already, it deals with these issues in relation to fitness in terms of fire and a range of other matters that are not covered by this current Bill. It seems to me that, yes, if we have to accept regulations, we'll accept regulations, but there's an opportunity here, again, for Wales to lead the way—or, actually, in this case, to follow Scotland, but to lead the way in terms of England—and to show that we have a genuine concern for the quality of privately rented accommodation in Wales and that we do want to do something about it fairly quickly; that we want to set a higher standard for that accommodation, and that we want to do so on the face of the Bill, instead of waiting months, possibly years, for regulations to come in.

Nid wyf yn credu ein bod yn gofyn am unrhyw beth chwyldroadol; nid ydym yn gofyn am unrhyw beth eithriadol. Rydym yn gofyn am i'r gyfraith yng Nghymru adlewyrchu'r gyfraith yn yr Alban, lle mae eisoes yn ymdrin â'r materion hyn sy'n ymwneud ag addasrwydd o ran tân ac ystod o faterion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos i mi, os oes rhaid inni dderbyn rheoliadau, yna gwnawn, fe wnawn ni dderbyn y rheoliadau. Ond mae cyfle yma, unwaith eto, i Gymru arwain y ffordd—neu, mewn gwirionedd, yn yr achos hwn, i ddilyn yr Alban, ond i arwain y ffordd o ran Lloegr—ac i ddangos bod gennym bryder gwirioneddol am ansawdd y llety rhent preifat yng Nghymru a'n bod yn dymuno gwneud rhywbeth yn ei gylch ar frys; ein bod am osod safon uwch ar gyfer y llety hwnnw, a'n bod yn awyddus i wneud hynny ar wyneb y Bil, yn hytrach nag aros misoedd, blynyddoedd o bosibl, i'r rheoliadau gael eu cyflwyno.

I think it's unlikely those regulations will come in before the next election, which is less than six months away, and therefore it is dependent on a new Government—and possibly a new Minister—bringing those regulations forward. The Minister has set out her own, fairly unambitious, proposals and I do fear that we are going to lose this whole agenda in effectively deferring this matter for some regulations at some point in the future as yet unspecified. I therefore say to Plenary that I hope that, if you are genuine about improving the quality of the private rented sector in Wales, you should support these amendments in this section and make sure that it's on the face of the Bill, and we send a clear message to landlords and to tenants that we want to improve their quality of life, we want to improve the quality of their accommodation, and we want to make sure that Wales is leading the way, certainly for our neighbours on the other side of Offa's Dyke, in terms of our regard for that particular agenda.

Rwy'n credu ei bod yn annhebygol y bydd y rheoliadau hynny yn cael eu cyflwyno cyn yr etholiad nesaf, sy'n llai na chwe mis i ffwrdd, ac felly mae'n ddibynnol ar y Llywodraeth newydd—a Gweinidog newydd o bosibl—i gyflwyno'r rheoliadau hynny. Mae'r Gweinidog wedi nodi ei chynigion ei hun, sy'n weddol ddiuchelgais, ac rwy'n ofni ein bod yn mynd i golli'r agenda gyfan hon drwy ohirio'r mater hwn i bob pwrpas ar gyfer rhai rheoliadau ar ryw adeg yn y dyfodol sydd hyd yn hyn yn amhenodol. Felly, rwy'n dweud wrth y Cyfarfod Llawn fy mod yn gobeithio, os ydych o ddifrif ynghylch gwella ansawdd y sector rhentu preifat yng Nghymru, y dylech gefnogi'r gwelliannau hyn yn yr adran hon a gwneud yn siŵr ei fod ar wyneb y Bil. Ac rydym yn anfon neges glir i landlordiaid ac i denantiaid ein bod am wella ansawdd eu bywyd, rydym am wella ansawdd eu llety, ac rydym am wneud yn siŵr bod Cymru yn arwain y ffordd, yn sicr ar gyfer ein cymdogion y tu hwnt i Glawdd Offa, o ran ein hystyriaeth o'r agenda benodol honno.

16:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If amendment 46 is agreed, amendment 198 falls. The question is that amendment 46 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Os derbynnir gwelliant 46, mae gwelliant 198 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 46 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 46: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 46 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 46

Result of the vote on amendment 46

16:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 198.

Mark Isherwood, gwelliant 198.

*Cynigiwyd gwelliant 198 (Mark Isherwood).*

*Amendment 198 (Mark Isherwood) moved.*

16:32

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 198 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I, once again, cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 198 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf, unwaith eto, yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 198: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 198 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 198

Result of the vote on amendment 198

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 199.

Mark Isherwood, gwelliant 199.

*Cynigiwyd gwelliant 199 (Mark Isherwood).*

*Amendment 199 (Mark Isherwood) moved.*

16:32

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 199 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 28, and there were 10 abstentions. Therefore, the amendment is defeated.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 199 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 28 yn erbyn, ac roedd 10 yn ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn cael ei drechu.

*Gwrthodwyd gwelliant 199: O blaid 15, Yn erbyn 28, Ymatal 10.*

*Amendment 199 not agreed: For 15, Against 28, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 199

Result of the vote on amendment 199

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 200.

Mark Isherwood, gwelliant 200.

*Cynigiwyd gwelliant 200 (Mark Isherwood).*

*Amendment 200 (Mark Isherwood) moved.*

16:33 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 200 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16, there voted against 27, and there were 11 abstentions. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 200 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn, ac roedd 11 yn ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 200: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment 200 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 200

Result of the vote on amendment 200

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 201.

Mark Isherwood, gwelliant 201.

*Cynigiwyd gwelliant 201 (Mark Isherwood).*

*Amendment 201 (Mark Isherwood) moved.*

16:33 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 201 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16, there voted against 27, and there were 11 abstentions. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 201 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn, ac roedd 11 yn ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 201: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment 201 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 201

Result of the vote on amendment 201

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 202.

Mark Isherwood, gwelliant 202.

*Cynigiwyd gwelliant 202 (Mark Isherwood).*

*Amendment 202 (Mark Isherwood) moved.*

16:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 202 is agreed, amendments 104, 47 and 203 will fall. The question is that amendment 202 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 27, and there were 11 abstentions. Therefore, the amendment falls.

Os derbynnir gwelliant 202, bydd gwelliannau 104, 47 a 203 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 202 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn, ac roedd 11 yn ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 202: O blaid 15, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment 202 not agreed: For 15, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 202

Result of the vote on amendment 202

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 104.

Weinidog, gwelliant 104.

*Cynigiwyd gwelliant 104 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 104 (Lesley Griffiths) moved.*

16:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 104 is agreed, amendment 47 falls. The question is that amendment 104 be agreed. Does any Member object? Then amendment 104 is agreed.

Os yw gwelliant 104 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 47 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 104 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 104 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 104 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 104 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 47.*

*Amendment 47 fell.*

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 203.

Mark Isherwood, gwelliant 203.

*Cynigiwyd gwelliant 203 (Mark Isherwood).*

*Amendment 203 (Mark Isherwood) moved.*

16:35 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 203 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16, there voted against 27. There were 11 abstentions. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 203 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Roedd 11 yn ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 203: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment 203 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 203

Result of the vote on amendment 203

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 48.

Peter Black, gwelliant 48.

*Cynigiwyd gwelliant 48 (Peter Black [R]).*

*Amendment 48 (Peter Black [R]) moved.*

16:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

Clywodd y pwyllgor dystiolaeth hefyd yng Nghyfnod 1, lle gallai ymwneud â'r heddlu a’r llysoedd yn aml iawn fod yn fwy niweidiol i'r unigolyn na gwaharddiad dros dro, sydd, mewn llawer o achosion, efallai ond yn para am ychydig oriau. Gall gwaharddiad dros dro, felly, weithredu fel cyfnod ailfeddwl, ac ar ôl hyn gall yr unigolyn ddychwelyd i'r llety. Mae'n fesur ataliol, gan atal problem gydag ymddygiad rhag gwaethygu i fod yn rhywbeth llawer mwy difrifol i'r unigolyn, i drigolion eraill ac i staff. Yn yr achosion mwyaf difrifol, efallai y gofynnir am waharddeb hefyd a dechrau achos meddiannu. Felly, er mwyn sicrhau y gellir diogelu staff a phreswylwyr eraill, rwyf o'r farn ei bod yn ofynnol i ddarparwyr llety â chymorth gael y gallu i wahardd rhywun dros dro.

Of course, there have to be limits, and the Bill provides a maximum period for exclusion of 48 hours and an individual may only be excluded three times in any six-month period. Therefore, I cannot support amendment 58 and related amendment 59 from Peter Black.

Wrth gwrs, rhaid cael cyfyngiadau, ac mae'r Bil yn darparu uchafswm o 48 awr fel cyfnod gwahardd a gall unigolyn ond cael ei eithrio dair gwaith mewn unrhyw gyfnod o chwe mis. Felly, ni allaf gefnogi gwelliant 58 a gwelliant 59 cysylltiedig gan Peter Black.

With a view to providing additional controls on the use of the power, a Government amendment was agreed at Stage 2, which provided the Welsh Ministers with the power to issue statutory guidance on the use of temporary exclusions by providers. During discussions in committee, I made a commitment for this power to become a duty, as Jocelyn Davies said, and this is the subject of our amendment 113. I have also received correspondence from Cymorth Cymru, the representative body for supported housing, in which they recognise the benefits of having statutory guidance in place. They also state it is possible for supported accommodation providers to work together collectively to ensure the rights of those subject to a temporary exclusion are protected.

Gyda golwg ar ddarparu mesurau rheoli ychwanegol ar ddefnyddio pŵer, cytunwyd ar welliant y Llywodraeth yng Nghyfnod 2, a oedd yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol ar y defnydd o waharddiadau dros dro gan ddarparwyr. Yn ystod trafodaethau yn y pwyllgor, gwnes ymrwymiad fod y pŵer hwn yn cael ei wneud yn ddyletswydd, fel y dywedodd Jocelyn Davies, a dyma destun ein gwelliant 113. Rwyf hefyd wedi cael gohebiaeth gan Cymorth Cymru, y corff sy'n cynrychioli tai â chymorth, lle maent yn cydnabod y manteision o gael canllawiau statudol yn eu lle. Maent hefyd yn nodi ei bod yn bosibl i ddarparwyr llety â chymorth gydweithio â'i gilydd i sicrhau bod hawliau'r rhai sy'n destun gwaharddiad dros dro yn cael eu diogelu.

The guidance would address the matters that are the subject of amendments 176 to 180 from Jocelyn. It would set out who should be responsible for taking a decision to exclude, how the decision is recorded and monitored, review arrangements and the involvement of other statutory services. The decision would need to be taken by someone of sufficient seniority or with sufficient training and experience to enable an informed decision to be made, which I believe is the intention behind one of Jocelyn’s amendments. Similarly, the requirement to notify local authority social services, and, potentially, other departments, would also be set out in the guidance. As Peter Black said, and I think Jocelyn also referred to it, it is important that that guidance is robust and that it’s monitored. An independent review of an exclusion decision, potentially undertaken by the local authority’s Supporting People team, would also be set out.

Byddai'r canllawiau yn mynd i'r afael â'r materion sy'n destun gwelliannau 176 i 180 gan Jocelyn. Byddai'n nodi pwy ddylai fod yn gyfrifol am wneud penderfyniad i wahardd, sut y mae'r penderfyniad yn cael ei gofnodi a'i fonitro, trefniadau adolygu a chynnwys gwasanaethau statudol eraill. Byddai angen i’r penderfyniad gael ei gymryd gan rywun ar lefel ddigon uchel neu rywun sydd â’r hyfforddiant a’r profiad i allu gwneud penderfyniad deallus, sydd, yn fy marn i, yn fwriad y tu ôl i un o welliannau Jocelyn. Yn yr un modd, byddai'r gofyniad i hysbysu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac, o bosibl, adrannau eraill, hefyd yn cael ei nodi yn y canllawiau. Fel y dywedodd Peter Black, ac rwy’n meddwl bod Jocelyn wedi cyfeirio ato hefyd, mae'n bwysig bod y canllawiau hynny yn gadarn a’u bod yn cael eu monitro. Byddai adolygiad annibynnol o benderfyniad gwahardd, o bosibl wedi’i gynnal gan dîm Cefnogi Pobl yr awdurdod lleol, hefyd yn cael ei nodi.

Importantly, the guidance will set out how providers should work together to avoid someone becoming street homeless, which reflects our commitment to preventing homelessness. One of the benefits of guidance is, as organisational structures and functions evolve, the guidance can be updated to ensure the implementation of the legislation is consistent across organisations and effective.

Yn bwysig iawn, bydd y canllawiau yn nodi sut y dylai darparwyr weithio gyda'i gilydd i atal pobl rhag mynd yn ddigartref ac ar y stryd, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i atal digartrefedd. Un o fanteision y canllawiau hyn, wrth i strwythurau a swyddogaethau sefydliadol esblygu, yw y gellir diweddaru’r canllawiau i sicrhau bod y ddeddfwriaeth ar waith yn gyson ar draws sefydliadau a’i bod yn effeithiol.

In relation to the reporting arrangements, I fully agree that proper records will need to be maintained for all temporary exclusions that take place, and that this information will need to be available for reporting on a national level. The guidance will also address this. I do believe these matters are better addressed through statutory guidance, which can be amended when necessary and expanded to take account of experience in operating the provisions. This will help ensure the guidance remains effective and that the temporary exclusion power cannot be abused. Statutory guidance works effectively elsewhere, for example in relation to homelessness, and landlords will be required to follow the guidance in exercising the temporary exclusion power, and may only depart from it where they have cogent reasons for doing so.

O ran y trefniadau adrodd, rwy’n llwyr gytuno y bydd angen cynnal cofnodion priodol ar gyfer yr holl waharddiadau dros dro sy'n digwydd, ac y bydd angen i’r wybodaeth hon fod ar gael ar gyfer adrodd ar lefel genedlaethol. Bydd y canllawiau hefyd yn ymdrin â hyn. Rwy’n credu bod y materion hyn yn cael sylw gwell drwy ganllawiau statudol, y gellir eu diwygio yn ôl yr angen a’u hehangu i roi ystyriaeth i brofiad wrth weithredu'r darpariaethau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y canllawiau yn parhau i fod yn effeithiol ac na ellir cam-drin y pŵer gwahardd dros dro. Mae canllawiau statudol yn gweithio'n effeithiol mewn mannau eraill, er enghraifft mewn cysylltiad â digartrefedd, a bydd yn ofynnol i landlordiaid ddilyn y canllawiau wrth arfer y pŵer gwahardd dros dro, a dim ond gwyro oddi wrtho lle mae ganddynt resymau cryf dros wneud hynny.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

16:57

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I, first of all, welcome the outline that the Minister has given of the guidance, which does, I think, address a lot of the issues that Jocelyn Davies’s amendments have brought forward? I do, however, feel strongly that this issue is a matter of whether you want to have this exclusion or not, and I feel very strongly that this is a sledgehammer to crack a nut. It certainly has an issue in terms of review, which I don’t think was addressed in terms of the Minister’s description of the guidance. Maybe the Minister can write to us at some stage as to how a tenant who has been excluded under these provisions can request a review of that decision, which, I think, is the crux in terms of ascertaining whether or not this is compliant with the Human Rights Act. That does remain a concern for me: that if someone is excluded, then they must have an opportunity to appeal or to request a review of that decision.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i, yn gyntaf oll, groesawu'r amlinelliad y mae’r Gweinidog wedi’i roi o'r canllawiau, sydd, rwy’n meddwl, yn mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae gwelliannau Jocelyn Davies wedi’u cyflwyno? Rwyf i, fodd bynnag, yn teimlo'n gryf bod y mater hwn yn fater o p'un a ydych am gael y gwaharddiad hwn ai peidio, ac rwy’n teimlo'n gryf iawn mai gordd i dorri cneuen yw hyn. Yn sicr mae ganddo broblem o ran adolygiad, ac nid wyf yn meddwl ei fod wedi cael sylw yn nisgrifiad y Gweinidog o’r canllawiau. Efallai y gall y Gweinidog ysgrifennu atom rywbryd ynghylch sut y gall tenant a gafodd ei wahardd dan y darpariaethau hyn ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw, sydd, yn fy marn i, yn bwynt dyrys o ran canfod a yw hyn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae hynny'n parhau i fod yn destun pryder i mi: os bydd rhywun yn cael ei wahardd, yna rhaid iddo gael cyfle i apelio neu i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

I also think that, in a sense, the whole provision is taking this problem to an extreme in that it’s saying to those who manage these supported accommodations that, ‘You have failed in your management task and this is all that’s left open you.’ I don’t believe that, in the vast majority of cases, that will happen. I think there is still a danger that someone who is excluded from this will end up homeless, or could, more seriously, become a risk to somebody else, if they’re excluded from that accommodation. For those reasons, I still would like to press ahead with my initial amendments in this group.

Rwyf hefyd yn meddwl, ar ryw ystyr, bod y ddarpariaeth gyfan yn mynd â’r broblem hon i’r eithaf gan ei bod yn dweud wrth y rhai sy'n rheoli’r llety â chymorth yma, ‘Rydych wedi methu yn eich tasg reoli a dyma’r cyfan sydd ar ôl i chi.' Nid wyf yn credu, yn y mwyafrif helaeth o achosion, y bydd hynny’n digwydd. Rwy'n credu bod perygl y bydd rhywun sydd wedi ei wahardd o hyn yn y pen draw yn ddigartref, neu gallai, yn fwy difrifol, fod yn berygl i rywun arall, os yw’n cael ei wahardd o'r llety hwnnw. Am y rhesymau hynny, rwy’n dal yn awyddus i fwrw ymlaen gyda fy ngwelliannau cychwynnol yn y grŵp hwn.

16:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 58 is agreed, amendment 176 falls. The question is that amendment 58 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We’ll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. Voted in favour 15. Voted against 39. Therefore, the amendment falls.

Os derbynnir gwelliant 58, bydd gwelliant 176 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 58 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Wedi pleidleisio o blaid 15. Pleidleisio yn erbyn 39. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 58: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 58 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 58 | Result of the vote on amendment 58

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 176.

Jocelyn Davies, gwelliant 176.

*Cynigiwyd gwelliant 176 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 176 (Jocelyn Davies) moved.*

16:59 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 176 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. Voted in favour 27. Voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 176 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Wedi pleidleisio o blaid 27. Pleidleisio yn erbyn 27. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 176: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 176 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 176 | Result of the vote on amendment 176

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 113.

Weinidog, gwelliant 113.

*Cynigiwyd gwelliant 113 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 113 (Lesley Griffiths) moved.*

17:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 113 is agreed, amendment 59 falls. The question is that amendment 113 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 113 is agreed.

Os yw gwelliant 113 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 59 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 113 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 113 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 113 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 113 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 59.*

*Amendment 59 fell.*

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 177.

Jocelyn Davies, gwelliant 177.

*Cynigiwyd gwelliant 177 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 177 (Jocelyn Davies) moved.*

17:00 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 177 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 177 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 177: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 177 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 177

Result of the vote on amendment 177

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 178.

Jocelyn Davies, gwelliant 178.

*Cynigiwyd gwelliant 178 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 178 (Jocelyn Davies) moved.*

17:00 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 178 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 27. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 178 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 178: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 178 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 178

Result of the vote on amendment 178

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 179.

Jocelyn Davies, gwelliant 179.

*Cynigiwyd gwelliant 179 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 179 (Jocelyn Davies) moved.*

17:01 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 179 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 179 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 179: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 179 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 179

Result of the vote on amendment 179

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 180.

Jocelyn Davies, gwelliant 180.

*Cynigiwyd gwelliant 180 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 180 (Jocelyn Davies) moved.*

17:01

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 180 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 180 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 180: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 180 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 180

Result of the vote on amendment 180

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 60.

Peter Black, gwelliant 60.

*Cynigiwyd gwelliant 60 (Peter Black [R]).*

*Amendment 60 (Peter Black [R]) moved.*

17:02

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 60 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 60 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 60: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 60 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 60

Result of the vote on amendment 60

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 114.

Weinidog, gwelliant 114.

*Cynigiwyd gwelliant 114 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 114 (Lesley Griffiths) moved.*

17:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 114 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 114 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 114 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 114 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 114 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 114 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 181.

Jocelyn Davies, gwelliant 181.

*Cynigiwyd gwelliant 181 (Jocelyn Davies, gyda chefnogaeth Mark Isherwood).*

*Amendment 181 (Jocelyn Davies, supported by Mark Isherwood) moved.*

17:02 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 181 is not agreed, amendment 182 falls. The question is that amendment 181 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os nad yw gwelliant 181 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 182 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 181 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 181: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 181 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 181

Result of the vote on amendment 181

*Methodd gwelliant 182.*

*Amendment 182 fell.*

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 61.

Peter Black, gwelliant 61.

*Ni chynigiwyd gwelliant 61 (Peter Black [R]).*

*Amendment 61 (Peter Black [R]) not moved.*

17:03 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Not moved.

Heb ei gynnig.

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Amendment 61 is not moved. Minister, amendment 115.

Nid yw gwelliant 61 yn cael ei gynnig. Weinidog, gwelliant 115.

*Cynigiwyd gwelliant 115 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 115 (Lesley Griffiths) moved.*

17:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 115 is not agreed, amendment 124 falls. If amendments 115, 118, 121 and 122 are not agreed, amendment 155 falls. The question is that amendment 115 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, there voted against 1, there were 11 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Os nad yw gwelliant 115 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 124 yn methu. Os nad yw gwelliannau 115, 118, 121 a 122 yn cael eu derbyn, bydd gwelliant 155 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 115 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, pleidleisiodd 1 yn erbyn, roedd 11 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 115: O blaid 42, Yn erbyn 1, Ymatal 11.*

*Amendment 115 agreed: For 42, Against 1, Abstain 11.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 115](#)

[Result of the vote on amendment 115](#)

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 116.

Weinidog, gwelliant 116.

*Cynigiwyd gwelliant 116 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 116 (Lesley Griffiths) moved.*

17:04 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 116 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against, there were 12 abstentions. Therefore, the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 116 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn, roedd 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 116: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 116 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 116](#)

[Result of the vote on amendment 116](#)

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 117.

Weinidog, gwelliant 117.

*Cynigiwyd gwelliant 117 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 117 (Lesley Griffiths) moved.*

17:04 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 117 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 117 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 117 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 117 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 117 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 117 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 62.

Peter Black, gwelliant 62.

*Ni chynigiwyd gwelliant 62 (Peter Black [R]).*

*Amendment 62 (Peter Black [R]) not moved.*

17:04 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Not moved.

Heb ei gynnig.

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 62 is not moved. Minister, amendment 118.

Nid yw gwelliant 62 yn cael ei gynnig. Weinidog, gwelliant 118.

*Cynigiwyd gwelliant 118 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 118 (Lesley Griffiths) moved.*

17:04 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 118 is not agreed, amendment 119 falls. The question is that amendment 118 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against. There were 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Os nad yw gwelliant 118 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 119 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 118 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 118: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 118 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 118

Result of the vote on amendment 118

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 119.

Weinidog, gwelliant 119.

*Cynigiwyd gwelliant 119 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 119 (Lesley Griffiths) moved.*

17:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 119 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There were 42 votes in favour, no votes against. There were 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 119 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Roedd 42 o bleidleisiau o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 119: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 119 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 119

Result of the vote on amendment 119

17:05

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 120.

Weinidog, gwelliant 120.

*Cynigiwyd gwelliant 120 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 120 (Lesley Griffiths) moved.*

17:05

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:05

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 120 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against. There were 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 120 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 120: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 120 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 120

Result of the vote on amendment 120

17:06

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 121.

Weinidog, gwelliant 121.

*Cynigiwyd gwelliant 121 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 121 (Lesley Griffiths) moved.*

17:06

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:06

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 121 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against. There were 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 121 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 121: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 121 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 121

Result of the vote on amendment 121

17:06

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 63.

Peter Black, gwelliant 63.

*Cynigiwyd gwelliant 63 (Peter Black [R]).*

*Amendment 63 (Peter Black [R]) moved.*

17:06

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 63 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 63 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 63: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 63 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 63

Result of the vote on amendment 63

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 64.

Peter Black, gwelliant 64.

*Cynigiwyd gwelliant 64 (Peter Black [R]).*

*Amendment 64 (Peter Black [R]) moved.*

17:07 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 64 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 64 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 64: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 64 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 64

Result of the vote on amendment 64

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 122.

Weinidog, gwelliant 122.

*Cynigiwyd gwelliant 122 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 122 (Lesley Griffiths) moved.*

17:07 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 122 is not agreed, amendment 125 falls. The question is that amendment 122 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against. There were 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Os nad yw gwelliant 122 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 125 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 122 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 122: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 122 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 122

Result of the vote on amendment 122

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 123.

Weinidog, gwelliant 123.

*Cynigiwyd gwelliant 123 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 123 (Lesley Griffiths) moved.*

17:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 123 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against, 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 123 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn, 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 123: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 123 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 123

Result of the vote on amendment 123

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 124.

Weinidog, gwelliant 124.

*Cynigiwyd gwelliant 124 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 124 (Lesley Griffiths) moved.*

17:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 124 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against, 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 124 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn, 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 124: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 124 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 124

Result of the vote on amendment 124

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 125.

Weinidog, gwelliant 125.

*Cynigiwyd gwelliant 125 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 125 (Lesley Griffiths) moved.*

17:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 125 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42, no votes against, 12 abstentions. Therefore the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 125 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn, 12 yn ymatal. Felly, caiff y gwelliant ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 125: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 125 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 125

Result of the vote on amendment 125

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 206.

Mark Isherwood, gwelliant 206.

*Cynigiwyd gwelliant 206 (Mark Isherwood).*

*Amendment 206 (Mark Isherwood) moved.*

17:09 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 206 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16, there voted against 27. There were 11 abstentions. Therefore the amendment is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 206 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Roedd 11 yn ymatal. Felly, nid yw'r gwelliant wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 206: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment 206 not agreed: For 16, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 206

Result of the vote on amendment 206

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 183.

Jocelyn Davies, gwelliant 183.

*Cynigiwyd gwelliant 183 (Jocelyn Davies, gyda chefnogaeth Mark Isherwood).*

*Amendment 183 (Jocelyn Davies, supported by Mark Isherwood) moved.*

17:09 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 183 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26; there voted against 28; therefore, the amendment is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 183 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid; pleidleisiodd 28 yn erbyn; Felly, nid yw'r gwelliant wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 183: O blaid 26, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment 183 not agreed: For 26, Against 28, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 183

Result of the vote on amendment 183

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 184.

Jocelyn Davies, gwelliant 184.

*Cynigiwyd gwelliant 184 (Jocelyn Davies gyda chefnogaeth Mark Isherwood).*

*Amendment 184 (Jocelyn Davies, supported by Mark Isherwood) moved.*

17:10 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 184 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27; there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 184 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid; pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 184: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 184 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 184

Result of the vote on amendment 184

## Grŵp 16: Troi Allan Dialgar (Gwelliannau 65, 185, 66, 127, 67, 207 a 132)

## Group 16: Retaliatory Eviction (Amendments 65, 185, 66, 127, 67, 207 and 132)

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 16—amendments relating to retaliatory eviction. The lead amendment in this group is amendment 65, and I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 16—gwelliannau yn ymwneud a throi allan er mwyn dial. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 65, a galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 65 (Peter Black [R]).*

*Amendment 65 (Peter Black [R]) moved.*

17:10 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I think this is another issue where we need to get the balance right between the rights of the tenant and those of the landlord. I think that the approach adopted in the Bill is the right one, in that it seeks to ensure that only a notice of eviction in direct response to a complaint will be struck down, and that it will protect those landlords who seek to regain possession of property for legitimate reasons.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn credu bod hwn yn fater arall lle y mae angen i ni daro'r cydbwysedd cywir rhwng hawliau'r tenant a hawliau'r landlord. Credaf mai'r dull a fabwysiadwyd yn y Bil yw'r un cywir, gan ei fod yn ceisio sicrhau mai dim ond rhybudd o droi allan mewn ymateb uniongyrchol i gŵyn a fydd yn cael ei ddiddymu, ac y bydd yn amddiffyn y landlordiaid hynny sy'n ceisio ailfeddiannu'r eiddo am resymau dilys.

But the committee also felt that there should be changes to these clauses; in particular, recommendation 12 of its report said that the Minister should amend the Bill to:

Ond teimlai'r pwyllgor hefyd y dylid gwneud newidiadau i'r cymalau hyn; yn benodol, roedd argymhelliad 12 o'i adroddiad yn dweud y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil er mwyn:

'widen the definition of retaliatory eviction beyond disrepair and fitness for human habitation'.

'Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i ehangu'r diffiniad o droi allan dialgar y tu hwnt i ddiffyg atgyweirio a ffit i bobl fyw ynddo'.

Recommendation 13 was that the Minister should amend the Bill to:

Argymhelliad 13 oedd y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i:

'include a rebuttable presumption that an eviction is retaliatory in cases where it occurs after a contract-holder has registered a complaint with the landlord about the condition of the property'.

'gynnwys rhagdybiaeth gwrthbrofadwy bod achos o droi allan yn un dialgar mewn achosion lle mae'n digwydd ar ôl i'r deiliad contract gofrestru cwyn gyda'r landlord am gyflwr yr eiddo'.

So, my amendments, as tabled here, seek to cover any possession claim by a landlord that could be retaliatory, ensuring that it's not limited to cases about the condition of the property and gives a wider margin of discretion for judges. The court will not be satisfied the claim is retaliatory if the landlord needs to sell the dwelling or the contract holder is in breach of the contract. The amendment is also designed to provide landlords with some protection against those tenants who might routinely file complaints in order to avoid eviction, even though they may be in serious rent arrears. I don't feel that the amendment waters down a tenant's protection against retaliatory eviction, as the onus is one the landlord to justify the eviction that they are pursuing.

Felly, mae fy ngwelliannau i, fel y'i cyflwynir yma, yn ceisio cynnwys unrhyw hawliad meddiant gan landlord a allai fod yn ddialgar, gan sicrhau nad yw'n gyfyngedig i achosion yn ymwneud â chyflwr yr eiddo ac mae'n rhoi mwy o gyfle i farnwyr arfer disgresiwn. Ni fydd y llys wedi'i fodloni bod y cais yn ddialgar os yw'r landlord angen gwerthu'r annedd neu bod deiliad y contract wedi torri'r contract. Mae'r gwelliant hefyd wedi'i gynllunio i ddiogelu landlordiaid i ryw raddau yn erbyn y tenantiaid hynny a allai ffeilio cwynion fel mater o drefn er mwyn osgoi troi allan, er eu bod mewn ôl-ddyled difrifol o ran y rhent. Nid wyf yn credu bod y gwelliant yn gwanhau amddiffyniad tenant yn erbyn troi allan er mwyn dial, gan fod y cyfrifoldeb ar y landlord i gyfiawnhau'r troi allan y mae'n ceisio ei wneud.

I hope, Deputy Presiding Officer, the Minister takes these amendments in the spirit that they are intended. I think it's important that we do have some clarity on this, and I think some landlords in particular feel that that clarity is not there and that there needs to be some further provisions within the Bill accordingly.

Rwyf yn gobeithio, Ddirprwy Lywydd, bod y Gweinidog yn derbyn y gwelliannau hyn yn yr ysbryd y'u bwriadwyd. Rwyf yn credu ei bod yn bwysig ein bod ni'n cael rhywfaint o eglurder ar hyn, ac rwyf yn credu bod rhai landlordiaid yn arbennig yn credu nad yw'r eglurder hwnnw yno, a bod angen cael rhai darpariaethau pellach yn y Bil yn unol â hynny.

17:12 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 207 is designed to provide landlords with some protection against unscrupulous tenants, because, clearly, a minority of bad landlords are bad, but, clearly, a minority of tenants are also problem causers. So, we're talking about the tenants who may routinely file, for example, illegitimate complaints in order to avoid eviction, even though, for example, they may be in serious rent arrears. We don't feel that this amendment waters down a tenant's protection against retaliatory eviction, as the onus is on the landlords to justify that the possession claim is not motivated by a desire to avoid complying with sections 91 or 92, or that the landlord wishes to sell or otherwise transfer his or her interest in the dwelling, or the contract holder is in breach of the contract.

Mae gwelliant 207 wedi'i gynllunio i roi rhywfaint o amddiffyniad i landlordiaid yn erbyn tenantiaid diegwyddor, oherwydd, yn amlwg, dim ond nifer fach o landlordiaid sy'n ddrwg, ond, yn amlwg, dim ond nifer fach o denantiaid sydd yn achosi problemau hefyd. Felly, rydym yn sôn am y tenantiaid a allai ffeilio cwynion annilys fel mater o drefn, er enghraifft, er mwyn osgoi troi allan, er eu bod, er enghraifft, mewn ôl-ddyledion difrifol o bosibl o ran y rhent. Nid ydym yn credu bod y gwelliant hwn yn gwanhau amddiffyniad tenant yn erbyn troi allan er mwyn dial, gan fod y cyfrifoldeb ar y landlordiaid i gyfiawnhau nad yw'r cais am feddiant wedi ei ysgogi gan awydd i osgoi i cydymffurfio ag adrannau 91 neu 92, neu bod y landlord yn dymuno gwerthu neu drosglwyddo fel arall ei fuddiant yn yr annedd, neu bod deiliad y contract wedi torri amodau'r contract.

We'll also support Peter Black's amendments 66 and 67. As Citizens Advice Cymru said, supporting amendments 66 and 67 and voting against the Welsh Government's amendment 127 had been called for to ensure retaliatory eviction for causes other than disrepair is on the face of the Bill. As Citizens Advice said, the Welsh Government amendment 127 gives Ministers the power to create regulations for the purpose of providing for further descriptions of retaliatory claims, enabling Ministers to outline other circumstances considered retaliatory eviction beyond disrepair. They said that this amendment provides for a power that may never be enacted, leaving vulnerable tenants subject to rogue landlord actions. Should amendments 66 and 67 fall, however, they said that the Welsh Government amendment 127 is likely to be enacted, and they would then call on Members to ensure that the Minister commits to enacting this power without implementation. In responding, I would also ask the Minister to respond to Citizens Advice's request accordingly.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau 66 a 67 Peter Black. Fel y dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru, galwyd am gefnogaeth i welliannau 66 a 67 a phleidleisio yn erbyn gwelliant 127 Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod troi allan er mwyn dial ar gyfer achosion ar wahân i ddiffyg atgyweirio ar wyneb y Bil. Fel y dywedodd Cyngor ar Bopeth, mae gwelliant 127 Llywodraeth Cymru yn rhoi'r pŵer i Weinidogion greu rheoliadau er mwyn darparu ar gyfer disgrifiadau ehangach o honiadau o ddial, gan alluogi Gweinidogion i amlinellu amgylchiadau eraill yr ystyrir eu bod yn droi allan er mwyn dial y tu hwnt i ddiffyg atgyweirio. Dywedasant fod y gwelliant hwn yn darparu ar gyfer pŵer na fydd efallai fyth yn cael ei ddeddfu, gan adael tenantiaid sy'n agored i niwed yn agored i gamau gweithredu gan landlordiaid twyllodrus. Pe byddai gwelliannau 66 a 67 yn methu, fodd bynnag, dywedasant y bydd gwelliant 127 Llywodraeth Cymru yn debygol o gael ei weithredu, ac y byddent wedyn yn galw ar yr Aelodau i sicrhau bod y Gweinidog yn ymrwymo i ddeddfu'r pŵer hwn heb ei weithredu. Wrth ymateb, rwyf hefyd yn gofyn i'r Gweinidog ymateb i gais Cyngor ar Bopeth yn unol â hynny.

17:14 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The inclusion of measures to put an end to retaliatory eviction is to be welcomed, and I'm sure that most Assembly Members here will have had casework from their constituents who've experienced or have been threatened with retaliatory eviction. I know that the majority of landlords and letting agents would not behave so unethically as to evict a tenant because they have a complaint about the condition of their home, but the behaviour of a small number of landlords is eroding trust between landlord and tenant and giving the profession a bad name. However, I'm not sure that the current drafting of this section of the Bill is quite clear enough. I am concerned that it currently gives too much power to the badly behaved tenant, who could use an accusation of retaliatory eviction to escape the consequences of their own poor behaviour or failure to pay the rent. Therefore, I've tabled amendment 54 to ensure that an eviction is only to be considered retaliatory if there is a record of the contract holder's complaints, either to the landlord or to the local authority, about the landlord's failure to comply with their obligations. This will ensure that there is recorded evidence available that the tenant has tried to have an issue resolved and that the landlord is responding to that with the threat of eviction.

Mae cynnwys mesurau i roi terfyn ar droi allan er mwyn dial i'w groesawu, ac rwyf yn siŵr y bydd y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad sydd yma wedi derbyn gwaith achos gan etholwyr sydd wedi cael y profiad o gael eu troi allan er mwyn dial neu wedi eu bygwth â hynny. Gwn na fyddai'r rhan fwyaf o landlordiaid ac asiantau gosod tai yn ymddwyn mewn modd mor anfoesol â throi allan tenant yn dilyn cwyn am gyflwr ei gartref, ond mae ymddygiad nifer fach o landlordiaid yn erydu ffydd rhwng landlordiaid a thenantiaid ac yn rhoi enw drwg i'r proffesiwn. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr bod drafftio cyfredol yr adran hon o'r Bil yn ddigon clir. Rwyf yn pryderu ei fod ar hyn o bryd yn rhoi gormod o bŵer i'r tenant sy'n ymddwyn yn wael, a allai ddefnyddio'r cyhuddiad o droi allan er mwyn dial i ddianc rhag canlyniadau ei ymddygiad gwael neu fethiant i dalu'r rhent. Felly, rwyf wedi cyflwyno gwelliant 54 er mwyn sicrhau bod troi allan dim ond yn cael ei ystyried yn ddialgar os oes cofnod o gwynion gan ddeiliad y contract, naill ai i'r landlord neu i'r awdurdod lleol, am fethiant y landlord i gydymffurfio â'i rwymedigaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod tystiolaeth gofnodedig ar gael bod y tenant wedi ceisio datrys problem a bod y landlord yn ymateb i hynny gyda'r bygythiad o droi allan.

17:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The retaliatory eviction provisions included in the Bill respond directly to concerns that were raised in response to our consultation. These concerns emphasised the fact that tenants are sometimes unwilling to seek repairs to be done for fear of being evicted by the landlord. Unfortunately, this practice is far too common—I think we've all had cases in our advice surgeries.

Mae'r darpariaethau ar gyfer troi allan er mwyn dial sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn ymateb yn uniongyrchol i bryderon a godwyd mewn ymateb i'n hymgynghoriad. Pwysleisiodd y pryderon hyn y ffaith fod tenantiaid weithiau'n amharod i ofyn am i waith trin gael ei wneud rhag iddynt gael eu troi allan gan y landlord. Yn anffodus, mae'r arfer hwn yn llawer rhy gyffredin—credaf ein bod ni i gyd wedi cael achosion yn ein cymorthfeydd cynghori.

Turning first to the amendments from Peter Black, I do understand the intentions, but amendment 65 and 66 would open the potential for contract holders to cite retaliatory eviction wherever they thought the landlord was making the claim in retribution; that is, for matters unrelated to disrepair and fitness for human habitation. This could, potentially, create a considerable loophole for contract holders to avoid a genuine possession claim by the landlord. In addition, I think it could also impose a considerable burden on the courts in hearing claims where such defences are raised. Conversely, amendment 67 from Peter could create a loophole in favour of landlords. A landlord who is seeking a retaliatory eviction could still obtain a possession order by claiming he or she wished to sell the property. And again, I think that it would, very likely, be very difficult for a court to determine. These amendments will make no-fault possession proceedings very complex and very time-consuming for landlords, contract holders and the courts, with all the costs associated with such action.

Gan droi yn gyntaf at y gwelliannau gan Peter Black, rwyf yn deall y bwriadau, ond byddai gwelliannau 65 a 66 yn agor y potensial i ddeiliaid contract honni troi allan er mwyn dial pryd bynnag y byddant yn meddwl bod y landlord yn gwneud hawliad er mwyn dial; hynny yw, ar gyfer materion nad ydynt yn gysylltiedig â diffyg atgyweirio nac addasrwydd y safle i bobl fyw yno. Gallai hyn, o bosib, greu bwlch sylweddol i ddeiliaid contract i osgoi hawliad meddiant dilys gan y landlord. Yn ogystal, rwyf yn meddwl y gallai hefyd osod baich sylweddol ar y llysoedd mewn achosion hawliadau pan fydd amddiffyniadau o'r fath yn cael eu codi. I'r gwrthwyneb, gallai gwelliant 67 gan Peter greu bwlch a fyddai o blaid landlordiaid. Gallai landlord sydd yn ceisio troi allan er mwyn dial gael gorchymyn adennill meddiant o hyd drwy honni ei fod ef neu hi yn dymuno gwerthu'r eiddo. Ac eto, rwyf yn meddwl y byddai, yn ôl pob tebyg, yn anodd iawn i lys benderfynu. Bydd y gwelliannau hyn yn gwneud achosion cymryd meddiant heb fod bai yn gymhleth iawn ac yn cymryd llawer o amser landlordiaid, deiliaid contract a'r llysoedd, gyda'r holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu o'r fath.

Amendment 207 from Mark Isherwood would disapply the retaliatory eviction provisions where a landlord wishes to sell the property or where the contract holder is in breach of the contract, so I don't support that amendment.

Byddai gwelliant 207 gan Mark Isherwood yn datgymhwyso'r darpariaethau troi allan er mwyn dial pan fo landlord yn dymuno gwerthu'r eiddo neu os yw deiliad y contract wedi torri'r contract, felly nid wyf yn cefnogi'r gwelliant hwnnw.

Amendment 185 from Jocelyn Davies provides for the court to determine that an eviction is retaliatory if a contract holder has complained regarding disrepair to either the landlord or the local authority in the previous six months. And, again, I understand the intention behind the amendment, but when we considered this amendment at Stage 2, I stated that it's problematic for two reasons. Firstly, a complaint made to a local authority could often mean a landlord is unaware of the disrepair issue. A landlord could be genuinely seeking possession of a property, yet be unaware an existing disrepair issue has been raised without having had an opportunity to address it. Secondly, since the amendment applies a limit of six months, a landlord could delay carrying out repairs and leave commencing a possession claim until six months after receipt of a repair request. Again, that could effectively switch off the protection against retaliatory eviction, and I don't think any of us want to see that.

Mae gwelliant 185 gan Jocelyn Davies yn darparu ar gyfer i'r llys benderfynu bod troi allan yn ddialgar os yw deiliad contract wedi cwyno ynghylch diffyg atgyweirio naill ai i'r landlord neu i'r awdurdod lleol yn ystod y chwe mis blaenorol. Ac, unwaith eto, rwyf yn deall y bwriad y tu ôl i'r gwelliant, ond pan wnaethom ystyried y gwelliant hwn yng Nghyfnod 2, dywedais ei fod yn broblemus am ddau reswm. Yn gyntaf, gallai cwyn a wneir i awdurdod lleol olygu yn aml nad yw landlord yn ymwybodol o'r broblem o ddiffyg atgyweirio. Gallai landlord fod yn ceisio meddiannu eiddo yn ddilys, ac eto bod yn anymwybodol fod problem diffyg atgyweirio wedi ei chodi heb iddo gael cyfle i ymdrin â hi. Yn ail, gan fod y gwelliant yn cymhwyso terfyn o chwe mis, gallai landlord oedi'r broses o wneud y gwaith atgyweirio ac osgoi gwneud hawliad meddiant tan fod chwe mis wedi mynd heibio ers derbyn y cais i atgyweirio. Unwaith eto, gallai hynny ddileu'r diogelwch yn erbyn troi allan er mwyn dial, ac nid wyf yn credu bod unrhyw un ohonom ni eisiau gweld hynny.

Turning to the Government amendments, in line with the commitment I gave at Stage 2, I have given very careful consideration to what more could be done in this Bill. As Peter Black said, it is about maintaining a reasonable balance between the rights of contract holders and landlords, and that's absolutely critical. So, I've tabled amendments that would enable additional circumstances that would constitute retaliatory eviction to be defined by regulations. This will enable the Government to respond to retaliatory practices that may arise in future or to existing practices becoming increasingly problematic. It's got the additional advantage of enabling broad consultation to take place in order to ensure unintentional consequences are avoided. I think we must remember that this provision, as I said at the beginning, was not in the Bill; it was included following the White Paper consultation. I think any further extension of the retaliatory eviction would need that much wider consultation and it would need careful consideration. That's why I think a regulation power is better at this time.

Gan droi at welliannau'r Llywodraeth, yn unol â'r ymrwymiad a roddais yng Nghyfnod 2, rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn i beth arall y gellid ei wneud yn y Bil hwn. Fel y dywedodd Peter Black, mae'n ymwneud â chynnal cydbwysedd rhesymol rhwng hawliau deiliaid contract a landlordiaid, ac mae hynny'n gwbl hanfodol. Felly, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau a fyddai'n galluogi amgylchiadau ychwanegol a fyddai'n gyfystyr â throi allan er mwyn dial i gael eu diffinio gan reoliadau. Bydd hyn yn galluogi'r Llywodraeth i ymateb i arferion dialgar a allai godi yn y dyfodol neu arferion cyfredol sy'n dod yn fwyfwy problemus. Mae ganddo'r fantais ychwanegol o alluogi cynnal ymgynghoriad eang er mwyn sicrhau bod canlyniadau anfwriadol yn cael eu hosgoi. Mae'n rhaid inni gofio nad yw'r ddarpariaeth hon, fel y dywedais ar y dechrau, yn y Bil; cafodd ei chynnwys yn dilyn yr ymgynghoriad Papur Gwyn. Rwy'n credu y byddai angen yr ymgynghori llawer ehangach hwnnw ar gyfer unrhyw estyniad pellach o droi allan er mwyn dial a byddai angen ystyriaeth ofalus. Dyna pam yr wyf yn credu bod pŵer rheoleiddio yn well ar hyn o bryd.

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

17:19

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the fact that the Minister is seeking to enable herself to issue regulations on this and that we can look at this further. I think it is important that we do get this balance right and that we do ensure that landlords are not—. I mean, either side can really take advantage of this provision, can't they, and I think we need to make sure that all bases are covered? So, I would expect the Minister to be issuing regulations following a further consultation on this, but I think for the time being I do feel that there are specific loopholes on the face of the Bill, which do need to be addressed and, therefore, I will be pressing my amendments.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y ffaith fod y Gweinidog yn ceisio ei galluogi ei hun i gyhoeddi rheoliadau ar hyn ac y gallwn edrych ar hyn ymhellach. Rwyf yn credu ei bod yn bwysig ein bod ni'n cael y cydbwysedd hwn yn iawn ac ein bod ni'n sicrhau nad yw landlordiaid—. Wyddoch chi, gall y naill ochr neu'r llall fanteisio ar y ddarpariaeth hon mewn gwirionedd, oni allant, ac rwyf yn credu bod arnom angen sicrhau bod pob agwedd wedi ei hystyried? Felly, byddwn yn disgwyl i'r Gweinidog gyhoeddi rheoliadau yn dilyn ymgynghoriad pellach ar hyn, ond rwyf yn credu ar hyn o bryd bod bylchau penodol ar wyneb y Bil, y mae angen mynd i'r afael â hwy, felly, byddaf yn pwyso fy ngwelliannau.

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 65 is agreed, amendments 126 and 185 fall. The question is that amendment 65 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16, there voted against 38. Therefore, the amendment falls.

Os derbynnir gwelliant 65, bydd gwelliannau 126 a 185 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 65 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 16 wedi pleidleisio o blaid, mae 38 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 65: O blaid 16, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment 65 not agreed: For 16, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 65

Result of the vote on amendment 65

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 126.

Weinidog, gwelliant 126.

*Cynigiwyd gwelliant 126 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 126 (Lesley Griffiths) moved.*

17:20

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 126 be agreed. Does any Member object? No. Then, amendment 126 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 126 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Yna, mae gwelliant 126 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 126 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 126 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Jocelyn Davies, amendment 185.

Jocelyn Davies, gwelliant 185.

*Cynigiwyd gwelliant 185 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 185 (Jocelyn Davies) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Move.

Cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

If amendment 185 is agreed, amendment 66 falls. The question is that amendment 185 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os bydd gwelliant 185 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 66 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 185 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 185: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 185 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 185

Result of the vote on amendment 185

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Peter Black, amendment 66.

Peter Black, gwelliant 66.

*Cynigiwyd gwelliant 66 (Peter Black [R]).*

*Amendment 66 (Peter Black [R]) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Move.

Cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 66 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 66 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 66: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 66 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

Senedd.tv Fideo Video

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 66]

[Result of the vote on amendment 66]

17:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, amendment 127.

Weinidog, gwelliant 127.

*Cynigiwyd gwelliant 127 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 127 (Lesley Griffiths) moved.*

17:22

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Formally.

Yn ffurfiol.

17:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 127 be agreed. Does any Member object? Then amendment 127 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 127 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 127 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 127 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 127 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Peter Black, amendment 67.

Peter Black, gwelliant 67.

*Cynigiwyd gwelliant 67 (Peter Black [R])*

*Amendment 67 (Peter Black [R]) moved.*

17:22

## Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move.

Rwyf yn cynnig.

17:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

If amendment 67 is agreed, amendment 207 falls. The question is that amendment 67 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 39. Therefore, the amendment falls.

Os bydd gwelliant 67 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 207 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 67 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 15 wedi pleidleisio o blaid, mae 39 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 67: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 67 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 67]

[Result of the vote on amendment 67]

17:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Mark Isherwood, amendment 207.

Mark Isherwood, gwelliant 207.

*Cynigiwyd gwelliant 207 (Mark Isherwood)*

*Amendment 207 (Mark Isherwood) moved.*

17:22

## Mark Isherwood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move.

Rwyf yn cynnig.

17:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 207 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 207 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 207: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 207 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 207

Result of the vote on amendment 207

## Grŵp 17: Cefnu (Gwelliannau 68, 69, 70 a 71)

## Group 17: Abandonment (Amendments 68, 69, 70 and 71)

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 17—amendments relating to abandonment. The lead amendment in this group is amendment 68 and I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 17—gwelliannau yn ymwneud â gadawiad. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 68 a galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 68 (Peter Black [R]).*

*Amendment 68 (Peter Black [R]) moved.*

17:23 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Recommendation 35 of the committee's report called on the Minister to amend the Bill so that landlords can only seek possession for abandonment where serious grounds for possession under sections 179(2) and 184(2) have been made out. These amendments are an attempt to put that recommendation into practice.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Roedd argymhelliad 35 o adroddiad y pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i ddiwygio'r Bil fel y gall landlordiaid gwneud cais am feddiant dim ond ar gyfer gadawiad lle y mae sail ddifrifol ar gyfer meddiannu wedi ei nodi o dan adrannau 179 (2) a 184 (2). Ymgais i roi'r argymhelliad hwnnw ar waith yw'r gwelliannau hyn.

I was interested in the committee when the Minister was asked about her intention in relation to the Protection from Eviction Act 1977 where she said that she had no intention of amending that particular Act, which does seem to me to be strange, given that this is meant to be a comprehensive renting homes Bill in relation to that. But, clearly, the Protection from Eviction Act will stay separate from this Bill and will stand alone. But I do think that we do need to be clearer in terms of grounds for possession on abandonment, particularly where serious rent arrears have been incurred. So, I think amendment 68 is attempting to say that in terms of setting out that the contract holder is in serious rent arrears within the meaning of section 180 or 186. My other amendments relating to periodic contracts, and amendments 70 and 71—. The committee recommended that the Minister amends the Bill to prevent a landlord from recovering possession under the no-fault ground during the first six months of a standard contract. Again, in terms of abandonment, which is a very difficult situation for landlords to find themselves in, we need to make sure there is comprehensive guidance so that the landlord is confident and also the contract holder is protected as part of that. So, I hope, Deputy Presiding Officer, that the Minister is able to support these amendments.

Roedd gen i ddiddordeb yn y pwyllgor pan ofynnwyd i'r Gweinidog am ei bwriad mewn cysylltiad â Deddf Gwarchod rhag Dadfeddiannu 1977 pryd y dywedodd hi nad oedd ganddi unrhyw fwriad i ddiwygio'r Ddeddf benodol honno, sy'n ymddangos yn rhyfedd imi, o gofio bod hwn i fod yn Fil rhentu cartrefi cynhwysfawr mewn cysylltiad â hynny. Ond, yn amlwg, bydd y Ddeddf Gwarchod rhag Dadfeddiannu yn aros ar wahân i'r Bil hwn a bydd yn sefyll ar ei phen ei hun. Ond rwyf yn meddwl bod angen i ni fod yn gliriach o ran sail i feddiannu yn dilyn gadawiad, yn enwedig pan geir ôl-ddyledion rhent difrifol. Felly, rwyf yn credu bod gwelliant 68 yn ceisio dweud hynny o ran egluro bod deiliad y contract mewn ôl-ddyledion rhent difrifol o fewn ystyr adran 180 neu 186. Mae fy ngwelliannau eraill yn ymwneud â chontractau cyfnodol, a gwelliannau 70 a 71—. Argymhellodd y pwyllgor fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i atal landlord rhag ailfeddiannu ar sail dim bai yn ystod chwe mis cyntaf contract safonol. Unwaith eto, o ran gadawiad, sy'n sefyllfa anodd iawn i landlordiaid ganfod eu hunain ynddi, mae arnom angen sicrhau bod canllawiau cynhwysfawr fel bod y landlord yn hyderus a hefyd bod deiliad y contract yn cael ei ddiogelu yn rhan o hynny. Felly, rwyf yn gobeithio, Ddirprwy Lywydd, y bydd y Gweinidog yn gallu cefnogi'r gwelliannau hyn.

17:25

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

These amendments from Peter Black, which have been tabled again from Stage 2, seek to modify the abandonment provisions in the Bill. However, I do believe they will significantly undermine the effectiveness of the provisions, to the extent they are ineffective in achieving the aim of reducing the time that abandoned properties stand empty, which is why that provision is in this Bill. We all know the current pressures on housing supply, and that is absolutely what we want to avoid.

Mae'r gwelliannau hyn gan Peter Black, sydd wedi'u cyflwyno eto o Gyfnod 2, yn ceisio addasu'r darpariaethau ar gyfer gadawiad yn y Bil. Fodd bynnag, rwyf yn credu y byddant yn tanseilio effeithiolrwydd y darpariaethau yn sylweddol, i'r fath raddau y byddant yn aneffeithiol i gyflawni'r nod o leihau'r amser y mae eiddo wedi ei adael yn parhau'n wag, a dyna pam mae'r ddarpariaeth honno yn y Bil hwn. Mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r pwysau ar hyn or bryd ar y ddarpariaeth tai, a dyna'n union yr hyn yr ydym yn ceisio ei osgoi.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

17:25

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move.

Rwyf yn cynnig.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 68 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 38. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 68 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 16 wedi pleidleisio o blaid. Mae 38 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 68: O blaid 16, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment 68 not agreed: For 16, Against 38, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 68](#)

[Result of the vote on amendment 68](#)

17:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Peter Black, amendment 69.

Peter Black, gwelliant 69.

*Cynigiwyd gwelliant 69 (Peter Black[R]).*

*Amendment 69 (Peter Black[R]) moved.*

17:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 69 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 38. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 69 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 16 wedi pleidleisio o blaid. Mae 38 wedi pleidleisio yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 69: O blaid 16, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment 69 not agreed: For 16, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 69

Result of the vote on amendment 69

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 70.

Peter Black, gwelliant 70.

*Cynigiwyd gwelliant 70 (Peter Black [R])*

*Amendment 70 (Peter Black[R]) moved.*

17:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 70 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 70 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid. Mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 70: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 70 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 70

Result of the vote on amendment 70

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 71.

Peter Black, gwelliant 71.

*Cynigiwyd gwelliant 71 (Peter Black[R]).*

*Amendment 71 (Peter Black[R]) moved.*

17:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 71 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 71 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid. Mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 71: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 71 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 71

Result of the vote on amendment 71

17:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 128 to 131 are disposed of en bloc. Does any Member object? Minister, amendments 128 to 131.

Cynigiaf fod gwelliannau 128 i 131 yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Weinidog, gwelliannau 128 i 131.

*Cynigiwyd gwelliannau 128, 129, 130 a 131 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 128, 129, 130 and 131 (Lesley Griffiths) moved.*

17:27

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 128 to 131 be agreed. Does any Member object? Then amendments 128 to 131 are agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliannau 128 i 131 yn cael eu derbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliannau 128 i 131 wedi eu derbyn.

*Derbyniwyd gwelliannau 128, 129, 130 a 131 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendments 128, 129, 130 and 131 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 72.

Peter Black, gwelliant 72.

*Cynigiwyd gwelliant 72 (Peter Black[R]).*

*Amendment 72 (Peter Black[R]) moved.*

17:27

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 72 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 72 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid. Mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 72: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 72 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 72

Result of the vote on amendment 72

### Grŵp 18: Ffioedd Asiantaethau Gosod Tai (Gwelliannau 186 a 188)

### Group 18: Letting Agent Fees (Amendments 186 and 188)

17:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 18—amendments relating to letting agent fees. The lead amendment in this group is amendment 186. I call on Jocelyn Davies to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 18—gwelliannau yn ymwneud â ffioedd asiantau gosod. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 186. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp a siarad amdanynt .

*Cynigiwyd gwelliant 186 (Jocelyn Davies, gyda chefnogaeth Peter Black).*

*Amendment 186 (Jocelyn Davies, supported by Peter Black) moved.*

17:28 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Letting agent activities often hit the headlines, usually for the wrong reasons, and some have a reputation for sharp practice. I think that needs addressing in a Bill about renting.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae gweithgareddau asiantaethau tai yn cyrraedd y penawdau yn aml, fel arfer am y rhesymau anghywir, ac mae gan rai enw drwg am arferion diegwyddor. Credaf fod angen mynd i'r afael â hynny mewn Bil am rentu.

The amendments I've tabled in this group give Welsh Ministers the power to make regulations to limit letting agent fees. Choosing to rent a new home through a letting agent can be very expensive. Non-refundable holding fees to secure a property, credit checks, reference checks, fees for producing an inventory—it can all add up to hundreds of pounds before you've even moved in. Then, after living in the house for the first six months, some tenants are charged a renewal fee just to be able to stay in their home. This is an issue that hits all renters that use a letting agent, but particularly those on low income and students.

Mae'r gwelliannau yr wyf wedi eu cyflwyno yn y grŵp hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n cyfyngu ar ffioedd asiantau gosod tai. Gall dewis i rentu cartref newydd drwy asiant gosod tai fod yn ddrud iawn. Ffioedd cadw nad ydynt yn cael eu had-dalu i sicrhau eiddo, gwiriadau credyd, gwiriadau geirda, ffioedd ar gyfer creu rhestr eiddo—gall hyn i gyd fod yn gannoedd o bunnoedd hyd yn oed cyn symud i mewn. Wedyn, ar ôl byw yn y tŷ am y chwe mis cyntaf, mae rhai tenantiaid yn gorfod talu ffi adnewyddu dim ond er mwyn cael aros yn eu cartrefi. Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar bawb sy’n rhentu ac sy'n defnyddio asiant gosod tai, ond yn enwedig y rhai hynny sydd ar incwm isel a myfyrwyr.

The National Union of Students has found that more than half of students have to pay over £500 to set up their tenancy. Finding several hundred pounds in additional fees is a significant financial burden, and that is per student and not per property, so this is a lucrative activity with very little justification.

Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi canfod bod mwy na hanner myfyrwyr yn gorfod talu dros £500 i sefydlu eu tenantiaeth. Mae dod o hyd i gannoedd o bunnoedd mewn ffioedd ychwanegol yn faich ariannol sylweddol, ac mae hynny fesul myfyriwr ac nid fesul eiddo, felly mae hyn yn weithgaredd sy’n gwneud arian gydag ychydig iawn o gyfiawnhad iddo.

These amendments will not stop letting agents making a profit, but the costs should be covered by the landlord and not by the tenant. If you use an estate agent to sell your house, you pay the fees, not the person buying the property. Letting agent fees are already illegal in Scotland. Since 2012, when the Scottish Government issued a clarification of the law, it has been illegal for letting agents in Scotland to charge a fee beyond the rent and the refundable deposit. While there are some issues around compliance and enforcement of the law there, it does offer protection for tenants from unfair fees. Letting agents’ fees to landlords as a result in Scotland have not risen. So, they’re still making their profit, despite not being able to charge the tenant.

Ni fydd y gwelliannau hyn yn atal asiantau gosod tai rhag gwneud elw, ond dylai'r costau gael eu talu gan y landlord ac nid gan y tenant. Os ydych chi’n defnyddio asiant gosod tai i werthu eich tŷ, chi sy’n talu'r ffioedd, nid y person sy’n prynu'r eiddo. Mae ffioedd asiantau gosod tai eisoes yn anghyfreithlon yn yr Alban. Ers 2012, pan gyhoeddodd Llywodraeth yr Alban eglurhad o'r gyfraith, mae hi wedi bod yn anghyfreithlon i asiantau gosod tai yn yr Alban godi ffi y tu hwnt i'r rhent a'r blaendal ad-daladwy. Er bod rhai materion yn ymwneud â chydymffurfio a gorfodi'r gyfraith yno, mae hyn yn cynnig amddiffyniad i denantiaid rhag ffioedd annheg. Nid yw ffioedd asiantau gosod tai i landlordiaid wedi codi o ganlyniad i hyn yn yr Alban. Felly, maent yn dal i wneud elw, er gwaethaf y ffaith nad ydynt yn cael codi ffioedd ar y tenant.

The Labour Party in England tabled an amendment to the Consumer Rights Bill in 2014 to ban the letting agents’ fees there. While the amendment didn’t pass, there is, I feel, growing cross-party consensus that something must be done to make the market fair for tenants, and I think limiting agents’ fees would be an important start. Thank you.

Cyflwynodd y Blaid Lafur yn Lloegr welliant i'r Bil Hawliau Defnyddwyr yn 2014 i wahardd y ffioedd asiantau gosod tai yno. Er na phasiwyd y gwelliant, mae, rwy’n teimlo, consensws trawsbleidiol cynyddol bod yn rhaid gwneud rhywbeth i wneud y farchnad yn deg i denantiaid, ac rwyf yn credu y byddai cyfyngu ar ffioedd asiantau gosod tai yn ddechrau da. Diolch.

17:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 213 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 213 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 213: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 213 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 213.

Result of the vote on amendment 213.

### Grŵp 22: Eithriadau i Adran 7: Contractau Cyfnod Prawf Cyfnodol (Gwelliannau 214 a 215)

### Group 22: Exceptions to Section 7: Periodic Probationary Contracts (Amendments 214 a 215)

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We move to the final group of amendments, relating to periodic probationary contracts. The lead amendment in this group is amendment 214. I call on Mark Isherwood to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group—the other amendment, rather, in the group.

Rydym ni'n symud i'r grŵp olaf o welliannau, yn ymwneud â chontractau cyfnod prawf cyfnodol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 214. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt —y gwelliant arall, yn hytrach, yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 214 (Mark Isherwood).*

*Amendment 214 (Mark Isherwood) moved.*

17:48

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Well, this amendment makes it clear up front that the occupier has the promise of a standard contract if his or her conduct is satisfactory. 'Conduct' here is wide enough to include payment of rent and looking after the property, not just behaving in a way that's respectful of neighbours and so on. In any event, it's backed up with a landlord's ability to end the arrangement when a probationary period is up. The occupier can also give notice that he or she does not want to continue. The probationary period can be any period so long as it's not more than six months. So, it could be one week, two weeks, a month, two months, et cetera. In this case we've restricted it to six months maximum, in line both with the general terminology within the Bill but also the suggestion of the Residential Landlords Association and others. After six months it would then become the standard contract, unless the landlord or occupier served notice to end it. This makes logical sense, otherwise the occupier would have no incentive to agree to fewer than six months. As the RLA say, allowing these contracts, which use the proposed Residential Landlord Association long-term tenancy or right to renewal agreement, to be exempt from the moratorium would mean that a landlord can offer a periodic contract with a promise that, in a given period of time, should the period specified be satisfactory, the tenant would be automatically offered the right to renew, which must have been set out at the beginning of the tenancy. This would mean that, for the majority of tenants who do not want, or who are not offered, the right to renew, the six-month moratorium would still offer them protection. This is doubly good for previously homeless people as it removes the barrier that is the six-month moratorium for landlords providing accommodation, and certainly gives them a greater incentive to make the trial period work, as they would have the right to renew at the end of this period, assuming that everything goes well.

Diolch. Wel, mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn glir o'r dechrau bod gan y meddiannydd addewid o gontract safonol os yw ei ymddygiad ef neu hi yn foddhaol. Mae 'ymddygiad' yma yn ddigon eang i gynnwys talu rhent a gofalu am yr eiddo, nid dim ond ymddwyn mewn ffordd sy'n parchu cymdogion ac yn y blaen. Beth bynnag, mae hyn yn cael ei ategu gan allu landlord i roi terfyn ar y trefniant pan fo cyfnod prawf yn dod i ben. Gall y deiliad hefyd roi rhybudd nad yw ef neu hi yn dymuno parhau. Gall y cyfnod prawf fod yn unrhyw gyfnod ond ni chaiff fod yn fwy na chwe mis. Felly, gallai fod yn wythnos, pythefnos, mis, dau fis, ac ati. Yn yr achos hwn rydym wedi ei gyfyngu i uchafswm o chwe mis, yn unol â'r derminoleg gyffredinol yn y Bil, a hefyd ag awgrym y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl ac eraill. Ar ôl chwe mis, byddai wedyn yn dod yn gontract safonol, oni bai bod y landlord neu'r deiliad yn cyflwyno hysbysiad i roi terfyn arno. Mae hyn yn gwneud synnwyr rhesymegol, fel arall ni fyddai gan y deiliad unrhyw gymhelliant i gytuno ar lai na chwe mis. Fel y mae'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl yn ei ddweud, byddai caniatáu i'r contractau hyn, sy'n defnyddio tenantiaeth hirdymor arfaethedig y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl neu gytundeb hawl i adnewyddu, gael eu hesemptio o'r moratoriwm yn golygu y byddai landlord yn gallu cynnig contract cyfnodol gydag addewid, mewn cyfnod penodol o amser, ac os yw'r cyfnod a bennir yn foddhaol, y byddai'r tenant yn cael cynnig yr hawl i adnewyddu yn awtomatig, a byddai'n rhaid i hyn fod wedi'i amlinellu ar ddechrau'r denantiaeth. Byddai hyn yn golygu, ar gyfer y rhan fwyaf o denantiaid nad ydynt eisiau, neu nad ydynt yn cael cynnig, yr hawl i adnewyddu, bod y moratoriwm chwe mis yn dal i gynnig amddiffyniad iddynt. Mae hyn yn dda mewn dwy ffordd i bobl a oedd yn ddigartref yn flaenorol gan ei fod yn cael gwared ar rwystr y moratoriwm chwe mis ar gyfer landlordiaid sy'n darparu llety, ac yn sicr mae'n rhoi mwy o gymhelliant iddynt wneud i'r cyfnod prawf weithio, gan y byddai ganddynt yr hawl i adnewyddu ar ddiwedd y cyfnod hwn, gan dybio bod popeth yn mynd yn dda.

The Residential Landlords Association have said that they've moved halfway on the question of longer-term tenancies, proposing a voluntary model that works for landlords and tenants. They don't believe, as the evidence shows, that longer fixed-term tenancies are in the interests of all landlords and all tenants, which is why they propose a voluntary approach. A six-month moratorium would act as a barrier between the most vulnerable and a suitable housing option. Removing a moratorium would increase access to accommodation for those most in need. This is the position the Minister originally took. That is no longer the case. This does not seek to reverse that decision, but simply to provide another option, which would need the agreement of both landlord and tenant in each case. They want to see, where the long-term tenancy agreement is due to come into effect within six months, that the contract is exempt from the moratorium, and only in such circumstances. This would create a periodic contract for no longer than six months, followed by the agreement, the effect of this being less security in the short term, but far greater security in the longer term, and more people housed in the interim period.

Mae'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wedi dweud eu bod wedi symud hanner ffordd ar y cwestiwn o denantiaethau tymor hwy, gan gynnig model gwirfoddol sy'n gweithio ar gyfer landlordiaid a thenantiaid. Nid ydynt yn credu, fel y dengys y dystiolaeth, bod tenantiaethau cyfnod penodol hwy er budd pob landlord a phob tenant, a dyna pam y maent yn cynnig dull gwirfoddol. Byddai moratoriwm chwe mis yn gweithredu fel rhwystr rhwng y rhai mwyaf agored i niwed a'r dewis addas o dai. Byddai cael gwared ar foratoriwm yn ei gwneud yn haws i'r rhai sydd mewn mwyaf o angen i gael gafael ar lety. Dyna'r safbwynt a gymerodd y Gweinidog yn wreiddiol. Nid yw hyn yn wir bellach. Nid yw hyn yn ceisio gwrthdroi'r penderfyniad hwnnw, ond yn syml i ddarparu dewis arall, a byddai angen i'r landlord a'r tenant gytuno ym mhob achos. Maent eisiau gweld, pan fo'r cytundeb tenantiaeth tymor hir i fod i ddod i rym o fewn chwe mis, bod y contract wedi ei esemptio o'r moratoriwm, a dim ond mewn amgylchiadau o'r fath. Byddai hyn yn creu contract cyfnodol am ddim mwy na chwe mis, wedi'i ddilyn gan y cytundeb, ac effaith hyn fyddai llai o sicrwydd yn y tymor byr, ond llawer mwy o ddiogelwch yn y tymor hwy, a mwy o bobl yn cael eu cartrefu yn y cyfamser.

As Citizens Advice Cymru said:

Fel y dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru:

'The Renting Homes Bill as it currently stands promotes the "periodic standard contract" which offers the lowest form of security of tenure as landlords can evict their tenants with 2 months notice at any time, regardless of whether the tenant is at fault or has been there for a day or a year. As the Bill stands now, at the end of a fixed-term contract, tenants automatically passport on to a periodic contract which can run indefinitely. We believe this puts tenants in a vulnerable position and promotes insecurity within the sector.'

'Ar hyn o bryd, mae'r Bil Rhentu Cartrefi yn hybu'r "contract cyfnodol safonol" sy'n cynnig y math lleiaf o sicrwydd deiliadaeth gan y gall landlordiaid droi eu tenantiaid allan ar unrhyw adeg gyda rhybudd o ddeufis, waeth a yw'r tenant ar fai neu wedi bod yno am ddiwrnod neu flwyddyn. Yn y fersiwn gyfredol o'r Bil, mae tenantiaid, ar ddiwedd contract cyfnod penodedig, yn mynd ymlaen i gontract cyfnodol yn awtomatig, a gall hyn barhau'n ddi-ben-draw. Rydym yn credu bod hyn yn rhoi tenantiaid mewn sefyllfa fregus ac mae'n hybu ansicrwydd yn y sector.'

They believe the Bill should therefore promote fixed-term contracts of longer tenancies, offering greater stability to those living in the private rented sector. Tenants and landlords could retain their right to opt out of moving to a fixed-term contract through a negotiation agreement and through the use of break clauses within the model contract. They call on the Assembly to seek ministerial commitment to a model contract offering secure, long-term contracts for the private rented sector by providing supplementary terms that enable tenants and landlords to opt for up to five-year fixed-term contracts with introductory periods, i.e. probationary periods, and break clauses to provide both landlords and tenants with greater security. As Assembly lawyers have emphasised, the amendment as drafted would do nothing to stop a landlord or contract holder from agreeing a fixed-term standard contract of whatever length they agree, where the full-time contract cannot be extended by the landlord during the fixed term unless the contract holder is in breach—sorry, the contract cannot be cancelled or challenged by the landlord unless the tenant is in breach. So, this complements—it doesn't seek to replace or undo—to increase housing and to provide greater security at the end of the period for tenants. I move accordingly.

Maent yn credu, felly, y dylai'r Bil hyrwyddo contractau tymor penodol ar gyfer tenantiaethau hwy, gan gynnig mwy o sefydlogrwydd i'r rhai sy'n byw yn y sector rhentu preifat. Gallai tenantiaid a landlordiaid gadw eu hawl i ddewis peidio â symud i gontract cyfnod penodol trwy gytundeb negodi a thrwy ddefnyddio cymalau terfynu o fewn y contract enghreifftiol. Maent yn galw ar y Cynulliad i geisio ymrwymiad gweinidogol i gontract enghreifftiol sy'n cynnig contractau diogel, tymor hir ar gyfer y sector rhentu preifat drwy ddarparu telerau atodol sy'n galluogi tenantiaid a landlordiaid i ddewis contractau cyfnod penodol hyd at bum mlynedd gyda chyfnodau rhagarweiniol, h.y. cyfnodau prawf, a chymalau terfynu i roi mwy o sicrwydd i landlordiaid a thenantiaid. Fel y mae cyfreithwyr y Cynulliad wedi'i bwysleisio, ni fyddai'r gwelliant fel y'i drafftiwyd yn gwneud dim i atal landlord neu ddeiliad contract rhag cytuno ar gontract safonol cyfnod penodol o ba bynnag hyd y maent yn cytuno arno, lle na all y contract llawn amser gael ei ymestyn gan y landlord yn ystod y cyfnod penodol oni bai bod y deiliad contract yn torri amodau'r contract hwnnw—mae'n ddrwg gennyf, ni all y contract gael ei ganslo na'i herio gan y landlord oni bai bod y tenant wedi torri'r amodau. Felly, mae hyn yn ategu—nid yw'n ceisio disodli na dadwneud—i gynyddu tai ac i ddarparu mwy o sicrwydd ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer tenantiaid. Rwyf yn cynnig yn unol â hynny.

17:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think during the passage of this Bill we have discussed this on and off between ourselves and in the committee, and it's certainly an interesting development, looking at whether we could replicate what happens in the public sector in terms of the private rented sector, with probationary tenancies and a longer-term contract. I think it's actually in the interests of both tenants and landlords to have a long-term tenancy, where there is stability for the tenant and certainty of income for the landlord, where that's possible. I'm not sure whether the amendments we have in front of us are the solution to that, but I certainly think they're the basis of further work that needs to be done in consultation to develop this particular provision, and to see whether or not there is some mileage in moving this way in future.

Rwyf yn credu yn ystod hynt y Bil hwn ein bod wedi trafod hyn ar brydiau gyda'n gilydd ac yn y pwyllgor, ac mae'n sicr yn ddatblygiad diddorol, sy'n ystyried pa un a allem ailadrodd yr hyn sy'n digwydd yn y sector cyhoeddus o ran y sector rhentu preifat, gyda thenantiaethau cyfnod prawf a chontract tymor hwy. Rwy'n credu ei fod mewn gwirionedd er budd tenantiaid a landlordiaid i gael tenantiaeth tymor hir, lle ceir sefydlogrwydd ar gyfer y tenant a sicrwydd incwm ar gyfer y landlord, pan fo hynny'n bosibl. Nid wyf yn siŵr ai'r gwelliannau sydd gennym ger ein bron yw'r ateb i hynny, ond yr wyf yn sicr yn credu eu bod yn sail i fwy o waith y mae angen ei wneud mewn ymgynghoriad i ddatblygu'r ddarpariaeth benodol hon, ac i weld a yw'n werth i ni symud i'r cyfeiriad hwn yn y dyfodol.

17:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

17:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Amendment 215 from Mark Isherwood would create a periodic probationary contract, and amendment 214 provides for this contract to be included as an exception under Part 3 of Schedule 2, which relates to tenancies and licences that are never occupation contracts.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Byddai gwelliant 215 gan Mark Isherwood yn creu contract cyfnod prawf cyfnodol, ac mae gwelliant 214 yn darparu ar gyfer cynnwys y contract hwn fel eithriad o dan Ran 3 o Atodlen 2, sy'n ymwneud â thenantiaethau a thrwyddedau nad ydynt fyth yn gontractau meddiannaeth.

These probationary contracts would be able to be provided by a landlord to a tenant on a six-month basis, before any periodic standard occupation contract is offered. Furthermore, the amendments, as they are, would allow this six-month period to be extended by the landlord, seemingly for an indefinite period.

Byddai'r contractau cyfnod prawf hyn yn gallu cael eu darparu gan landlord i denant bob chwe mis, cyn i unrhyw gontract meddiannaeth safonol cyfnodol gael ei gynnig. Yn ogystal, byddai'r gwelliannau, fel ag y maent, yn caniatáu i'r cyfnod hwn o chwe mis gael ei ymestyn gan y landlord, yn ôl pob golwg am gyfnod amhenodol.

The Bill, as drafted, makes no other provision for such a periodic probationary contract, which would appear to apply to both the private and social rental sectors. This would, in effect, mean a tenant is only provided a contract with the bare minimum protection on a six-month rolling basis until the landlord is willing to provide an occupation contract.

Nid yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn gwneud unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer contract cyfnod prawf cyfnodol o'r fath, y mae'n ymddangos sydd yn gymwys i'r sectorau rhentu preifat a chymdeithasol. Byddai hyn, i bob pwrpas, yn golygu bod tenant ddim ond yn cael contract â'r mymryn lleiaf o ddiogelwch ar sail dreigl chwe mis nes bod y landlord yn fodlon darparu contract meddiannaeth.

Leaving aside the question of how they could be drafted to interface with the provisions in the Bill, these amendments would completely undermine the whole purpose of this Bill. The Bill provides for a clear and fair contractual agreement, underpinning the arrangements upon which a person rents their home. The amendments would mean a significant backwards step from the current legal framework for private rental tenancies, which are set out in the Housing Act 1988.

Gan adael o'r neilltu y cwestiwn o sut y gallent gael eu drafftio i gyd-fynd â'r darpariaethau yn y Bil, byddai'r gwelliannau hyn yn tanseilio holl bwrpas y Bil hwn yn llwyr. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cytundeb contract clir a theg, sy'n sail i'r trefniadau ar gyfer unigolyn yn rhentu ei gartref. Byddai'r gwelliannau yn golygu cam sylweddol tuag yn ôl o'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer tenantiaethau rhentu preifat, a nodir yn Neddf Tai 1988.

Mark Isherwood's amendments, I think, would actually increase insecurity, and that's the exact opposite of what this Welsh Government wants from this Bill.

Byddai gwelliannau Mark Isherwood, rwy'n credu, yn cynyddu ansicrwydd mewn gwirionedd, a dyna'r union wrthwyneb i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru ei eisiau o'r Bil hwn.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood to reply.

Mark Isherwood i ymateb.

17:56 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This amendment is most specifically not proposing a rolling six-month term, as the Minister hopefully well knows. I don't know whether it's parliamentary to use the term 'mischievous'; would it be mischievous to suggest such a thing? As we've made clear, and as the Assembly lawyers clearly drafted, and have advised accordingly, this is restricted to six months maximum, which is in line with the Residential Landlords Association's suggestion; it's also in line with the other bodies. I referred to Citizens Advice; of course, I believe other housing charities have also voiced support—such as Shelter—for the principle of longer-term tenancies after the probationary period.

Nid yw'r gwelliant hwn, yn benodol iawn, yn cynnig cyfnod treigl chwe mis, fel y gŵyr y Gweinidog yn iawn, gobeithio. Nid wyf yn gwybod a yw'n seneddol i ddefnyddio'r term 'drygionus'; a fyddai'n ddrygionus i awgrymu'r fath beth? Fel yr ydym wedi ei wneud yn glir, ac fel y mae cyfreithwyr y Cynulliad wedi'i ddrafftio'n glir, ac wedi cynghori yn unol â hynny, mae hyn yn cael ei gyfyngu i hyd at chwe mis, sydd yn unol ag awgrym y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl; mae hefyd yn unol â'r cyrff eraill. Cyfeiriais at Gyngor ar Bopeth; wrth gwrs, yr wyf yn credu bod elusennau tai eraill hefyd wedi lleisio cefnogaeth—megis Shelter—i'r egwyddor o denantiaethau tymor hwy ar ôl y cyfnod prawf.

But this doesn't seek to replace the Minister's u-turn over the six-month moratorium; that is accepted. It's come halfway back to say that if, and only if, tenants agree to a maximum six-month period, with a guarantee of greater security and the potential of longer-term tenancies after that, rather than just being evicted after two months, which your legislation enables, it gives them that security. If somebody genuinely has advised you that this is about rolling six-month contracts, then I suggest you go back and ask them to check that, because, certainly, the intention of the Assembly lawyers who drafted this was to meet the objective of all parties to limit this to a maximum six-month period with flexible probationary terms, greater security and, therefore, greater supply for the people who need it most.

Ond nid yw hyn yn ceisio cymryd lle tro pedol y Gweinidog dros y moratoriwm chwe mis; derbynnir hynny. Mae wedi dod hanner ffordd yn ôl i ddweud os, a dim ond os, yw tenantiaid yn cytuno i gyfnod o chwe mis ar y mwyaf, gyda gwarant o fwy o ddiogelwch a photensial o gael tenantiaethau tymor hwy ar ôl hynny, yn hytrach na dim ond cael eu troi allan ar ôl dau fis, y mae eich deddfwriaeth chi yn ei alluogi, mae'n rhoi'r sicrwydd hwnnw iddynt. Os bydd rhywun mewn gwirionedd wedi eich cynghori bod hyn yn ymwneud â chontractau treigl chwe mis, yna rwy'n awgrymu eich bod yn mynd yn ôl a gofyn iddynt wirio hynny, oherwydd, yn sicr, bwriad cyfreithwyr y Cynulliad a ddrafftiodd hyn oedd cyflawni amcan pob parti i gyfyngu hyn i gyfnod o chwe mis ar y mwyaf gyda thelerau cyfnod prawf hyblyg, mwy o sicrwydd ac, felly, mwy o gyflenwad ar gyfer y bobl sydd fwyaf ei angen.

I will finish by quoting a landlord who wrote to me, and possibly some others, about this very point. He defines himself as a member of the ethnic community; it's not necessarily a term we all use, but I'm using his terminology. He asks if any laws have been broken by not engaging members of the ethnic community in the process of this Bill via indirect discrimination. He says that the vulnerable members of his community can be really helped by providing, for example, a three-month probationary tenancy, or a version, he says, like your amendment proposal. He says:

Rwyf am orffen drwy ddyfynnu landlord a ysgrifennodd ataf, ac o bosibl rhai eraill, am yr union bwynt hwn. Mae'n diffinio ei hun fel aelod o'r gymuned ethnig; nid yw o reidrwydd yn derm yr ydym i gyd yn ei ddefnyddio, ond rwy'n defnyddio ei derminoleg ef. Mae'n gofyn a oes unrhyw gyfreithiau wedi eu torri trwy beidio ag ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned ethnig ym mhroses y Bil hwn trwy wahaniaethu anuniongyrchol. Dywed y gall aelodau sy'n agored i niwed o'i gymuned ef gael cymorth gwirioneddol trwy ddarparu, er enghraifft, tenantiaeth cyfnod prawf o dri mis, neu fersiwn, meddai, fel eich cynnig o welliant. Mae'n dweud:

'Even though I've received confirmation of my e-mails to the Minister twice, she's never responded to them'.

'Er fy mod i wedi derbyn cadarnhad o fy negeseuon e-bost at y Gweinidog ddwywaith, nid yw hi erioed wedi ymateb iddynt'.

He said:

Dywedodd ef:

'It seems the Minister has changed her stance on the six-month moratorium, and maybe she needs to rethink this, with your persuasion, that a creative change is needed in order for tenants to secure a longer contract'.

'Mae'n ymddangos bod y Gweinidog wedi newid ei safbwynt ar y moratoriwm chwe mis, ac efallai bod angen iddi ailystyried hyn, gyda'ch perswâd chi, bod angen newid creadigol er mwyn i denantiaid sicrhau contract hwy'.

That is what this is about, and to suggest it's a six-month rolling contract is regrettable at the very least.

Dyna beth mae hyn yn ymwneud ag ef, ac mae awgrymu ei fod yn gontract treigl chwe mis yn peri gofid o leiaf.

17:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 214 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23; there voted against 27; there were four abstentions; therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 214 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 23 wedi pleidleisio o blaid; mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn; roedd pedwar wedi ymatal; Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 214: O blaid 23, Yn erbyn 27, Ymatal 4.*

*Amendment 214 not agreed: For 23, Against 27, Abstain 4.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 214

Result of the vote on amendment 214

17:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 147.

Weinidog, gwelliant 147.

*Cynigiwyd gwelliant 147 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 147 (Lesley Griffiths) moved.*

17:59

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 147 be agreed. Does any Member object? Then amendment 147 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 147 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 147 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 147 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 147 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood, amendment 215.

Mark Isherwood, gwelliant 215.

*Cynigiwyd gwelliant 215 (Mark Isherwood).*

*Amendment 198 (Mark Isherwood) moved.*

18:00

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwyf yn cynnig.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 215 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, there voted against 27, there were four abstentions. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 215 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 23 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn, roedd pedwar wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 215: O blaid 23, Yn erbyn 27, Ymatal 4.*

*Amendment 215 not agreed: For 23, Against 27, Abstain 4.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 215

Result of the vote on amendment 215

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 148.

Weinidog, gwelliant 148.

*Cynigiwyd gwelliant 148 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 148 (Lesley Griffiths) moved.*

18:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv Fideo Video

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 148 be agreed. Does any Member object? Then amendment 148 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 148 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 148 wedi ei dderbyn felly.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 148 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 148 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I propose that amendments 149 to 153 are disposed of en bloc. Does any Member object? Minister, amendments 149 to 153.

Cynigiaf fod gwelliannau 149 i 153 yn cael eu gwaredu gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Weinidog, gwelliannau 149 i 153.

Senedd.tv Fideo Video

*Cynigiwyd gwelliannau 149, 150, 151, 152 a 153 (Lesley Griffiths).*

*Amendments 149, 150, 151, 152 and 153 (Lesley Griffiths) moved.*

18:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv Fideo Video

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendments 149 to 153 be agreed. Does any Member object? Then amendments 149 to 153 are agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliannau 149 i 153 yn cael eu derbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliannau 149 i 153 wedi eu derbyn felly.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliannau 149, 150, 151, 152 a 153 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendments 149, 150, 151, 152 and 153 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, amendment 154.

Weinidog, gwelliant 154.

Senedd.tv Fideo Video

*Cynigiwyd gwelliant 154 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 154 (Lesley Griffiths) moved.*

18:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv Fideo Video

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 154 be agreed. Does any Member object? Then amendment 154 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 154 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 154 wedi ei dderbyn felly.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 154 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 154 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, amendment 155.

Weinidog, gwelliant 155.

Senedd.tv Fideo Video

*Cynigiwyd gwelliant 155 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 155 (Lesley Griffiths) moved.*

18:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv Fideo Video

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 155 be agreed. Does any Member object? Then amendment 155 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 155 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 155 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 155 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 155 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 156.

Weinidog, gwelliant 156.

*Cynigiwyd gwelliant 156 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 156 (Lesley Griffiths) moved.*

18:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 156 be agreed. Does any Member object? Then amendment 156 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 156 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 156 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 156 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 156 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 157.

Weinidog, gwelliant 157.

*Cynigiwyd gwelliant 157 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 157 (Lesley Griffiths) moved.*

18:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 157 be agreed. Does any Member object? Then amendment 157 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 157 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 157 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 157 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 157 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 158.

Weinidog, gwelliant 158.

*Cynigiwyd gwelliant 158 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 158 (Lesley Griffiths) moved.*

18:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 158 be agreed. Does any Member object? Then amendment 158 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 158 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 158 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 158 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 158 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 159.

Weinidog, gwelliant 159.

*Cynigiwyd gwelliant 159 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 159 (Lesley Griffiths) moved.*

18:01

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 159 be agreed. Does any Member object? Then amendment 159 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 159 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 159 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 159 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 159 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I propose that amendments 160 to 162 be disposed of en bloc. Does any Member object? [Objection.] Therefore, we will vote on each amendment individually—[Interruption.] As is proper procedure when a Member has objected.

Cynigiaf fod gwelliannau 160 i 162 yn cael eu gwaredu gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Felly, byddwn yn pleidleisio ar bob gwelliant yn unigol—[Torri ar draws.] Yn unol â'r weithdrefn briodol pan fo Aelod wedi gwrthwynebu.

Minister, amendment 160.

Weinidog, gwelliant 160.

*Cynigiwyd gwelliant 160 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 160 (Lesley Griffiths) moved.*

18:02

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 160 be agreed. Does any Member object? Then amendment 160 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 160 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 160 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 160 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 160 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 161.

Weinidog, gwelliant 161.

*Cynigiwyd gwelliant 161 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 161 (Lesley Griffiths) moved.*

18:02

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

18:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 161 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. Forty-two in favour, no votes against, there were 12 abstentions. Therefore, the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 161 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae pedwar deg dau o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn, roedd 12 wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 161: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment 161 agreed: For 42, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 161

Result of the vote on amendment 161

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 162.

Weinidog, gwelliant 162.

*Cynigiwyd gwelliant 162 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 162 (Lesley Griffiths) moved.*

18:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 162 be agreed. Does any Member object? Then amendment 162 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 162 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 162 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 162 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 162 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 163.

Weinidog, gwelliant 163.

*Cynigiwyd gwelliant 163 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 163 (Lesley Griffiths) moved.*

18:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 163 be agreed. Does any Member object? Then amendment 163 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 163 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 163 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 163 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 163 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 164.

Weinidog, gwelliant 164.

*Cynigiwyd gwelliant 164 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 164 (Lesley Griffiths) moved.*

18:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 164 be agreed. Does any Member object? Then amendment 164 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 164 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 164 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 164 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 164 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 165.

Weinidog, gwelliant 165.

*Cynigiwyd gwelliant 165 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 165 (Lesley Griffiths) moved.*

18:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 165 be agreed. Does any Member object? Then amendment 165 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 165 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 165 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 165 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 165 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 166.

Weinidog, gwelliant 166.

*Cynigiwyd gwelliant 166 (Lesley Griffiths).*

*Amendment 166 (Lesley Griffiths) moved.*

18:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 166 be agreed. Does any Member object? Then amendment 166 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 166 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 166 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 166 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 166 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 136 to 138 are disposed of en bloc. Does any Member object? Minister, amendments 136 to 138.

Cynigiaf fod gwelliannau 136-138 yn cael eu gwaredu gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Weinidog, gwelliannau 136 i 138.

*Cynigiwyd gwelliannau 136, 137 a 138 (Lesley Griffiths).*

*Amendments 136, 137 and 138 (Lesley Griffiths) moved.*

18:04 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendments 136 to 138 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46, no votes against, there were seven abstentions. Therefore, those amendments are agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliannau 136 i 138 yn cael eu derbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 46 wedi pleidleisio o blaid, dim pleidleisiau yn erbyn, roedd saith wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliannau hynny wedi eu derbyn.

*Derbyniwyd gwelliannau 136, 137 a 138: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 7.*

*Amendments 136, 137 and 138 agreed: For 46, Against 0, Abstain 7.*

Canlyniad y bleidlais ar welliannau 136, 137 a 138

Result of the vote on amendments 136, 137 and 138

18:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Renting Homes (Wales) Bill. I declare that all sections and Schedules of the Bill are deemed agreed.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Rhentu Cartrefi (Cymru). Rwyf yn datgan y bernir bod pob adran ac Atodlen o'r Bil wedi eu derbyn.

*Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.*

*All sections of the Bill deemed agreed.*

18:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes Stage 3 proceedings and also concludes today's proceedings. Thank you.

Mae hynny'n dod â thrafodion Cyfnod 3 i ben a hefyd yn dod â thrafodion heddiw i ben. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:05.*

*The meeting ended at 18:05.*